# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 9FED MAI, 2024**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Aml-leoliad**
**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH / Rhithiol ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 30/04/24)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MAWRTH, 30 EBRILL, 2024**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 9 MAI 2024**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 9FED MAI, 2024 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Gwyrfai

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer 2024/25.

**2. IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. COFNODION** 6 - 36

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2024 fel rhai cywir.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**7. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**8. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

**9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 37 - 40

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**10. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2024/25.

[Yn unol â gofynion Adran 14 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru)

2011, y Cyngor llawn sydd i benodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.]

**11. ADOLYGIAD O DDATGANIAD O BOLISI DRAFFT - DEDDF TRWYDDEDU 2003** 41 - 109

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd.

**12. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Gwynfor Owen yn cynnig fel a ganlyn:-

**Mae Rheilffordd Arfordir y Cambrian o bwys aruthrol i economi Gwynedd, gyda miloedd o ymwelwyr yn ei defnyddio, ond yn bwysicach na hynny mae pobl Gwynedd eu hunain yn defnyddio y Rheilffordd yma yn ddyddiol er mwyn mynd i'r ysgol, i'r gwaith, i siopio neu ar gyfer pwrpasau hamdden.**

**Yn ddiweddar mae Trafnidiaeth Cymru wedi datgan eu bod eisiau torri y nifer o drenau sydd yn rhedeg ar y hyd y lein.**

**Y ffordd i wella'r defnydd o drenau yw trwy gynyddu'r nifer o drenau ac yn bendant dim eu torri.**

**Mae'r Cyngor yma yn datgan yn glir i Drafnidiaeth Cymru ac i Lywodraeth Cymru, sef perchnogion Trafnidiaeth Cymru, nad yw unrhyw doriad yn y nifer o drenau ar Reilffordd y Cambrian yn dderbyniol, ac yn hytrach y dylid edrych ar sut i gynyddu'r nifer o drenau trwy'r flwyddyn.**

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELFED WYN AP ELWYN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn yn cynnig fel a ganlyn:-

**Mae Cyngor Gwynedd o'r farn na ddylai yr un tŷ fod yn ddim byd ond cartref hyd nes bod pob un â chartref clyd, addas a phwrpasol. Dyma yw amcan y Cyngor yma. Rydym ni yn galw ar Lywodraeth Cymru i alluogi y Cyngor hwn i weithredu er mwyn rhoi pobl Gwynedd gyntaf drwy fynd ati i greu Ddeddf Eiddo fydd yn cynnig fframwaith statudol a lleol i gefnogi cymunedau, darparwyr tai ac awdurdodau lleol i ymateb i'r argyfwng presennol.**

**(C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD LLIO ELENID OWEN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Llio Elenid Owen yn cynnig fel a ganlyn:-

**Mae canolfannau Ambiwlans Awyr Cymru sydd yn gwasanaethu trigolion Gwynedd ar hyn o bryd wedi eu lleoli yn Ninas Dinlle ac yn y Trallwng. Gall cau y canolfannau hyn, a'u canoli, fod yn negyddol iawn, hyd yn oed yn andwyol, i bobl Gwynedd - yn enwedig i'r rhai sy'n byw yn y llefydd mwyaf diarffordd. Mae angen sicrhau mai bywydau pobl sy'n cael y flaenoriaeth fan hyn. Credaf fod y penderfyniad hyn yn groes i ddymuniad y cyhoedd, yn enwedig y cyhoedd yma yng Ngwynedd.**

**13. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL** 110 - 111

Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybuddion o gynnig y Cynghorwyr Gruffydd Williams a Dewi Jones i gyfarfod 7 Mawrth, 2024 o'r Cyngor ynglŷn â chefnogaeth i ffermwyr.

# Y CYNGOR 07/03/24

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Beca Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:-** Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau), Eurig Huw Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Busnes y Cyngor), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen J. Davies, Kim Jones, Beth Lawton a Gareth Roberts.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr, 2023 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

1. Y Swyddog Monitro, ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol, gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

   Roedd o'r farn bod gan y swyddogion fuddiant o sylwedd, ac ynghyd â'r ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, gadawodd y Swyddog Monitro'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, gan nad oeddent angen bod yn bresennol i gynghori. Arhosodd y Prif Weithredwr i mewn yn y cyfarfod i gynghori.

2. Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 19(a) – Rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Gruffydd Williams ac eitem 19(b) – Rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Dewi Jones.

   Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 19(a) a 19(b) ar y rhaglen – Rhybuddion o gynnig:-

   Y Cynghorwyr Dafydd Davies, Elfed Wyn ap Elwyn, Anwen Hughes, Anne Lloyd Jones, Elwyn Jones, Dewi Owen a Richard Glyn Roberts oherwydd eu bod yn amaethu.

   Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Dewi Owen a'r teulu ar golli ei fam;
- Y Cynghorydd Dylan Fernley ar golli ei dad.
- Teulu Dylan Jones o'r Adran Dai ac Eiddo fu farw'n ddiweddar, yn arbennig ei frawd, Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, a rhoddwyd teyrnged gan y Prif Weithredwr.

Nodwyd bod sawl teulu arall yng Ngwynedd hefyd wedi colli rhai annwyl iddyn nhw yn ddiweddar a dymuna'r Cyngor anfon ei gydymdeimlad llwyr at y teuluoedd hyn.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

- Llongyfarchwyd a chroesawyd y Cynghorydd Newydd, Sian Williams o ward Cricieth sy'n mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Cyngor heddiw.
- Cydnabuwyd gwaith Prifysgol Bangor ym maes iechyd y cyhoedd wrth i fedal a thystysgrif gwobr y Frenhines gael ei gyflwyno i'r brifysgol yn ddiweddar.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CWESTIYNAU**

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruff Williams**

Sut y gwnaeth Cabinet y Cyngor hwn gytuno â Chyngor Môn i beidio a gwneud y Gymraeg yn amcan o Gynllun Llesiant ar y Cyd newydd?

**Ateb – Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

Yn gyntaf dylid nodi fod yr iaith Gymraeg yn flaenoriaeth barhaol i'r Bwrdd ers ei sefydlu yn ôl yn 2015. Fel ag y nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd .....*'Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Fe fydd pob aelod yn paratoi adroddiadau yn ddwyieithog.'*

Mae gofyn statudol i'r Bwrdd gyhoeddi Cynllun Llesiant a sefydlu amcanion llesiant pob 5 mlynedd. Golyga hyn fod y Cynllun Llesiant newydd (2023-28) ar gyfer Gwynedd a Môn yn gosod amcanion ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn unig. Fe gofiwch

i'r Cynllun hwnnw gael ei gymeradwyo gan y Cyngor hwn ar y 4 o Fai y llynedd. Adnabuwyd tri amcan ar gyfer y cyfnod dan sylw yn seiliedig ar ganlyniadau'r asesiadau llesiant a gwblhawyd yn 2022. Tra bod Amcanion Llesiant yn newid dros amser tydi ymrwymiad y Bwrdd i flaenoriaethu'r iaith Gymraeg ddim yn newid.

Datblygwyd yr amcanion ar y cyd hefo holl aelodau'r Bwrdd ac mae'r Cynllun Llesiant wedi ei gymeradwyo yn ffurfiol gan yr holl aelodau statudol, sef Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru.

Dyma ddyfyniad o Gynllun Cyflawni 2023/24 y Bwrdd sy'n gosod allan y flaenoriaeth i'r Gymraeg ac i'r amcanion am y pum mlynedd dan sylw:
Dyma ein blaenoriaeth parhaol:
Mae'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth parhaol i'r Bwrdd ac rydym yn ei hyrwyddo ym mhob maes o'n gwaith

*Dyma ein Amcanion Llesiant am y cyfnod 2023-28:*

- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.*

*Rydym fel Bwrdd wedi cytuno i ddilyn methodoleg System Gyfan a Pwysa Iach/Cymru Iach fel llinyn euraidd drwy'r gwaith yma.*

Cyfeiriwyd at ddarlun oedd wedi ei gyhoeddi yn yr ateb ysgrifenedig oedd yn gosod allan yr uchod gyda'r iaith Gymraeg yn y canol yn treiddio drwy holl waith y Bwrdd.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Gruff Williams**

O ystyried yr hyn rydych wedi ei nodi, fedrwch chi gadarnhau felly os ydi'r Gymraeg yn rhy bwysig i fod yn amcan llesiant neu ddim digon pwysig i fod yn amcan llesiant?

**Ateb – Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

Mae'r Gymraeg yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud yn y Cyngor ac nid yw'n ffitio fewn i un bocs penodol. Ni chredaf ei fod yn gwestiwn y gellir ei ateb efo ia neu na, dim ond nodi fod y Gymraeg yn dreiddiol drwy'r Cyngor.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Angela Russell**

Mae'r gwasanaeth bysus hwyr y nos o Bwllheli i ardaloedd gwledig Llŷn wedi bod yn fendithiol i lawer iawn o'r boblogaeth yma yn Nwyfor dros y degawdau ac yn fodd i bobl unig cael mynd i gymdeithasu i'r dref unwaith yr wythnos. Ers cyfnod y clo ni welwyd y gwasanaeth yma yn ail gychwyn.

Hoffwn ofyn wrth yr aelod cabinet pa gamau sydd wedi'u cymeryd gan yr Adran Drafnidiaeth i ddwyn perswâd ar y cwmnïau bysus i ail gychwyn y gwasanaeth hwyr y nos o Bwllheli i Aberdaron / o Bwllheli i Nefyn?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Diolch am y cwestiwn a cydymdeimlaf, rwy'n colli gweld trefniadau o'r fath yn ogystal. Ar sail genedlaethol, mae'n amser heriol iawn i'r diwydiant bysiau am sawl rheswm. Mae costau darparu gwasanaethau wedi codi yn sylweddol, mae yna bremiwm ar

adnoddau ac mae'n anodd ennyn defnydd digonol a parhaus i wneud rhai gwasanaethau yn hyfyw. Yn anffodus, ond yn anorfod, golyga hyn fod darparu gwasanaethau tu allan i amseroedd craidd yn enwedig, gan gynnwys gyda'r nos, wedi mynd yn fwyfwy anodd sydd yn cynnwys, mewn rhai achosion, oherwydd diffyg gyrwyr i ymgymryd â'r gwaith.

Mae'r Uned Trafnidiaeth yn gweithio'n agos gyda darparwyr, ynghyd a rhanddeiliaid allweddol eraill megis Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o uchafu cyfleoedd teithio a darparu gwasanaethau sydd yn ariannol ac amgylcheddol gynaliadwy. Mae adolygiad estynedig o'r gwasanaethau bws lleol sydd yn cael eu darparu ar ran y Cyngor wedi ei gynnal. Yn dilyn y gwaith yma ac er yr heriau a chynnydd sylweddol yng nghostau, mae gwasanaethau ar ei newydd wedd erbyn hyn wedi eu comisiynu ac yn gweithredu yn ardaloedd Caernarfon, Dyffryn Nantlle a Meirionnydd. Mae proses pwrcasu ar gyfer gwasanaethau yn ardal Dwyfor yn mynd rhagddo a'r ffocws, yn y lle cyntaf, yw edrych i gynnal lefel o ddarpariaeth ar gyfer pwrpasau ac yn ystod amseroedd craidd.

Yn anffodus, mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae yna gwtogi a rhesymoli sylweddol a chyffredinol o wasanaethau bws wedi mynd rhagddo gyda mwy yn debygol. Y gobaith yw y byddwn yn medru parhau i wrthsefyll hyn yng Ngwynedd.

Does gan y Cyngor ddim dylanwad uniongyrchol ar weithrediad gwasanaethau mae cwmnïau bws yn dewis eu darparu ar sail fasnachol. Mae amserlenni'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu comisiynu yn seiliedig ar wneud y mwyaf o adnoddau er mwyn cwrdd ag anghenion craidd, yn y lle cyntaf, gan gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau a heriau cyllidebol.

Mae rhwydweithiau bysiau yn ddeinamig ac yn medru newid. Bydd swyddogion yn parhau yn eu hymdrechion i uchafu cyfleoedd teithio ar gyfer trigolion Gwynedd gyda'r cyllidebau ac adnoddau sydd ar gael. Er yn annhebyg iawn yn yr hinsawdd sydd ohoni, pe bae cyfle i adfer gwasanaeth gyda'r nos rhwng Pwllheli ac ardaloedd ym Mhen Llŷn yna byddwn yn edrych yn gadarnhaol ar hyn. Mae'r rhesymau dros gynnal gymaint o gyfleoedd teithio am gymaint o wahanol resymau a phosib yn niferus a chryf ond yn anffodus, er gwaetha'r dymuniad a ymdrechion gorau, ni fydd modd cwrdd â chyfarch pob angen, galw a dyhead.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Angela Russell**

Diolch am yr ymateb. Rydym yn trafod heddiw'r pwysigrwydd o gadw pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Hoffwn nodi bod y bws yma yn arfer bod yn llawn. Rwyf yn erfyn arnoch i ail edrych ar y mater gan ein bod yn son am iechyd meddwl pobl oherwydd diffyg gallu cymdeithasu. Mae'n ddyletswydd arnom i helpu pobl. Pe baech yn cymharu sefyllfa Pen-Llŷn efo Bangor neu Gaernarfon byddwch yn gweld bod yna lawer llai o fysiau yn rhedeg yma. Gofynnaf i Dafydd Meurig ail edrych ar hyn.

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Rwyf yn cydymdeimlo. Mae'r gwasanaethau yn Nwyfor yn cael eu tendro ar hyn o bryd, cawn weld be ddaw o'r broses yno.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

Yn ddiweddar deallaf bod Pwyllgor Mynwent wedi derbyn hysbys gan y Cyngor yn nodi rheoliadau ar gyfer gwastraff masnachol i rannu gwastraff o fewn y biniau. Gan ystyried fod aelodau pwyllgorau o'r fath yn gweithredu yn ddi-dâl a chydag

aelodau/ymddiriedolwyr oedrannus a bod bwlch o wahaniaeth rhwng natur gweithgarwch pwyllgor mynwent a busnes stryd fawr, tybed os oes gan y Cyngor hwn gynllun ar waith i hwyluso neu i liniaru'r gofynion hyn ar eu cyfer?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Diolch am y cwestiwn sydd yn gwestiwn digon teg yn dilyn nwid yn y ddeddfwriaeth. O fis Ebrill 2024, bydd Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd Llywodraeth Cymru yn dod i rym. Bydd angen i bob eiddo annomestig wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu oddi wrth wastraff arall. Mae'r rheolau newydd hyn yn berthnasol i bob busnes a'r sectorau cyhoeddus ac elusennol. Rydym wedi derbyn cadarnhad bod mynwentydd yn disgyn o dan y Rheoliadau hyn hefyd.

Pwrpas y Rheoliadau yw gwella ansawdd a maint y gwastraff ailgylchadwy masnachol sy'n cael ei gasglu a'i wahanu ledled Cymru. Perchennog yr eiddo fydd yn gyfrifol am yr holl wastraff ar y safle; mae hyn yn cynnwys gwastraff a gynhyrchir gan ymwelwyr.

Bydd gan y Cyngor yr hawl i wrthod casglu'r gwastraff cyffredinol os yw'n cynnwys gwastraff ailgylchadwy. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cael ei gorfodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a gallwn fel Cyngor dderbyn dirwy o £500 os cawn ein dal yn casglu gwastraff sy'n cynnwys deunyddiau ailgylchadwy.

Rydym wedi codi'r mater yma efo Cyfoeth Naturiol Cymru ond nid oeddent yn rhagweld y byddai'r mathau gwahanol o'r eitemau sydd yn orfodol i'w hailgylchu yn cyrraedd y biniau hyn. Fodd bynnag, mae disgwyliad i berchennog y bin wneud ymdrech i sicrhau nad oes eitemau a ellir eu hailgylchu, megis papur, plastigion a chaniau metel yn cael eu gwaredu yn y bin cyffredinol. Ar hyn o bryd byddai'n ddigonol a rhesymol gosod arwydd ar y bin yn nodi mai gwastraff cyffredinol o'r fynwent yn unig a ddylid ei waredu yn y bin.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried bod y Pwyllgor Mynwent lleol i mi wedi cael braw wrth dderbyn set o reoliadau heb eglurhad, rwyf yn gofyn a oes yna fodd i'r Cyngor ohebu ymhellach efo Pwyllgorau Mynwentydd gan argymell yr hyn allant ei wneud i fodloni'r rheolau e.e. gosod arwydd.

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Cytunaf a'r hyn rwyt yn ei nodi gan gydnabod efallai bod ieithwedd dechnegol ddim yn addas mewn rhai achosion. Rwyf yn hapus i ofyn i'r Adran ysgrifennu eto at y Pwyllgorau Mynwentydd yn esbonio yn union beth sydd angen iddyn nhw ei wneud a sut.

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Faint o swyddi sydd yn wag yn Adrannau Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd, a pha fesurau sydd ar waith er mwyn sicrhau

- Nad yw'r cyhoedd yn derbyn gwasanaeth salach oherwydd prinder gweithwyr;
- Nad yw staff presennol yn gorfod ysgwyddo baich ychwanegol i gwrdd â diffygion staffio Adrannau, gan greu straen personol a morâl isel;
- Bod strategaeth ar waith i leihau'r trosiant staff, (gan gynnwys o bosib' edrych ar raddfeydd cyflogaeth a disgrifiadau swydd)?

**Ateb – Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Ar y cyfan, mae lefel trosiant staff yn y Cyngor hwn wedi bod yn sefydlog a chymharol isel ers blynyddoedd lawer, ac yn is na sectorau eraill o'r economi. Er enghraifft roedd y lefel yn 8.5% yn 2021/22 ac yna yn 8.1% yn 2022/23. Wedi dweud hynny, mae yna amrywiaethau o fewn adrannau, sydd yn golygu fod rhai rhannau o'r Cyngor yn profi problemau gyda chadw staff.

Nid tasg hawdd yw dod i gasgliad ar nifer y swyddi sydd yn wag mewn cyfundrefn mor fawr a chymhleth â'r Cyngor, ond fe wyddom am y prif feysydd gwaith sydd wedi bod yn profi problemau dros y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, mae yna heriau wedi bod ym meysydd gwaith cymdeithasol a gofalu yn ehangach, gweinyddiaeth, cyllid a pheirianneg. Mae'n fater o ffaith bod awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru yn profi yr un math o broblemau, ac yn ychwanegol i hynny rydym ni wrth gwrs yn dymuno i'n staff i gyd allu cyflawni eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn i gyd yn creu her fawr i'r sector llywodraeth leol ar hyn o bryd.

Rydym ni fel Cyngor eisoes yn cymryd camau i ddeall mwy am y sefyllfa ac i ymateb. Rydym wedi cyflwyno proses o roi'r cyfle i staff gwblhau holiaduron gadael a chyfweliadau, pan eu bod yn ymddiswyddo o'u swydd. Mae nifer o adrannau hefyd wedi cymryd y cyfle i adolygu strwythurau a swydd ddisgrifiadau. Mae hynny mewn rhai sefyllfaoedd wedi arwain at newid graddfeydd cyflog er mwyn sicrhau fod yr hyn sydd yn cael ei dalu yn adlewyrchu lefel y cyfrifoldebau. Er enghraifft, y llynedd bu i'r Cyngor hwn gymeradwyo pecyn ariannol oedd yn sail i gynyddu cyflogau y staff hynny sydd yn gweithio fel gofalwyr yn ein cartrefi preswyl ac yn y gymuned. Rhaid cofio wrth gwrs bod gennym systemau tâl sydd yn ein gwarchod o safbwynt deddfwriaeth cyflog cyfartal, ond mae modd cyflwyno newidiadau o fewn y system honno.

Mae'n bwysig cofio hefyd wrth gwrs fod yna bob math o resymau posib pam fod staff yn dewis y Cyngor fel eu cyflogwr, neu fel arall yn gadael. Mae'r ffactorau hynny yn cynnwys y cyflog, ond hefyd y pecyn buddion ehangach; y nifer dyddiau gwyliau er enghraifft, y cynllun pensiwn cadarn ac atyniadol sydd ar gael, a'r trefniadau gweithio hyblyg sydd yn opsiynau posib. Gall cyfrifoldebau'r swydd, y llwyth gwaith a'r pwysau gwaith hefyd ddylanwadu ar benderfyniadau unigolion. Credwn hefyd fod lles ein staff yn bwysig ac mae hynny yn cael ei adlewyrchu yn y pwyslais rydym fel cyflogwr wedi ei roi ar hynny ers blynyddoedd bellach.

Mae yna nifer fawr o ffactorau yn gweu i mewn i'r darlun hwn, ac yn hynny o beth mae arolwg wedi ei gynnal yn ddiweddar o farn staff ar y Cyngor fel eu cyflogwr, o dan y teitl 'Holiadur Llais Staff'. Eisoes cyhoeddwyd y canlyniadau ymhlith adrannau, ac ar y cyfan mae'n amlwg fod y mwyafrif o'n staff yn ystyried y Cyngor fel cyflogwr gofalgar sydd yn cynnig cyfleoedd i staff ddatblygu ac sydd yn rhoi llesiant ar flaen yr agenda. Wedi dweud hynny mae yn y canlyniadau nifer o negeseuon pwysig i ni eu hystyried wrth symud ymlaen.

Mae'n anochel y gall unrhyw broblemau recriwtio a chadw staff arwain at darfu ar ddarparu gwasanaethau am gyfnod. Mae'r wasgfa gyllidol, ac effaith posib hynny ar swyddi, yn cyfrannu at hyn hefyd wrth gwrs. Rydym hefyd yn llwyr ymwybodol na ellir cymryd mantais o ewyllys da staff sydd yn rhoi o'u gorau i gyflawni gwasanaethau; dyna pam fod yna gymaint o bwyslais ar gefnogi llesiant ein staff a pham hefyd ei bod yn bwysicach nag erioed i sicrhau'r balans rhwng gwneud hynny ond hefyd cyflenwi gwasanaethau'r angenrheidiol i'r safon uchaf bosib i drigolion y sir.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Diolch am ateb gonest, yn cydnabod bod problemau staffio a bod gwaith angen ei wneud. Nodaf mai 8.1% oedd cyfartaledd trosiant swyddi llynedd. Hoffwn wybod pa Adran sydd â’r canran trosiant staff uchaf ar hyn o bryd a gofyn beth sy’n cael ei wneud i wella’r sefyllfa yn yr Adran honno gan sicrhau lles staff a gwasanaethau i’r cyhoedd?

**Ateb – Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Fel a nodwyd yn yr ymateb i’r cwestiwn cyntaf, mae’r lefel trosiant yn amrywio o adran i adran. Hyd at ddiwedd mis Chwefror, yr adrannau â’r lefelau uchaf oedd Economi ac Adfywio, Cefnogaeth Gorfforaethol, Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Mae’r adrannau hynny yn rhagweithiol wrth geisio deall natur y rhesymau dros y canran trosiant, ac yn defnyddio technegau gwahanol o ran denu a phenodi staff. Mae hynny’n cynnwys gwneud defnydd o’r Cynllun Prentisiaethau a Hyfforddeion er mwyn cynllunio ymlaen i lenwi bylchau mewn swyddi allweddol.

Gwyddom fod pobl yn symud ymlaen am amrywiol resymau personol, gan gynnwys datblygiad gyrfa, mynd yn ôl i addysg, ymddeoliadau a chytundebau gwaith yn dod i ben, unai oherwydd bod y cytundebau yn cael eu hariannu trwy grantiau neu am eu bod yn swyddi tymhorol.

Ymhellach i hynny rydym yn adolygu'r math o risgiau hirdymor sydd yn wynebu ein gwasanaethau mewn perthynas â materion staffio. Bydd y dadansoddiad hwn yn sail i’n cynlluniau staffio am flynyddoedd i ddod. Mae’r angen i sefydlu cynlluniau staffio tymor hir yn bwysicach nag erioed, yn wyneb y wasgfa ariannol ac effaith hynny ar swyddi. Dyna pam fod y Prosiect Cynllunio’r Gweithlu yn flaenoriaeth i’r Cyngor hwn.

Fel rhan o’r prosiect hwnnw mae’r gwaith o ddatblygu a chodi ymwybyddiaeth am yr holl becyn cyflogaeth yn un parhaus, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyflogwr deniadol i ddarpar ymgeiswyr ond hefyd i’r staff hynny sydd wedi bod yn ffyddlon i’r Cyngor ers blynyddoedd. Er yn hollbwysig yn y cyfnod sydd ohoni, mae’n ymddangos o’r Holiadur Llais Staff diweddar nad cyflog yn unig sydd yn cyfrif, ac mae amgylchedd gwaith hapus a gofalgar, gyda chyfleoedd i ddatblygu mewn swydd a gyrfa yr un mor bwysig. Mae ein cynlluniau ni yn cwmpasu'r holl feysydd hyn.

**(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Gareth Williams**

Mae'r toriadau dirybudd i'r ddarpariaeth ar gyfer prentisiaethau yn destun pryder i nifer o ddisgyblion blwyddyn unarddeg yn Llŷn ac Eifionydd. O ystyried bod y naddu yma ar y ddarpariaeth ymhell o fod yn gyson â'r dyheadau yng Nghynllun Cyngor Gwynedd ynghylch rhoi'r cychwyn gorau i'n plant a'n pobl ifanc, a ddaru Grŵp Llandrillo-Menai ymgynghori â'r Cyngor cyn gwneud y newid yma i'r ddarpariaeth a pha drafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd rhwng y Cyngor a Grŵp Llandrillo-Menai i unioni'r sefyllfa?

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

Ni fu i Grŵp Llandrillo-Menai ymgynghori gyda’r Cyngor ynglŷn â newid i’r ddarpariaeth ar gyfer prentisiaethau. Serch hynny mae sgyrsiau wedi eu cynnal yn ddiweddar er mwyn galluogi’r Cyngor i ddeall y cefndir a’r cyd-destun y tu ôl i’r toriadau.

Er mwyn darparu ateb cyflawn i'r cwestiwn, cyfeiriaf nawr at ymateb a dderbyniwyd gan Aled Jones-Griffiths, Pennaeth Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai. Nid wyf am ddarllen yr ymateb cyfan. Cyfeiria'r paragraff cyntaf at y nifer fawr o brentisiaethau sydd ar gael sef dros 1300. Nodwyd bod yr ail baragraff yn manylu ar y penderfyniad rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru a'r newidiadau y cyfeiria'r Cynghorydd atynt yn ei gwestiwn.

Darllenaf weddill yr ymateb. *"Rydym yn cydnabod nad yw y model uchod yn gweithio i bob dysgwr, yn enwedig rhai o ardaloedd gwledig. Er mwyn ymateb i hyn mae'n fwriad gennym i gynnig llwybr rhan amser(un diwrnod yr wythnos) yn y maes Adeiladwaith gan ddefnyddio cyllid Addysg Bellach yn hytrach na chyllid prentisiaeth i rhai sydd eisoes wedi cael lle gyda chyflogwr. Golyga hyn bydd llwybr rhan amser i Adeiladwaith ar gael yn Medi gyfochrog a'r llwybr llawn amser a'r ddau lwybr yn arwain tuag at y brentisiaeth lefel 3 newydd.*

*Fe gyhoeddwyd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar y 27 Chwefror ac felly nid oeddem am wneud datganiadau ar ein cynnig cwricwlaidd nes ein bod yn glir ar ein sefyllfa ariannol. Mae yn anffodus fod cam ddehongli newidiadau wedi digwydd yn y cyfamser a gwybodaeth anghywir yn cael ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol heb ddeall y pictiwr llawn.*

*Nid oes gofyn ymgynghori â'r Cyngor gan fod y ddarpariaeth sydd yn cael ei gynnig uchod yn adlewyrchu y ddarpariaeth sydd wedi bod ar gael i ddisgyblion 16 oed yn hanesyddol. Fe fyddai hefyd yn ddefnyddiol pe byddem yn aelodau o Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd fel byddai yn bosib i ni eu cadw hwy yn gyfredol â newidiadau mewn addysg bellach.*

*Ym mhob maes arall sydd â phrentisiaeth ar lefel 2 fel pwynt mynediad, bydd y rheiny sy'n gadael ysgol yn gallu cael mynediad yn syth o'r ysgol fel sy'n wastad wedi digwydd. Mae Peirianneg yn y categori yma.*

*Gobeithio bod hyn yn tawelu ofnau pobl ifanc a rhieni Llŷn. Mae nifer o rieni wedi bod yn trafod gyda ni yn ystod yr wythnos hon ac rydyn wedi tawelu ei hofnau wrth egluro y sefyllfa yn llawn iddyn nhw. Mae croeso i unrhyw un gysylltu gyda Grŵp Llandrillo Menai os am drafod ymhellach."*

Dyna yw ateb y Coleg. Hoffaf ychwanegu ymateb i'r cymal ynglŷn â pheidio bod yn aelod o'r Grŵp Penaethiaid Uwchradd. Mae'r Coleg yn derbyn gwahoddiad i'r Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd yn ôl yr angen ac mae yna gyfle iddyn nhw gysylltu i ofyn i gael dod ger bron y Penaethiaid fel y dymunant. Mae'r Adran a'r Ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Coleg drwy'r consortiwm Addysg.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Gareth Williams**

Diolch i'r Cynghorydd am yr ateb. Mae'n dda deall fod y mater yma wedi ei ddatrys yn y byr dymor. Byddai'n braf cael sicrwydd ynglŷn â sefyllfa'r flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn. Fydd yr Adran Addysg yn pwyso i'r prentisiaethau hyn fod ar gael ar ôl eleni?

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

Rwyf yn hapus i fod yn rhan o unrhyw sgyrsiau ynglŷn â hyn ac rwyf yn ymwybodol fod yr Adran Addysg yn fodlon iawn i drafod efo'r Coleg o ran cynllunio i'r dyfodol. Yn amlwg trafodaethau rhwng y Llywodraeth a'r Coleg ydi'r elfen gyllidol.

**7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TAL Y CYNGOR 2024-25**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion, y Cynghorydd Menna Trenholme yr adroddiad oedd yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2024/25.

Cyfeiriwyd at yr oedi sylweddol yn 2023 cyn dod i gytundeb ynglŷn â'r cynnydd yng nghyflog holl staff y Cyngor o ganlyniad i'r broses fargeinio bresennol. Cyfrannodd y broses yma at y trafodaethau am osod cyllidebau a cheisio rhoi sicrwydd i Gynghorau am lefelau cyflog. Roedd trafodaethau maith rhwng yr Undebau a'r Cyngor ynglŷn â faint all y Cyngor fforddio oedd wedi arwain at oedi cyn dod i benderfyniad. Ychwanegwyd nad yw'r trafodaethau ar gyfer cyflog 2024/25 wedi dechrau hyd yma ac y bydd misoedd eto nes y bydd penderfyniad ar hyn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd bod tudalen 30 o'r adroddiad yn cyfeirio at Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Gyhoeddus ac yn argymell cymhareb o ddim mwy na 1:20 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog isaf (swyddi llawn amser). Ategwyd bod yr adroddiad yn nodi fod y gymhareb hon yng Nghyngor Gwynedd yn 1:5.6. Ychwanegwyd bod llawer o'r swyddi ar y lefel isaf ddim yn swydd llawn amser ac y byddai'n dda darganfod beth fyddai'r gymhareb o gysidro swyddi rhan amser e.e. cytundebau 23 awr yr wythnos neu gymhorthydd Ysgol sy'n gweithio yn ystod y tymor Ysgol yn unig.
- Cyfeiriwyd at ran 5 o'r tabl (Atodiad 1) ar dudalen 34 gan wneud sylw y byddai'r tabl yn gliriach pe bai pob swydd yn cael ei nodi yno un o dan y llall er gwaetha'r ffaith eu bod nhw ar yr un raddfa. Credwyd nad yw defnydd yr atalnodau yn ei wneud yn glir yn ei fformat bresennol.
- Nodwyd bod yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, mewn ymateb i gwestiwn aelod yn gynharach, wedi nodi bod trosiant staff yn isel yn yr Awdurdod yma, gan ychwanegu bod eithriadau fel Gofal Cymdeithasol a Pheirianneg. Gofynnwyd ble mae'r cyfiawnhad dros ddefnyddio pwysau'r farchnad ar y lefelau cyflog.

Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr:-

- Mai cymhareb ar sail pro rata ydyw er mwyn cymharu'r ddau lefel cyflog ochr yn ochr yn deg. Cynigiwyd darparu'r ffigwr yn seiliedig ar staff sydd ddim yn gweithio oriau llawn amser i'r aelod ar ôl y cyfarfod petai derbyn y wybodaeth yma o ddiddordeb iddo.
- Derbyniwyd sylw'r aelod o ran y tabl yn yr adroddiad gan nodi y byddai'r atalnod yn cael ei addasu yn y dyfodol er mwyn ei wneud yn fwy twt.
- Nodwyd mai prin iawn iawn yw'r defnydd o atodiad y farchnad gan nodi nad yw hyn yn arferiad sy'n cael ei wneud mewn unrhyw amgylchiadau sefydlog.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Polisi Tâl ar gyfer 2024/25.**

**8. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD – 2023-28: ADOLYGIAD 2023-24**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yr adroddiad oedd yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo adolygiad o Gynllun y Cyngor 2024/25. Nodwyd bod blwyddyn wedi pasio ers mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 gan nodi mai adolygiad ysgafn sydd yma ond bod newidiadau pwysig wedi bod i'r Cynllun.

Tynnwyd sylw at rai materion megis Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory gan nodi bod y prosiect Cinio Ysgol am ddim bellach wedi ei gyflwyno i holl Ysgolion Cynradd Gwynedd o

flaen amserlen y Llywodraeth. Ychwanegwyd bod y Strategaeth Addysg bellach yn dyddio felly bydd Strategaeth newydd yn cael ei llunio er mwyn sicrhau bod yr Addysg orau yn cael ei gynnig i blant y Sir. Nodwyd bod Strategaeth gyfredol a chadarn yn ofynnol er mwyn ceisio denu arian grant i fuddsoddi mewn adeiladau Ysgolion. Bydd y ddarpariaeth gynhwysiad hefyd yn cael ei hadolygu i edrych ar y cynnydd mewn anghenion ymddygiadol emosiynol ymysg plant, sgil effaith y pandemig.

Nodwyd o dan y Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Gymraeg bydd adolygiad o'r Polisi Iaith Addysg yn cael ei gynnal ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r gyfundrefn drochi. Mynegwyd bod hyn yn cadarnhau awydd yr Awdurdod i roi sylw i'r ddau faes a byddant yn rhan o Gynllun y Cyngor am y flwyddyn i ddod. Rhannwyd y newyddion bod Meirion Prys Jones, un o gynllunwyr ieithyddol mwyaf profiadol Cymru, yn cael ei gomisiynu i arwain ar y gwaith o ail edrych ar Bolisi Iaith Addysg Gwynedd. Anogwyd pawb i gymryd rhan yn y sgwrs bwysig yma pan fydd y cyfnod ymgysylltu yn cychwyn. Ychwanegwyd bod mân newidiadau eraill wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad a mynegwyd balchder dros allu cynnig i'r Cyngor fabwysiadu'r newidiadau hyn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Gofynnwyd am sicrwydd nad yw Ysgol Tywyn am ddisgyn oddi ar y rhestr aros am welliannau gan nodi bod yr adroddiad yn cyfeirio at foderneiddio adeiladau ac amgylchedd ddysgu yn benodol yn ardaloedd Bangor a Criccieth. Nodwyd bod Ysgol Tywyn yn un o Ysgolion hynaf y Sir ac angen gwaith atgyweirio. Mynegwyd pryder bod Tywyn yn cael ei esgeuluso yn ddaearyddol.

- Mewn ymateb nododd yr Arweinydd nad yw ardal Dysyni yn cael ei esgeuluso a bod cynrychiolwyr y ward yn gwneud gwaith da o dynnu sylw'r Cyngor at faterion yr ardal. Adroddwyd bod yr Adran Addysg yn falch o glywed am y sylwadau.
- Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai cyfeirio at adeiladu Ysgolion mae'r adroddiad ac nid cynnal Ysgolion, ond gobeithiai y bydd gwedd newydd i'r rhaglen pe bai'r sefyllfa gyllidol yn caniatáu.

Mynegwyd safbwynt bod y Cynllun yma a'r Ddeddf Llesiant wedi cael eu seilio ar y 'sustainable development goals' gan y Cenhedloedd Unedig ac mai dyma yw testun a gwreiddyn yr holl wrthdaro sydd yn bodoli yn Ewrop ac yng Nghymru rhwng yr amaethwyr a'r Awdurdodau. Nodwyd hefyd bod gwrthdaro rhwng ceisio gwireddu sero net a thlodi oherwydd y costau sydd ynghlwm a sero net. Mynega'r aelod na allai bleidleisio o blaid y Cynllun oherwydd hyn.

Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at Wynedd Werdd sydd yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus. Adroddwyd bod pobl y Sir eisiau trafnidiaeth gyfleus, ddibynadwy, hwylus a rhesymol ei gost sydd yn ategu pam bod cael gwasanaeth bws gyda'r nos yn hollbwysig i ardaloedd cefn gwlad. Gofynnwyd i'r Cyngor ail edrych ar y sefyllfa bysiau yn ardal Llŷn ar frys yn enwedig yn sgil problemau iechyd meddwl o ganlyniad i unigedd.

Cyfeiriwyd at ran o'r adroddiad sy'n cyfeirio at wella llwybrau cerdded a beicio presennol y Sir a mynegwyd balchder am hyn gan fod yr aelod wedi bod yn gofyn am lwybr beicio o Lanbedrog i Bwllheli ers blynyddoedd. Credwyd ei bod bellach yn amser gweithredu.

- Mewn ymateb i'r sylw nododd yr Arweinydd bod trafodaethau mewnol wedi eu cynnal yn ddiweddar am yr anhawster i dderbyn arian digonol i gefn gwlad gan Lywodraeth Cymru. Adroddwyd bod y mater wedi ei godi yn y Fforwm Wledig yn ddiweddar iawn a bod y neges yn cael ei basio ymlaen i Lywodraeth Cymru.
- Ychwanegwyd bod yr holl gynllun yn ddibynnol ar dderbyn arian digonol a chredwyd bod Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau ar ei delerau ei hun sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor allu cynllunio yn yr hirdymor. Mynegwyd cydymdeimlad gan roi sicrwydd y byddai'n parhau i bwyso am wella'r sefyllfa.

Nodwyd bod poblogaeth Gwynedd wedi lleihau o 5,400 yn ôl y Cyfrifiad. Gofynnwyd a yw hyn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

- Mewn ymateb nododd yr Arweinydd nad yw'n siŵr os yw'r mater yma yn gynwysedig yn y Cynllun. Cytunwyd ei fod yn fater o bryder gan fod niferoedd llai yn byw yn y Sir yn cael effaith ar gyllid a gwasanaethau o sawl cyfeiriad. Cyfeiriwyd at niferoedd Ysgolion bach gwledig sydd yn drychinebus ac wedi syrthio yn ddifrifol dros y blynyddoedd diwethaf. Adroddodd yr Arweinydd ei fod wedi gofyn am ffigyrau genedigaethau yng Ngwynedd ond ei bod yn anodd cael y gwir ffigwr. Credwyd ei bod yn holl bwysig ceisio cynyddu'r boblogaeth yng Ngwynedd.

Mynegwyd balchder gan aelodau bod adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd a gwerthusiad o'r gyfundrefn drochi wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Gofynnwyd beth yw'r amserlen ynglŷn â hyn. Gofynnwyd hefyd a fydd ymgynghoriad ffurfiol ynghylch adolygu Polisi Iaith Ysgolion yn cael ei gynnal neu a'i drafod efo rhanddeiliaid amlwg yn unig fydd yn digwydd.

- Nodwyd bod y gwaith o adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd wedi cychwyn yn barod a bod yr Adran yn gobeithio bod mewn sefyllfa i gwblhau'r gwaith erbyn tymor yr Hydref. Nodwyd bod hyn yn ddibynnol ar faint fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth a faint o fewnbwn fydd yn cael ei roi ond anelir at dymor yr Hydref.
- Credwyd bydd y gwaith ar y gyfundrefn drochi hefyd yn cael ei gwblhau mis Hydref/Tachwedd ac yn cychwyn yn fuan iawn.
- Eglurwyd mai ymgysylltu yw'r bwriad a bod y camau i gynnal y sgwrs a derbyn gwybodaeth yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd. Nodwyd mai'r bwriad yw i bawb gael cyfle i ddweud eu dweud mewn amryw ffyrdd. Ychwanegwyd y bydd yr ymgysylltu mor eang a dymunir iddo fod yn ddibynnol ar ba mor barod fydd pobl i gymryd rhan ynddo. Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes i gyfrannu.

Mynegwyd balchder gan aelod am y sylwadau i wella Ysgolion yn enwedig addasiadau i blant sydd efo anableddau corfforol neu weledol. Pryderwyd nad yw rhai o adeiladau'r Sir yn ddigon da i gyfarch anghenion a bod angen ystyried pa adeiladau sydd angen eu gwella a beth ellir ei wneud. Credwyd bod hyn yn broblem hanesyddol sydd angen ei gyfarch drwy holl Ysgolion y Sir a'i bod yn hanfodol peidio gwahaniaethu. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod cyfle i holl blant y Sir aros yn eu Hysgol o'u dewis.
Cyfeiriwyd at y cyflwr awtistiaeth a bod angen i Ysgolion addasu er mwyn cwrdd ag anghenion y plant drwy gynnig mannau tawel ynghyd ag addasiadau perthnasol eraill. Credwyd hefyd bod angen gwella hyfforddiant staff yr Ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth gan fod niferoedd plant awtistig yn cynyddu. Gofynnwyd am fwy o ystyriaeth i anghenion o'r fath o fewn Ysgolion.

- Cytunodd yr Arweinydd â'r aelod gan nodi nad yw'n dymuno i'r un plentyn o fewn y Sir gael cam. Nodwyd bod y Cynllun dan sylw yn son am adeiladau newydd yn bennaf. Credwyd y byddai'n syniad i aelodau ymweld ag Ysgol newydd Cricieth er mwyn i bawb weld y safon y disgwylir ei weld o fewn Ysgolion y Sir pan fydd yr Ysgol wedi ei chwblhau.
- Diolchodd y Prif Weithredwr am sylwadau'r aelod. Gofynnodd pe bai'r aelod neu unrhyw un arall yn ymwybodol o sefyllfa lle nad yw plentyn yn medru cael mynediad i Ysgol i ddod a'r enghraifft i sylw'r Adran Addysg.
- Cyfeiriodd at grantiau Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi cyrraedd y Cyngor yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Nodwyd bod yr arian, sydd ar hyn o bryd yn gyfanswm o filiwn, yn cael ei dargedu ar gyfer addasu Ysgolion i gwrdd ag anghenion plant sydd yn yr Ysgolion hynny ar hyn o bryd.
- Nododd y Prif Weithredwr bod gan y Cyngor dîm o athrawon arbenigol awtistiaeth sy'n mynd allan i hyfforddi staff Ysgolion. Nodwyd bod rhaglen eang o hyfforddiant i staff Ysgolion ar gael. Yn ychwanegol cyfeiriwyd bod ymchwiliad Craffu yn cael ei gynnal i'r maes awtistiaeth ar hyn o bryd a gobeithir y bydd casgliadau cadarnhaol iawn yn dod o'r ymchwiliad.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2023-24.**

## 9. CYLLIDEB 2024/25

Nododd y Cadeirydd, yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pennaeth Cyllid dderbyn unrhyw welliant i'r eitem yma yn ysgrifenedig ymlaen llaw, a rhaid i'r gwelliant hwnnw arwain at gyllideb hafal os yw am gael ei drafod. Roedd holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu hatgoffa o hyn wythnos ddiwethaf, ac ni dderbyniodd y Pennaeth Cyllid unrhyw rybudd o welliant erbyn yr amser cau dynodedig. O ganlyniad, ni fydd modd ystyried unrhyw rybudd o welliant i'r gyllideb.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas:-

- Adroddiad a chyflwyniad yn argymell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2024/25;
- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 9.54%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Diolchodd i staff yr Adran Gyllid am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb. Ychwanegodd nad yw'n rhoi unrhyw bleser o gwbl iddo i gynnig codi Treth Cyngor mewn cyfnod ble mae gymaint o drigolion y Sir yn brwydro yn erbyn costau byw sydd wedi cynyddu yn sylweddol.

Pwysleisiodd os bydd gan unrhyw un broblem i dalu Treth Cyngor neu angen cymorth ar gostau byw ei bod yn bwysig iddynt gysylltu gyda'r Cyngor. Nodwyd bod angen i Gynghorwyr drosglwyddo'r wybodaeth yma i'w hetholwyr. Rhannwyd y manylion cyswllt perthnasol oedd yn cynnwys rhif ffôn Galw Gwynedd â'r cyfeiriad e-bost ynghyd â chyfeiriad e-bost y gwasanaeth Treth Cyngor.

Atgoffodd y Pennaeth Cyllid yr aelodau o rai o'r prif risgiau yn Atodiad 10 o'r adroddiad, a chadarnhaodd, wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru, ei fod o'r farn bod Cyllideb y Cyngor am 2024/25 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd bod gwariant Cyngor Gwynedd yn cael ei arwain gan anghenion pobl Gwynedd a bod yr aelodau yma er mwyn ateb y gofynion a'r anghenion hynny. Nodwyd bod y sefyllfa ariannol bresennol eisoes yn ddifrifol. Gofynnwyd faint o'r gorwariant sy'n deillio o ddiffyg cyllido bwriadol a'r diffyg i gydnabod angen sylfaenol gan Lywodraeth Prydain.
- Mewn ymateb nodwyd mai'r broblem yw tan-gylllido sylweddol gan y Llywodraeth Lafur yng Nghaerdydd. Cydnabuwyd bod y sefyllfa yn un broblemus oherwydd mai drwy Gaerdydd yn unig, ynghyd â thaliadau Treth Cyngor, y mae Cynghorau yn cael eu harian. Pwysleisiwyd bod y Cyngor mewn sefyllfa o gael ei danariannu.
- Nododd un aelod y byddai yn pleidleisio o blaid y gyllideb ond yn gwneud hynny yn anfoddog. Mynegodd ein bod wedi cael ein gwthio a'n gorfodi i'r sefyllfa yma dros gyfnod o 10 mlynedd dan bolisi llymder Llywodraeth San Steffan. Nodwyd bod San Steffan yn torri taliadau yswiriant gwladol ond yn tan-gyllido gwasanaethau cyhoeddus gan orfodi Cynghorau i gynyddu'r Dreth Cyngor.
- Credwyd ei bod yn bwysig mynegi anfodlonrwydd efo'r sefyllfa mae'r Cyngor wedi cael ei orfodi i fod ynddi. Ategwyd mai llesiant plant y dyfodol fydd yn dioddef yn y pen draw.

- Cyfeiriwyd at achosion unigol torcalonnus roedd aelodau wedi dod ar eu traws e.e. teulu digartref yn byw mewn gwesty heb gyfleusterau coginio ac yr ansicrwydd sy'n deillio o hynny a'r effaith mae'n ei gael ar y plentyn. Nodwyd nad yw'r achos hwn yn eithriad a bod dros 300 yng Ngwynedd yn byw mewn llety argyfwng sy'n cynnwys 55 o blant. Cyfeiriwyd at y niferoedd sy'n ddigartref, yn byw mewn tlodi, yn wynebu cynnydd yn eu biliau ac yn ddibynnol ar barseli banciau bwyd. Credwyd na allai neb fod wedi dychmygu sefyllfa o'r fath 10 mlynedd yn ôl.
- Adroddwyd bod y Ceidwadwyr wedi creu chwyddiant uchel iawn sy'n arwain at nwyddau a gwasanaethau drud. Credwyd bod 15 mlynedd o lymder a chaledi wedi cael ei orfodi arnom. Arweiniai hynny at lai o bres i Gynghorau ar adeg pan mae mwy o alw ar wasanaethau cyhoeddus.
- Credwyd bod y dewis o un ai cynyddu'r Dreth Cyngor neu dorri gwasanaethau sy'n mynd i gael effaith ar bobl yn un anodd ac annheg.
- Holwyd am eglurder ynghylch tudalen 98 o'r Rhaglen a'r cyfeiriad at £50,000 o arian i wella maes parcio Dinas Dinlle. Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod rhan yma'r adroddiad yn cyfeirio at fidiau ac wedi dod o arian cyfalaf oedd wedi cael ei glustnodi er mwyn gwella ac uwchraddio'r maes parcio.
- Gwnaethpwyd sylw gan aelod mai dyma'r penderfyniad cyllideb anoddaf y gofynnwyd iddo ei wneud fel Cynghorydd o 29 mlynedd ble rhaid dewis rhwng torri gwasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn y Sir neu gynyddu'r Dreth Cyngor bron i 10%. Ychwanegodd bod risg o greu haen newydd o dlodi yng Ngwynedd. Teimlai ei fod yn cael ei orfodi i bleidleisio dros y gyllideb gyda gwn yn erbyn ei ben am nad yw'n barod i dorri gwasanaethau i bobl fregus. Ategodd nad yw hyn yn feirniadaeth ar waith y Cyngor.
- Beirniadwyd Lywodraeth San Steffan a'r sawl sydd mewn pŵer yno.
- Tynnwyd sylw at gyfoeth personol y Prif Weinidog gan honni ei fod o gwmpas £700 miliwn.
- Cwestiynwyd os yw'r Cyngor wedi bod yn rhy dda am wneud arbedion effeithlonrwydd a thoriadau ac os mai dyma sydd wedi arwain at dderbyn y ganran waethaf o'r setliad drwy Gymru. Credai'r aelod mai'r ateb fwy realistig yw oherwydd ein bod yn Sir wledig.
- Credwyd bod dyletswydd ar y Cyngor i geisio cadw'r bobl ifanc yn ein cymunedau ac yn y Sir a chwestiynwyd os dylid gwneud mwy o ymdrech i gyflawni hyn.
- Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid am eu cyflwyniadau.

Cymerwyd y cyfle gan aelod i anfon neges bwysig i drigolion y Sir ac i ategu'r hyn a ddywedwyd gan yr Aelod Cabinet Cyllid. Gobeithiwyd bod pawb yn ymwybodol o'u hawliau ac yn hawlio'r hyn sy'n ddyledus iddynt. Ategwyd bod hawliau budd-dal neu gredyd Treth Cyngor yn gwneud pobl yn gymwys i gefnogaeth ariannol bellach. Anogwyd y sawl sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol i gysylltu efo'r Cyngor drwy'r rhif Galw Gwynedd neu ymweld â gwefan y Cyngor. Cyfeiriwyd at Hybiau cymunedol a digwyddiadau Costau Byw sydd yn cael eu cynnal ar draws y Sir. Ategwyd y gallai'r cyhoedd hefyd gysylltu efo mudiadau megis Cyngor ar Bopeth neu gysylltu â'u Cynghorydd lleol am gyngor. Nododd yr aelod ei bod hi'n ymwybodol o bobl sy'n ei chael hi'n anodd ar draws y Sir, sy'n cynnwys pobl yn gweithio dwy swydd, ond bod cyngor ar gael.

Cwestiynwyd pam mai Gwynedd dderbyniodd y setliad gwaethaf drwy Gymru ac os oedd yna gyfle i ofyn am fwy o arian. Pryderwyd am y sawl sy'n gweithio ac ar yr isafswm cyflog ond yn parhau i ddisgyn i dlodi yn sgil yr holl gostau. Mynegwyd balchder bod yna rif ffôn i bobl dderbyn cyngor pellach; gofynnwyd a yw'r rhif yma yn agored o 9:00 tan 17:00 bob diwrnod o'r wythnos. Gofynnwyd hefyd os bydd arian ar gael i'r Cyngor o ganlyniad i leihad yn nhaliadau yswiriant gwladol.
Mewn ymateb i'r uchod nododd yr Arweinydd:

- Bod yr arian yn cael ei ddosbarthu i Awdurdodau Lleol ar sail fformiwla sydd yn seiliedig ar 160 o ffactorau. Nodwyd bod rhannau o'r fformiwla yma yn cael ei adolygu yn flynyddol.
- Bod Gwynedd wedi derbyn y setliad isaf drwy Gymru yn bennaf oherwydd y gostyngiad ym mhoblogaeth y Sir.
- Efallai y gellir newydd y fformiwla a darganfod ffyrdd eraill o ddosbarthu'r arian ond gallai hyn arwain at newidiadau sylweddol eraill nad ydym yn ymwybodol ohonynt.
- Byddai yn cymryd oddeuty 10 mlynedd i newid y drefn yn llwyr gan y byddai angen dylunio trefn newydd a mynd drwy broses statudol.
- Mai 1.8% oedd y setliad gwreiddiol ond anfonwyd neges i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn gofyn am isafswm o 2.0%. Derbyniwyd rhywfaint o fudd o'r ymdrech hon.
- Credwyd bod rhai Cynghorau yn Llundain mewn gwaeth sefyllfa.
- Ategwyd bod angen gwarchod gwasanaethau i'r bregus hyd yr eithaf a bod hyn yn gyfrifoldeb ar bawb.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid:

- Bod y rhif ffôn Galw Gwynedd fydd yn rhoi gwybodaeth am y cyngor sydd ar gael yn agored o 9:00 tan 17:00 yn ystod dyddiau'r wythnos yn ogystal a'r llinell ffôn Treth Cyngor.
- Mai cyfraniad yswiriant gwladol y gweithiwr sy'n cael ei ostwng ac nid cyfraniad y cyflogwr felly ni fydd budd ariannol o gwbl i'r Cyngor.

Gofynnwyd am bleidlais gofrestredig.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

O blaid (46) Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, R. Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Menna Trenholme, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

Yn erbyn (13) – Y Cynghorwyr:- Dylan Fernley, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Elwyn Jones, Eryl Jones-Williams, John Pughe Roberts, Angela Russell, Peter Thomas, Rob Triggs, Hefin Underwood, Gareth Williams a Gruffydd Williams.

Atal (3) – Y Cynghorwyr:- Glyn Daniels, Dewi Owen a Nigel Pickavance.

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-**

**(a) Sefydlu cyllideb o £331,814,710 ar gyfer 2024/25 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £233,316,780 a £98,497,930 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 9.54%).**

**(b) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £85,224,800 yn 2024/25 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

**2. Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 23 Chwefror 2024, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-**

**(a) 56,109.27 yw'r swm a gyfrifwyd fel ei Sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen Drethiannol Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 607.86 | Llanddeiniolen | 1,879.99 |
| Aberdyfi | 1,199.84 | Llandderfel | 513.67 |
| Abergwyngregyn | 127.25 | Llanegryn | 170.33 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,279.39 | Llanelltyd | 316.11 |
| Arthog | 686.30 | Llanengan | 2,611.78 |
| Y Bala | 805.81 | Llanfair | 365.02 |
| Bangor | 4,216.67 | Llanfihangel y Pennant | 251.26 |
| Beddgelert | 342.39 | Llanfrothen | 237.05 |
| Betws Garmon | 146.14 | Llangelynnin | 469.59 |
| Bethesda | 1,729.69 | Llangywer | 154.76 |
| Bontnewydd | 470.78 | Llanllechid | 362.98 |
| Botwnnog | 470.80 | Llanllyfni | 1,485.90 |
| Brithdir a Llanfachreth | 470.72 | Llannor | 931.18 |
| Bryncrug | 348.73 | Llanrug | 1,148.76 |
| Buan | 239.47 | Llanuwchllyn | 335.02 |
| Caernarfon | 3,689.58 | Llanwnda | 848.52 |
| Clynnog Fawr | 489.48 | Llanycil | 211.80 |
| Corris | 323.38 | Llanystumdwy | 929.25 |
| Criccieth | 1,004.64 | Maentwrog | 328.15 |
| Dolbenmaen | 656.05 | Mawddwy | 377.08 |
| Dolgellau | 1,284.66 | Nefyn | 1,656.10 |
| Dyffryn Ardudwy | 861.12 | Pennal | 238.42 |
| Y Felinheli | 1,192.74 | Penrhyndeudraeth | 822.80 |
| Ffestiniog | 1,816.64 | Pentir | 1,300.06 |
| Y Ganllwyd | 90.89 | Pistyll | 306.53 |
| Harlech | 852.33 | Porthmadog | 2,268.75 |
| Llanaelhaearn | 482.64 | Pwllheli | 1,834.49 |
| Llanbedr | 373.86 | Talsarnau | 364.36 |
| Llanbedrog | 855.68 | Trawsfynydd | 517.21 |
| Llanberis | 797.48 | Tudweiliog | 512.69 |
| Llandwrog | 1,066.90 | Tywyn | 1,779.66 |
| Llandygai | 1,022.19 | Waunfawr | 577.90 |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-**

| | | |
|---|---|---|
| **(a)** | **£570,459,760** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).** |
| **(b)** | **£236,024,890** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).** |
| **(c)** | **£334,434,870** | **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).** |
| **(ch)** | **£232,821,120** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.** |
| **(d)** | **£1,811.00** | **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned).** |
| **(dd)** | **£3,115,816.72** | **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).** |
| **(e)** | **£1,755.47** | **Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).** |

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **1,782.61** | **Llanddeiniolen** | **1,771.96** |
| **Aberdyfi** | **1,792.32** | **Llandderfel** | **1,780.78** |
| **Abergwyngregyn** | **1,786.90** | **Llanegryn** | **1,797.45** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,807.17** | **Llanelltyd** | **1,787.10** |
| **Arthog** | **1,775.87** | **Llanengan** | **1,778.44** |
| **Y Bala** | **1,788.98** | **Llanfair** | **1,804.78** |
| **Bangor** | **1,889.13** | **Llanfihangel y Pennant** | **1,803.23** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beddgelert | 1,791.98 | Llanfrothen | 1,803.14 |
| Betws Garmon | 1,776.00 | Llangelynnin | 1,783.50 |
| Bethesda | 1,815.91 | Llangywer | 1,786.00 |
| Bontnewydd | 1,794.77 | Llanllechid | 1,801.53 |
| Botwnnog | 1,769.28 | Llanllyfni | 1,789.12 |
| Brithdir a Llanfachreth | 1,780.96 | Llannor | 1,777.49 |
| Bryncrug | 1,793.75 | Llanrug | 1,829.46 |
| Buan | 1,774.26 | Llanuwchllyn | 1,803.23 |
| Caernarfon | 1,863.35 | Llanwnda | 1,792.59 |
| Clynnog Fawr | 1,816.76 | Llanycil | 1,776.72 |
| Corris | 1,792.58 | Llanystumdwy | 1,776.99 |
| Criccieth | 1,805.24 | Maentwrog | 1,775.41 |
| Dolbenmaen | 1,782.91 | Mawddwy | 1,789.15 |
| Dolgellau | 1,815.41 | Nefyn | 1,809.81 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,813.53 | Pennal | 1,830.97 |
| Y Felinheli | 1,797.89 | Penrhyndeudraeth | 1,794.77 |
| Ffestiniog | 1,882.08 | Pentir | 1,797.78 |
| Y Ganllwyd | 1,791.23 | Pistyll | 1,794.62 |
| Harlech | 1,837.60 | Porthmadog | 1,784.98 |
| Llanaelhaearn | 1,807.27 | Pwllheli | 1,812.71 |
| Llanbedr | 1,811.64 | Talsarnau | 1,815.85 |
| Llanbedrog | 1,784.69 | Trawsfynydd | 1,794.14 |
| Llanberis | 1,805.13 | Tudweiliog | 1,774.97 |
| Llandwrog | 1,829.14 | Tywyn | 1,812.73 |
| Llandygai | 1,793.04 | Waunfawr | 1,776.23 |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2024/25 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 233.10 | 271.95 | 310.80 | 349.65 | 427.35 | 505.05 | 582.75 | 699.30 | 815.85 |

**5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2**

**gyfer y Dreth Cyngor yn y flwyddyn 2024/25 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

## 10. ADOLYGU TREFNIADAU CRAFFU

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Opsiwn 1 yn dilyn adolygu trefniadau Craffu. Adroddodd ei fod yn cyflwyno'r adroddiad ar ran y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd wedi cymeradwyo'r opsiwn yma yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, yn ddarostyngedig bod gwaith yn cael ei wneud i wella effeithlonrwydd a gweithrediadau'r Pwyllgorau Craffu.

Diolchwyd i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniad yn y gweithdai gafodd eu cynnal flwyddyn dwytha a cyfeiriwyd at yr adroddiad oedd yn crynhoi negeseuon a ddeilliodd o'r gweithdai cyn i'r Fforwm Craffu gyfarfod. Gwahoddwyd y Cynghorydd Paul Rowlinson, ar ran y Fforwm Craffu, i ymhelaethu ar ystyriaethau'r Fforwm Craffu.

Adroddodd y Cynghorydd Paul Rowlinson nad oedd consensws clir yn y gweithdai na'r Fforwm Craffu gyda gwahanol aelodau yn ffafrio gwahanol opsiynau. Nododd hefyd bod mewnbwn Archwilio Cymru wedi bod yn bositif ar y cyfan; cyfeiriwyd at enghreifftiau ble roedd mewnbwn Craffu wedi gwella penderfyniadau'r Cabinet.

Mynegwyd nad oedd Archwilio Cymru yn awgrymu newid i'r strwythur presennol nac i lwyth gwaith y Pwyllgorau Craffu. Serch hyn, nodwyd bod rhai aelodai wedi cyfeirio at lwyth gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gan nodi ei fod yn ormod. Yn dilyn crynhoi'r sylwadau, gwnaethpwyd cynnig ar ran y Fforwm Craffu i fabwysiadu opsiwn 1.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Cyfeiriwyd at gam gweithredu diwethaf yn yr atodiad ble roedd sôn am adrodd yn ôl. Gofynnwyd a fydd hyn yn golygu bod adroddiad yn cael ei greu sy'n dangos i aelodau sut mae sylwadau Craffu sy'n ymwneud a newidiadau geiriol i adroddiadau wedi cael ystyriaeth a'u derbyn neu'u gwrthod. Dymuna'r aelod weld proses o adrodd ar hyn yn bodoli fel bod aelodau yn cael gwybod os gafodd eu sylwadau eu derbyn neu beidio.

- Mewn ymateb nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth y bydd adroddiad blynyddol yn cael ei ddarparu ar yr argymhellion.

Nododd un aelod ei fod wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ers 12 mlynedd ac o'r 13 o eitemau yr oedd wedi ei roi ger bron, credodd na chafodd yr un eitem ddatrysiad. Cwestiynodd os oes wir angen y Pwyllgorau Craffu o gwbl am mai Craffu gwaith aelodau'r Cabinet sy'n digwydd a chredwyd nad oedd pwrpas i hynny gan mai aelodau Plaid Cymru sydd â'r mwyafrif seddau ar y Pwyllgorau Craffu.

- Mewn ymateb nododd y Cynghorydd Paul Rowlinson nad yw aelodau yn gweithredu fel plaid neu grŵp gwleidyddol penodol wrth graffu. Nododd ei fod yn ofyn statudol ar bob Cyngor i gael cyfundrefn Craffu ac mai pwrpas Craffu yw ceisio gwella penderfyniadau'r weithrediaeth. Credodd bod nifer o enghreifftiau ble mae penderfyniad y Pwyllgor Craffu wedi cael effaith gadarnhaol ar benderfyniad y Cabinet. Ychwanegodd ei bod hi'n anghyfreithlon gweithredu ar sail plaid.

Gwnaethpwyd sylw gan aelod a chyn-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal o bedair blynedd; dymunodd dalu teyrnged bod Craffu yn gweithio. Adroddodd ei fod wedi gweithio'n agos iawn efo aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol fel is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal a bod y berthynas waith hon yn un llwyddiannus. Dymunodd gymryd y cyfle i ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal am eu gwaith gan fynegi awydd i barhau efo'r drefn Craffu bresennol. Credai fod y drefn yn gweithio a chyfeiriodd at berthynas gadarnhaol efo'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, oedd yn gefnogol o

waith y Pwyllgor Craffu Gofal a'r Pwyllgor yn gefnogol ohonynt. Credodd bod llawer o bethau da yn cael eu gwneud o ganlyniad i'r Pwyllgor Craffu Gofal a'i fod yn enghraifft o gyd-weithio traws bleidiol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Opsiwn 1 – sef cadw at y trefniadau pwyllgorau craffu cyfredol gan gymeradwyo'r camau gweithredu i wella effeithlonrwydd sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad.**

**11. PROSES YMGYNGHORI – PLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY AR GYFER ETHOLIADAU CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Trenholme yr adroddiad oedd yn darparu cysyniad o'r trefniant i gychwyn proses all arwain at fabwysiadu system pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd. Adroddwyd y bydd angen cymeradwyo'r broses ymgynghori ac amserlen penderfynu ac yna ar ôl yr ymgynghori bydd angen galw cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar gyfer y penderfyniad yma yn unig.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen a'r broses arfaethedig ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad ar newid i gyfundrefn Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau i Gyngor Gwynedd o 2027 ymlaen.**
2. **Bod y Cyngor yn dirprwyo paratoi a chynnal yr ymgynghoriad i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth).**
3. **Bod y ddogfen ymgynghori yn cael ei pharatoi mewn ymgynghoriad gydag arweinyddion grwpiau gwleidyddol y Cyngor.**

**12. STRATEGAETH GYFALAF 2024/25 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYCA)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas yr adroddiad oedd yn cyfarch y gofyn statudol ar Gynghorau ac yn rhoi cyd-destun hir dymor i benderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddiadau gan Gynghorau. Nodwyd bod yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o sut y rheolir risgiau cysylltiedig â'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid fod yr adroddiad yn cyfeirio at 3 atodiad ond yn anffodus nid yw'r atodiadau wedi eu cynnwys yn y Rhaglen. Nodwyd fod yr atodiadau hyn yn rhoi manylder pellach ond bod gwybodaeth ddigonol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Dangoswyd dabl "Gwrthbartion Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau" i'r aelodau gan adrodd bod y tabl oedd yn cael ei arddangos yn rhoi'r wybodaeth oedd ar goll yn yr atodiadau. Ymddiheurwyd bod yr atodiadau heb eu cynnwys gan ychwanegu eu bod nhw wedi eu cynnwys yn Rhaglen y Pwyllgor Llywodraethau ac Archwilio ac wedi eu hystyried yno yn llawn.

Dyma gynnwys copi o'r tabl.

**Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau**

| Sector | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | d/b |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | 25 mlynedd | £10m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau â sicrwydd * | 25 mlynedd | £10m | Diderfyn |
| Banciau (ansicredig) * | 13 mis | £5m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) * | 13 mis | £5m | £10m |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) * | 5 mlynedd | £5m | £25m |
| Cronfeydd marchnad arian * | d/b | £10m | Diderfyn |
| Cronfeydd cyfun strategol | d/b | £10m | £50m |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | d/b | £10m | £25m |
| Buddsoddiadau eraill * | 5 mlynedd | £5m | £10m |

Sicrhaodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad sydd yn y Rhaglen yn gynhwysfawr ynghyd a'r tabl uchod gafodd ei arddangos yn rhoi'r aelodau mewn sefyllfa i fedru pleidleisio a mabwysiadu'r strategaeth.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd diolch i gwmni Arlingclose am eu cyflwyniad i aelodau'r Cyngor nol ym mis Chwefror. Nodwyd bod y maes yn un technegol iawn ond bod Arlingclose wedi ei wneud yn haws i ddeall. Gwerthfawrogwyd bod y cyflwyniad yma wedi bod ar gael i bob Cynghorydd ac nid aelodau'r Pwyllgor Llywodraethau ac Archwilio yn unig fel sy'n arfer digwydd.

Cadarnhawyd bod yr aelodau mewn sefyllfa i wneud penderfyniad am fod yr adroddiad yn un cynhwysfawr.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25.**

**13. CYTUNDEB CYFLAWNI – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig yr adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn i'r Cytundeb Cyflawni a chytundeb i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer sêl bendith. Eglurwyd bod yr adroddiad yn ymwneud a'r broses faith o greu Cynllun Datblygu Lleol a dyma'r cam cyntaf yn y broses honno sef mabwysiadu'r Cytundeb Cyflawni.

Nodwyd bod y Cytundeb Cyflawni i'w weld yn llawn yn y Rhaglen yn ogystal â chyd-destun a chyfeiriadau at y broses o greu'r cytundeb, ynghyd ag amserlen a'r camau.

Manylwyd ar daith y Cytundeb Cyflawni hyd yn hyn oedd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus a soniwyd am rai o'r sylwadau a dderbyniwyd. Nodwyd bod sylwadau penodol

wedi eu gwneud ynglŷn â'r profion cadernid a'r posibilrwydd o'u diwygio er mwyn ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r profion. Rhedwyd drwy'r profion cadernid oedd yn ymwneud ag addasrwydd y Cynllun, priodoldeb y Cynllun a gallu'r Cynllun i gyflawni. Cyfeiriwyd at yr ymateb i'r sylw oedd wedi ei gynnwys ar dudalen 169 o'r Rhaglen.

Nodwyd bod y Gweithgor Polisi Cynllunio a'r Cabinet wedi ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn llawn; mynegwyd pryder am nifer isel yr ymatebion. Adroddwyd y bydd y gwaith o greu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cychwyn ar ôl iddo dderbyn cymeradwyaeth gan y Llywodraeth, gall hyn gymryd o gwmpas bedair wythnos.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Gwnaethpwyd sylw gan aelod nad oedd newid wedi digwydd i'r Cynllun o ganlyniad i sylwadau'r ymgynghoriad a chredodd bod hynny yn dueddol o ddigwydd yn aml yn dilyn ymgynghoriadau. Gwerthfawrogwyd eglurhad yr Aelod Cabinet Amgylchedd am pam na gafodd y sylw ei dderbyn ond credwyd bod angen ystyried pa mor ddibynadwy ydi'r asesiad gan y Llywodraeth wrth ymdrin ag ardrawiad ar yr iaith Gymraeg.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn:-**

1. **Cymeradwyo fersiwn terfynol o Gytundeb Cyflawni – Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (sydd wedi ymgorffori'r diwygiadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus).**
2. **Cytuno i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cymeradwyaeth.**
3. **Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Adran wneud addasiadau golygyddol er sicrhau cywirdeb yn ôl yr angen.**

### 14. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2022-23 A CHYFLWYNO ADOLYGIAD O BOLISI DIOGELU CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Trenholme adroddiad blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2022-23 gan nodi bod yr Adran eisoes wedi cychwyn paratoi adroddiad 2023-24. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith sydd wedi digwydd gan y Panel Strategol Diogelu.

Cymerwyd y cyfle i godi ymwybyddiaeth am y Polisi Diogelu diwygiedig gafodd ei fabwysiadu yn y bythefnos ddiwethaf. Nodwyd bod y Polisi wedi ei gynnwys yn atodiad 2 o'r adroddiad ac o ganlyniad i'r Polisi diwygiedig bod newid hefyd yn y Cylch Gorchwyl sydd i'w weld yn atodiad 3.

Cyfeiriwyd at un newid mawr yn y Polisi sef y gwahaniaeth rhwng Amddiffyn a Diogelu gan nodi bod y diffiniadau i'w gweld yn y Polisi.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2022-23.**
2. **Nodi'r Polisi Diogelu diwygiedig (Atodiad 2 i'r adroddiad) ynghyd â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Panel Strategol Diogelu (Atodiad 3).**

### 15. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad oedd yn cynnig diwygiadau i'r Drefn Datrys Mewnol a Chraffu ynghyd ac adrodd ar addasiadau dirprwyedig i'r Cyfansoddiad. Adroddwyd bod tair elfen i'r adroddiad oedd yn cynnwys sut i ymdrin â chwynion lefel isel

rhwng aelodau o ganlyniad i'r ddyletswydd statudol sydd bellach ar Arweinyddion Grwpiau. Nodwyd bod yr ail agwedd yn deillio o benderfyniad yr adolygiad Craffu i ddiwygio'r Cyfansoddiad oedd yn cwmpasu mân newidiadau ac yn olaf newidiadau i'r cynlluniau dirprwyo.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn:-**
1. **Mabwysiadu'r newidiadau i'r Drefn Datrys Mewnol (Atodiad 1 i'r adroddiad).**
2. **Mabwysiadu'r addasiadau i Adran 7 – Craffu (Atodiad 2)**
3. **Derbyn yr adroddiad ar yr addasiadau dirprwyedig (Atodiad 3).**

## 16. AROLYGON CYMUNEDOL O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) CYMRU 2013

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Trenholme yr adroddiad oedd yn adrodd ar y dyletswydd statudol sydd ar Gyngor Gwynedd, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i fonitro'r cymunedau o fewn y Sir, a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny.

Adroddwyd bod dau fath o arolwg cymunedol y dylai'r Cyngor ystyried eu cynnal sef Arolwg o ffiniau cymunedol (adran 25 o'r Ddeddf) ac Arolwg o'r trefniadau etholiadol (adran 31 o'r Ddeddf). Pwysleisiwyd nad yw'n fwriad adolygu pob cymuned dim ond y rhai sydd yn amlygu angen am newid oherwydd amgylchiadau penodol.

Adroddwyd ar y pedwar cam hanfodol i'r broses sef Cyhoeddusrwydd cychwynnol, Ymchwiliad ac ymgynghoriad cychwynnol, Cynigion drafft ac Argymhellion terfynol. Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r broses a amlinellir. Nodwyd y bydd hyn yn caniatáu cynnal y broses ymgynghori.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Gwnaethpwyd sylw am ddyddiad oedd wedi ei gynnwys yn y tabl ar dudalen 297 o'r pecyn oedd yn cyfeirio at Ymgynghoriad 2, gan holi os yw'r dyddiad Ionawr/Chwefror 2024 yn gywir. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro mai Ionawr/Chwefror 2025 ydi'r dyddiad cywir a byddai'r tabl yn cael ei gywiro.

Nodwyd bod newidiadau i'r ffiniau eisoes wedi digwydd ble cafwyd lleihad yn nifer y Cynghorwyr yng Ngwynedd o 75 i 69. Gofynnwyd a fydd newidiadau i'r Cynghorau Plwyf.
Cadarnhaodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau bod y Cyngor Sir yn gweithredu o fewn yr un rôl a mae'r Comisiwn Ffiniau yn ei wneud efo ni fel Cyngor Sir. Golygai hyn mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am y Cynghorau Cymuned. Bydd yr arolwg o ffiniau cymunedol yn cael ei wneud er mwyn cyd-fynd â'r Comisiwn Democratiaeth pan fyddan nhw'n dod yn ôl i edrych ar ffiniau Sirol.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo cynnal arolygon cymunedol o dan adrannau 25 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 a'r cylch gwaith.**

## 17. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu dyraniad seddau newydd yn dilyn i un aelod newid grŵp gwleidyddol ac yn dilyn canlyniad isetholiad diweddar. Nodai bod hyn yn arwain at newidiadau i ddyraniad seddau ar Bwyllgorau, sef grŵp gwleidyddol Plaid Cymru yn ennill un sedd ar y Pwyllgor

Craffu Cymunedau, Pwyllgor Crafu Gofal, Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, Pwyllgor Cynllunio a CYSAG. Cyfeiriwyd at y manylion llawn o'r dyraniad seddau newydd sydd i'w gweld yn atodiad A o'r adroddiad.

Ychwanegwyd bod y Cynghorydd Elwyn Jones bellach wedi cael ei enwebu i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd am dymor y Cyngor. Gofynnwyd i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r dewis yno yn ogystal â mabwysiadu'r dyraniad seddau fel y nodwyd yn yr adroddiad. Cadarnhawyd y bydd un bleidlais yn cael ei gynnal ar y ddau gynnig.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu'r dyraniad seddau fel a nodir isod gan ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 12 | 6 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 12 ~~11~~ | 5 ~~6~~ | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 12 ~~11~~ | 5 ~~6~~ | 1 | 18 |
| Llywodraethu ac Archwilio | 8 | 4 | 0 | 12 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 10 ~~9~~ | 4 ~~5~~ | 1 | 15 |
| Cynllunio | 10 ~~9~~ | 4 ~~5~~ | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Iaith | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 5 | 2 | 0 | 7 |
| Nifer y seddau | 99 | 45 | 4 | 148 |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 7 | 4 | 0 | 11 |
| CYSAG | 5 4 | 2 ~~3~~ | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y | 115 | 53 | 5 | 173 |

| **seddau** | | | | |
|---|---|---|---|---|

2. **Enwebu'r Cynghorydd Elwyn Jones (Grŵp Annibynnol) i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd am dymor y Cyngor hwn.**

**18. CALENDR PWYLLGORAU 2024/25**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2024/25 a hynny yn sgil gwaith manwl oedd wedi digwydd yn y cefndir o ran dewis dyddiadau gan osgoi gwrthdaro a chyfarfodydd eraill.

Diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor Gwasnaaethau Democratiaeth am eu sylwadau a'u gwaith manwl wrth drafod y Calendr a bu cytuno ar welliannau yn sgil y drafodaeth honno. Tynnwyd sylw at gyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn fydd bellach yn cael ei gynnal ym mis Medi.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Mynegodd aelod awydd y grŵp annibynnol i sefydlu Cabinet Cysgodol a gofynnodd sut byddai mynd o gwmpas hyn. Manylodd ers cael gwared â'r Byrddau bod teimlad ac awydd cryf ymysg y grŵp annibynnol i sefydlu Cabinet Cysgodol er mwyn herio penderfyniadau'r Cabinet gan nad oes aelod annibynnol yn eistedd ar y Cabinet. Mynegodd hefyd bod llawer o aelodau'r grŵp Plaid Cymru yn eistedd ar y Pwyllgorau Craffu.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd y mater hwn yn fater i'r Cyngor Llawn ei drafod heddiw. Awgrymodd i'r aelod gynnal trafodaeth efo'r Gwasanaeth Democratiaeth fel man cychwyn.

Cymerwyd y cyfle gan aelod i dalu teyrnged i Gadeirydd y Cyngor gan frolio'r modd oedd y Cadeirydd wedi cadeirio'r cyfarfod heddiw.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2024/25.**

**19. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS**

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Gruffydd Williams o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

*Gan gysidro fod Cyngor Gwynedd eisoes wedi pasio ym Mis Medi rybudd o gynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail gysidro mynnu rhoi 10% o dir ffermydd drosodd i goedwigaeth fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, galwaf ar Gyngor Gwynedd:-*

*I alw ar Lywodraeth Cymru i ymbwyllo ac ail ystyried (yng ngoleuni effaith cronnus ar y diwydiant amaethyddol), cyn mynnu o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), rhoi 10% o dir ffermydd Cymru yn dir Cynefin / Bioamrywiaeth ynghyd â'r newidiadau i ofynion statudol a pholisïau megis Parthau Perygl Nitradau (NVZ).*

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Bydd difrod arwyddocaol yn cael ei wneud i'r diwydiant amaeth os bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r SFS a'r NVZ.

- Bod costau cysylltiedig i ffermwyr Cymru pe baent yn colli 20% o'u tir rhwng rhoi 10% i fioamrywiaeth a 10% o'r tir i blannu coed; bydd hyn yn arwain at ddiwydiant ffermio anghynaladwy a bydd llawer o ffermwyr yn gadael y diwydiant.
- Bod gwariant aruthrol i'r uned amaethyddol er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd sydd yn mynd i wasgu'r ffermydd bach allan o fusnes.
- Bydd y nitrogen fydd yn mynd ar y tir yn arwain at leihad yn y cnydau a golygai hyn y bydd llai o gynnyrch. Ychwanegodd os na fydd digon o fwyd i'r cyhoedd bydd prisiau yn codi.
- Bod angen sefyll i fyny efo'r ffermydd neu bydd dim pobl ar ôl yn byw yng nghefn gwlad.

Gobeithiai'r cynigydd dderbyn cefnogaeth yr holl aelodau i sicrhau ffyniant y diwydiant amaethyddol a ffyniant yng nghefn gwlad.

Mynegwyd cefnogaeth gref i'r cynnig gan nifer o aelodau ar y sail:-

- Bod dyletswydd foesol arnom yng Ngwynedd i gefnogi ffermwyr ein cymunedau, sydd yn cynrychioli diwylliant, hanes ac iaith ein cymunedau. Adroddwyd y slogan Dim ffermwyr, Dim bwyd, Dim dyfodol.
- Bod prisiau cyfredol defaid yn profi prinder a chredwyd y bydd prinder bwyd ac mai nid tyfu coed fydd yr ateb.
- Bod amaeth yn bwysig iawn ym Mhen Llŷn. Gofynnwyd am gefnogaeth yr holl aelodau gan bwysleisio bod angen rhoi stop ar gynlluniau'r Llywodraeth.
- Bod y broblem o blannu 10% o goed yn un enfawr ym Mhen Llŷn o gymharu â Meirionnydd. Credwyd nad oedd digon o dargedu wedi ei wneud gan y Llywodraeth ac yn hytrach eu bod wedi trin pob ardal yr un fath.
- Bod angen diolch i'r ddwy Undeb amaethyddol sydd wedi gweithio'n galed i gefnogi'r amaethwyr. Mynegwyd bod angen i'r Cyngor gefnogi a chryfhau eu cais.
- Nodwyd mai amaeth yw sylfaen cefn gwlad a'i fod yn graidd i'n diwylliant. Nodwyd heb amaeth ni fyddai Ysgolion na phobl ifanc yng nghefn gwlad; credwyd ei bod yn hollbwysig cefnogi'r cynnig.
- Bod yr hyn a gynigiwyd gan y Llywodraeth yn niweidiol a diystyriol o iechyd meddyliol a lles emosiynol y diwydiant, sydd mewn gwirionedd yn ddiwydiant o unigolion. Credwyd ei fod yn fygythiad i fyd amaeth ac yn peryglu olyniaeth amaethyddol.

Cysidrwyd rhoi gwelliant ar y cynnig ond yn dilyn trafodaeth rhwng yr aelod a'r Swyddog Monitro penderfynwyd peidio â chynnig y gwelliant gan ei fod yn effeithio ar eglurder y cynnig gwreiddiol ac nid oedd yn cyd-fynd a'r cynnig.

I gloi mynegodd y cynigydd ei ddiolch am y gefnogaeth. Soniodd am waith ymchwil yr Undebau oedd yn cefnogi'r amaethwyr oedd yn nodi y byddai mabwysiadu'r SFS a'r NVZ yn golygu y byddai 5,500 o swyddi yn cael eu colli. Credai mai dim ond cwmnïau anferthol fyddai yn elwa.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Gan gysidro fod Cyngor Gwynedd eisoes wedi pasio ym Mis Medi rybudd o gynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail gysidro mynnu rhoi 10% o dir ffermydd drosodd i goedwigaeth fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, galwaf ar Gyngor Gwynedd:-**

**I alw ar Lywodraeth Cymru i ymbwyllo ac ail ystyried (yng ngoleuni effaith cronnus ar y diwydiant amaethyddol), cyn mynnu o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), rhoi 10% o dir ffermydd Cymru yn dir Cynefin / Bioamrywiaeth ynghyd â'r newidiadau i ofynion statudol a pholisïau megis Parthau Perygl Nitradau (NVZ).**

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD DEWI JONES**

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Dewi Jones o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

*Mae Cyngor Gwynedd yn datgan cefnogaeth i'r sector amaeth ac amaethwyr Cymru.*

*Mae'r Cyngor yn credu bod amaethwyr Cymru yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i economi ein gwlad, i'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, a bod angen cefnogi'r sector pwysig hwn.*

*Galwa'r Cyngor ar Lywodraeth Cymru i wrando ar farn a phryderon amaethwyr - a'r undebau amaeth - wrth iddynt ymgynghori ar deddfwriaeth newydd.*

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Bod yr hyn sy'n digwydd i'r diwydiant amaeth yn effeithio ar bawb. Nododd ein bod yn ddibynnol ar ffermwyr bob dydd ar gyfer derbyn ein llefrith, bara a chig. Credodd bod derbyn bwyd o safon a bwyd lleol yn holl bwysig.
- Cyfeiriodd at y brotest fwyaf erioed oedd wedi cyrraedd y Senedd wythnos diwethaf gydag dros 3,000 o ffermwyr yn teithio i Gaerdydd. Credai nad yw'r cynllun yn ei ffordd bresennol yn hygyrch nac yn gynaliadwy.
- Bod angen i'r Llywodraeth ail gysidro eu bwriad o ofyn i bob ffermwr roi 10% o'u tir i dyfu coed. Mynegwyd na wnaiff coed hybu diwylliant nac iaith. Credwyd bod angen hyblygrwydd yn y cynnig a bod angen i Lywodraeth Cymru ail lunio'r cynnig. Ychwanegwyd bod angen addasu'r cynlluniau i adlewyrchu'r tirwedd, y tywydd ac amgylchedd y gweithiai'r ffermwyr ynddynt.

Mynegwyd cefnogaeth gref i'r cynnig gan aelodau a nododd:-

- Bod ffermwyr wedi bod yn ffermio ers cenedlaethau sydd yn profi cynaliadwyedd y diwydiant.
- Bod y Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac yn galw ar y Llywodraeth i gyd-drafod gyda'r diwydiant ac i lunio cynlluniau sy'n briodol ar gyfer Gymru a chefn gwlad. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod wedi bod yn rhan o drafodaeth yn y Fforwm Wledig, Cymdeithas Llywodraeth Leol a'u bod hwythau hefyd wedi ymateb yn yr un modd. Mynegodd yr Arweinydd falchder bod y Cyngor eisoes wedi ymateb yn gadarn.
- Bod gwers yma i Lywodraeth Cymru sydd ddim yn deall ystyr cyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu.
- Bod amaethwyr yn barod i gyfrannu at yr agenda i ostwng allyriadau carbon ac yn barod i gyfrannu at fioamrywiaeth ac eisoes yn gwneud hynny i raddau helaeth.
- Bod ffermwyr yn adnabod eu tiroedd yn well na neb a bod yr amaethwyr efo gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd ar eu tirwedd eu hunain.
- Nad oes son yn y Senedd am y posibilrwydd cryf iawn o golli 5,500 o swyddi yn y diwydiant amaeth.
- Atgoffwyd o'r hunllef yn ystod y cyfnod clo pan nad oedd digon o fwyd ar silffoedd yr archfarchnadoedd. Nodwyd bod NFU Cymru yn ddiweddar wedi nodi bod angen cynhyrchu 25% yn fwy o fwyd erbyn 2050.
- Bod y diwydiant amaethu wedi defnyddio ychydig bach mwy o dir yn unig i gynhyrchu bwyd nac oedden nhw'n ei ddefnyddio yn 1960. Credwyd bod hyn yn dangos bod ffermwyr wedi gwneud y gorau ac wedi datblygu beth sydd ganddyn nhw.

- Bod yr hyn ddigwyddodd yn y Senedd yn dda o gymharu â’r hyn ddigwyddodd yn Ffrainc ble roedd pawb yn dawel a pharchus yn y Senedd.
- Mai teuluoedd a ffermydd bychain fydd yn ddioddef fwyaf.

I gloi cymerodd y cynigydd y cyfle i ddiolch i’r amaethwyr am y gwaith maent eisoes yn ei wneud er mwyn cefnogi’r amgylchedd. Pwysleisiodd bod rôl amaethwyr yn holl bwysig wrth i ni barhau i fynd i’r afael â'r argyfwng newid hinsawdd. Credwyd ei bod yn hollbwysig i’r Llywodraeth weithio efo amaethwyr wrth lunio unrhyw gynlluniau newydd a galwyd ar Lywodraeth Cymru i bwyllo a gwrando ar amaethwyr.

Beirniadwyd Llywodraeth Cymru dan arweiniad y Blaid Lafur sy’n creu’r cynlluniau hyn ac nid y Senedd ac nid datganoli.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu’r cynnig, sef:-**

**Mae Cyngor Gwynedd yn datgan cefnogaeth i'r sector amaeth ac amaethwyr Cymru.**

**Mae'r Cyngor yn credu bod amaethwyr Cymru yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i economi ein gwlad, i'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, a bod angen cefnogi'r sector pwysig hwn.**

**Galwa'r Cyngor ar Lywodraeth Cymru i wrando ar farn a phryderon amaethwyr - a'r undebau amaeth - wrth iddynt ymgynghori ar deddfwriaeth newydd.**

**(C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD CRAIG AB IAGO**

Mynegodd y cynigydd ei awydd i dynnu’r cynnig isod a gyflwynodd dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad yn ôl:-

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Llafur Cymru i wneud popeth o fewn eu gallu i fynnu sicrwydd gan eu cymheiriaid ym Mhencadlys y Blaid Lafur yn Llundain eu bod, os yn fuddugol yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf, yn rhoi stop yn syth ar bolisïau llymder y Blaid Geidwadol sydd wedi bod mor ddifaol i gymunedau Gwynedd a Chymru dros y 13 mlynedd diwethaf.*

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro os nad yw’r cynigydd yn gwneud y cynnig yna fod y cynnig yn disgyn a bydd angen ei ail gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol os mai hynny yw dymuniad yr aelod.

Cadarnhaodd yr aelod na fyddai yn gwneud yn cynnig.

**14. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL**

Cyflwynwyd er gwybodaeth –

(a) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Gruffydd Williams i gyfarfod 28 Medi, 2023 o’r Cyngor ynglŷn â chefnogi’r fferm deuluol Gymreig a throsi tiroedd amaethyddol yn goedwigoedd.

(b) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd John Pughe Roberts i gyfarfod 7 Rhagfyr, 2023 o’r Cyngor ynglŷn â mesurau rheoli TB.

(c) Llythyr gan y Swyddfa Dramor, Y Gymanwlad a Datblygu mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elin Hywel i gyfarfod 7 Rhagfyr, 2023 o’r Cyngor yn galw am gadoediad parhaol yn Gaza.

(d) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elin Hywel i gyfarfod 7 Rhagfyr, 2023 o'r Cyngor yn galw am gadoediad parhaol yn Gaza.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 5.50yp.

________________________________________

**CADEIRYDD**

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,188.41 | 1,386.47 | 1,584.54 | 1,782.61 | 2,178.75 | 2,574.88 | 2,971.02 | 3,565.22 | 4,159.42 |
| Aberdyfi | 1,194.88 | 1,394.03 | 1,593.17 | 1,792.32 | 2,190.61 | 2,588.91 | 2,987.20 | 3,584.64 | 4,182.08 |
| Abergwyngregyn | 1,191.27 | 1,389.81 | 1,588.36 | 1,786.90 | 2,183.99 | 2,581.08 | 2,978.17 | 3,573.80 | 4,169.43 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,204.78 | 1,405.58 | 1,606.37 | 1,807.17 | 2,208.76 | 2,610.36 | 3,011.95 | 3,614.34 | 4,216.73 |
| Arthog | 1,183.91 | 1,381.23 | 1,578.55 | 1,775.87 | 2,170.51 | 2,565.15 | 2,959.78 | 3,551.74 | 4,143.70 |
| Y Bala | 1,192.65 | 1,391.43 | 1,590.20 | 1,788.98 | 2,186.53 | 2,584.08 | 2,981.63 | 3,577.96 | 4,174.29 |
| Bangor | 1,259.42 | 1,469.32 | 1,679.23 | 1,889.13 | 2,308.94 | 2,728.74 | 3,148.55 | 3,778.26 | 4,407.97 |
| Beddgelert | 1,194.65 | 1,393.76 | 1,592.87 | 1,791.98 | 2,190.20 | 2,588.42 | 2,986.63 | 3,583.96 | 4,181.29 |
| Betws Garmon | 1,184.00 | 1,381.33 | 1,578.67 | 1,776.00 | 2,170.67 | 2,565.33 | 2,960.00 | 3,552.00 | 4,144.00 |
| Bethesda | 1,210.61 | 1,412.37 | 1,614.14 | 1,815.91 | 2,219.45 | 2,622.98 | 3,026.52 | 3,631.82 | 4,237.12 |
| Bontnewydd | 1,196.51 | 1,395.93 | 1,595.35 | 1,794.77 | 2,193.61 | 2,592.45 | 2,991.28 | 3,589.54 | 4,187.80 |
| Botwnnog | 1,179.52 | 1,376.11 | 1,572.69 | 1,769.28 | 2,162.45 | 2,555.63 | 2,948.80 | 3,538.56 | 4,128.32 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,187.31 | 1,385.19 | 1,583.08 | 1,780.96 | 2,176.73 | 2,572.50 | 2,968.27 | 3,561.92 | 4,155.57 |
| Bryncrug | 1,195.83 | 1,395.14 | 1,594.44 | 1,793.75 | 2,192.36 | 2,590.97 | 2,989.58 | 3,587.50 | 4,185.42 |
| Buan | 1,182.84 | 1,379.98 | 1,577.12 | 1,774.26 | 2,168.54 | 2,562.82 | 2,957.10 | 3,548.52 | 4,139.94 |
| Caernarfon | 1,242.23 | 1,449.27 | 1,656.31 | 1,863.35 | 2,277.43 | 2,691.51 | 3,105.58 | 3,726.70 | 4,347.82 |
| Clynnog Fawr | 1,211.17 | 1,413.04 | 1,614.90 | 1,816.76 | 2,220.48 | 2,624.21 | 3,027.93 | 3,633.52 | 4,239.11 |
| Corris | 1,195.05 | 1,394.23 | 1,593.40 | 1,792.58 | 2,190.93 | 2,589.28 | 2,987.63 | 3,585.16 | 4,182.69 |
| Criccieth | 1,203.49 | 1,404.08 | 1,604.66 | 1,805.24 | 2,206.40 | 2,607.57 | 3,008.73 | 3,610.48 | 4,212.23 |
| Dolbenmaen | 1,188.61 | 1,386.71 | 1,584.81 | 1,782.91 | 2,179.11 | 2,575.31 | 2,971.52 | 3,565.82 | 4,160.12 |
| Dolgellau | 1,210.27 | 1,411.99 | 1,613.70 | 1,815.41 | 2,218.83 | 2,622.26 | 3,025.68 | 3,630.82 | 4,235.96 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,209.02 | 1,410.52 | 1,612.03 | 1,813.53 | 2,216.54 | 2,619.54 | 3,022.55 | 3,627.06 | 4,231.57 |
| Y Felinheli | 1,198.59 | 1,398.36 | 1,598.12 | 1,797.89 | 2,197.42 | 2,596.95 | 2,996.48 | 3,595.78 | 4,195.08 |
| Ffestiniog | 1,254.72 | 1,463.84 | 1,672.96 | 1,882.08 | 2,300.32 | 2,718.56 | 3,136.80 | 3,764.16 | 4,391.52 |
| Y Ganllwyd | 1,194.15 | 1,393.18 | 1,592.20 | 1,791.23 | 2,189.28 | 2,587.33 | 2,985.38 | 3,582.46 | 4,179.54 |
| Harlech | 1,225.07 | 1,429.24 | 1,633.42 | 1,837.60 | 2,245.96 | 2,654.31 | 3,062.67 | 3,675.20 | 4,287.73 |
| Llanaelhaearn | 1,204.85 | 1,405.65 | 1,606.46 | 1,807.27 | 2,208.89 | 2,610.50 | 3,012.12 | 3,614.54 | 4,216.96 |
| Llanbedr | 1,207.76 | 1,409.05 | 1,610.35 | 1,811.64 | 2,214.23 | 2,616.81 | 3,019.40 | 3,623.28 | 4,227.16 |
| Llanbedrog | 1,189.79 | 1,388.09 | 1,586.39 | 1,784.69 | 2,181.29 | 2,577.89 | 2,974.48 | 3,569.38 | 4,164.28 |
| Llanberis | 1,203.42 | 1,403.99 | 1,604.56 | 1,805.13 | 2,206.27 | 2,607.41 | 3,008.55 | 3,610.26 | 4,211.97 |
| Llandwrog | 1,219.43 | 1,422.66 | 1,625.90 | 1,829.14 | 2,235.62 | 2,642.09 | 3,048.57 | 3,658.28 | 4,267.99 |
| Llandygai | 1,195.36 | 1,394.59 | 1,593.81 | 1,793.04 | 2,191.49 | 2,589.95 | 2,988.40 | 3,586.08 | 4,183.76 |
| Llanddeiniolen | 1,181.31 | 1,378.19 | 1,575.08 | 1,771.96 | 2,165.73 | 2,559.50 | 2,953.27 | 3,543.92 | 4,134.57 |
| Llandderfel | 1,187.19 | 1,385.05 | 1,582.92 | 1,780.78 | 2,176.51 | 2,572.24 | 2,967.97 | 3,561.56 | 4,155.15 |
| Llanegryn | 1,198.30 | 1,398.02 | 1,597.73 | 1,797.45 | 2,196.88 | 2,596.32 | 2,995.75 | 3,594.90 | 4,194.05 |
| Llanelltyd | 1,191.40 | 1,389.97 | 1,588.53 | 1,787.10 | 2,184.23 | 2,581.37 | 2,978.50 | 3,574.20 | 4,169.90 |
| Llanengan | 1,185.63 | 1,383.23 | 1,580.84 | 1,778.44 | 2,173.65 | 2,568.86 | 2,964.07 | 3,556.88 | 4,149.69 |
| Llanfair | 1,203.19 | 1,403.72 | 1,604.25 | 1,804.78 | 2,205.84 | 2,606.90 | 3,007.97 | 3,609.56 | 4,211.15 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,202.15 | 1,402.51 | 1,602.87 | 1,803.23 | 2,203.95 | 2,604.67 | 3,005.38 | 3,606.46 | 4,207.54 |
| Llanfrothen | 1,202.09 | 1,402.44 | 1,602.79 | 1,803.14 | 2,203.84 | 2,604.54 | 3,005.23 | 3,606.28 | 4,207.33 |
| Llangelynnin | 1,189.00 | 1,387.17 | 1,585.33 | 1,783.50 | 2,179.83 | 2,576.17 | 2,972.50 | 3,567.00 | 4,161.50 |
| Llangywer | 1,190.67 | 1,389.11 | 1,587.56 | 1,786.00 | 2,182.89 | 2,579.78 | 2,976.67 | 3,572.00 | 4,167.33 |
| Llanllechid | 1,201.02 | 1,401.19 | 1,601.36 | 1,801.53 | 2,201.87 | 2,602.21 | 3,002.55 | 3,603.06 | 4,203.57 |
| Llanllyfni | 1,192.75 | 1,391.54 | 1,590.33 | 1,789.12 | 2,186.70 | 2,584.28 | 2,981.87 | 3,578.24 | 4,174.61 |
| Llannor | 1,184.99 | 1,382.49 | 1,579.99 | 1,777.49 | 2,172.49 | 2,567.49 | 2,962.48 | 3,554.98 | 4,147.48 |
| Llanrug | 1,219.64 | 1,422.91 | 1,626.19 | 1,829.46 | 2,236.01 | 2,642.55 | 3,049.10 | 3,658.92 | 4,268.74 |
| Llanuwchllyn | 1,202.15 | 1,402.51 | 1,602.87 | 1,803.23 | 2,203.95 | 2,604.67 | 3,005.38 | 3,606.46 | 4,207.54 |
| Llanwnda | 1,195.06 | 1,394.24 | 1,593.41 | 1,792.59 | 2,190.94 | 2,589.30 | 2,987.65 | 3,585.18 | 4,182.71 |
| Llanycil | 1,184.48 | 1,381.89 | 1,579.31 | 1,776.72 | 2,171.55 | 2,566.37 | 2,961.20 | 3,553.44 | 4,145.68 |
| Llanystumdwy | 1,184.66 | 1,382.10 | 1,579.55 | 1,776.99 | 2,171.88 | 2,566.76 | 2,961.65 | 3,553.98 | 4,146.31 |
| Maentwrog | 1,183.61 | 1,380.87 | 1,578.14 | 1,775.41 | 2,169.95 | 2,564.48 | 2,959.02 | 3,550.82 | 4,142.62 |
| Mawddwy | 1,192.77 | 1,391.56 | 1,590.36 | 1,789.15 | 2,186.74 | 2,584.33 | 2,981.92 | 3,578.30 | 4,174.68 |
| Nefyn | 1,206.54 | 1,407.63 | 1,608.72 | 1,809.81 | 2,211.99 | 2,614.17 | 3,016.35 | 3,619.62 | 4,222.89 |
| Pennal | 1,220.65 | 1,424.09 | 1,627.53 | 1,830.97 | 2,237.85 | 2,644.73 | 3,051.62 | 3,661.94 | 4,272.26 |
| Penrhyndeudraeth | 1,196.51 | 1,395.93 | 1,595.35 | 1,794.77 | 2,193.61 | 2,592.45 | 2,991.28 | 3,589.54 | 4,187.80 |
| Pentir | 1,198.52 | 1,398.27 | 1,598.03 | 1,797.78 | 2,197.29 | 2,596.79 | 2,996.30 | 3,595.56 | 4,194.82 |
| Pistyll | 1,196.41 | 1,395.82 | 1,595.22 | 1,794.62 | 2,193.42 | 2,592.23 | 2,991.03 | 3,589.24 | 4,187.45 |
| Porthmadog | 1,189.99 | 1,388.32 | 1,586.65 | 1,784.98 | 2,181.64 | 2,578.30 | 2,974.97 | 3,569.96 | 4,164.95 |
| Pwllheli | 1,208.47 | 1,409.89 | 1,611.30 | 1,812.71 | 2,215.53 | 2,618.36 | 3,021.18 | 3,625.42 | 4,229.66 |
| Talsarnau | 1,210.57 | 1,412.33 | 1,614.09 | 1,815.85 | 2,219.37 | 2,622.89 | 3,026.42 | 3,631.70 | 4,236.98 |
| Trawsfynydd | 1,196.09 | 1,395.44 | 1,594.79 | 1,794.14 | 2,192.84 | 2,591.54 | 2,990.23 | 3,588.28 | 4,186.33 |
| Tudweiliog | 1,183.31 | 1,380.53 | 1,577.75 | 1,774.97 | 2,169.41 | 2,563.85 | 2,958.28 | 3,549.94 | 4,141.60 |
| Tywyn | 1,208.49 | 1,409.90 | 1,611.32 | 1,812.73 | 2,215.56 | 2,618.39 | 3,021.22 | 3,625.46 | 4,229.70 |
| Waunfawr | 1,184.15 | 1,381.51 | 1,578.87 | 1,776.23 | 2,170.95 | 2,565.67 | 2,960.38 | 3,552.46 | 4,144.54 |

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,421.51 | 1,658.42 | 1,895.34 | 2,132.26 | 2,606.10 | 3,079.93 | 3,553.77 | 4,264.52 | 4,975.27 |
| Aberdyfi | 1,427.98 | 1,665.98 | 1,903.97 | 2,141.97 | 2,617.96 | 3,093.96 | 3,569.95 | 4,283.94 | 4,997.93 |
| Abergwyngregyn | 1,424.37 | 1,661.76 | 1,899.16 | 2,136.55 | 2,611.34 | 3,086.13 | 3,560.92 | 4,273.10 | 4,985.28 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,437.88 | 1,677.53 | 1,917.17 | 2,156.82 | 2,636.11 | 3,115.41 | 3,594.70 | 4,313.64 | 5,032.58 |
| Arthog | 1,417.01 | 1,653.18 | 1,889.35 | 2,125.52 | 2,597.86 | 3,070.20 | 3,542.53 | 4,251.04 | 4,959.55 |
| Bala | 1,425.75 | 1,663.38 | 1,901.00 | 2,138.63 | 2,613.88 | 3,089.13 | 3,564.38 | 4,277.26 | 4,990.14 |
| Bangor | 1,492.52 | 1,741.27 | 1,990.03 | 2,238.78 | 2,736.29 | 3,233.79 | 3,731.30 | 4,477.56 | 5,223.82 |
| Beddgelert | 1,427.75 | 1,665.71 | 1,903.67 | 2,141.63 | 2,617.55 | 3,093.47 | 3,569.38 | 4,283.26 | 4,997.14 |
| Betws Garmon | 1,417.10 | 1,653.28 | 1,889.47 | 2,125.65 | 2,598.02 | 3,070.38 | 3,542.75 | 4,251.30 | 4,959.85 |
| Bethesda | 1,443.71 | 1,684.32 | 1,924.94 | 2,165.56 | 2,646.80 | 3,128.03 | 3,609.27 | 4,331.12 | 5,052.97 |
| Bontnewydd | 1,429.61 | 1,667.88 | 1,906.15 | 2,144.42 | 2,620.96 | 3,097.50 | 3,574.03 | 4,288.84 | 5,003.65 |
| Botwnnog | 1,412.62 | 1,648.06 | 1,883.49 | 2,118.93 | 2,589.80 | 3,060.68 | 3,531.55 | 4,237.86 | 4,944.17 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,420.41 | 1,657.14 | 1,893.88 | 2,130.61 | 2,604.08 | 3,077.55 | 3,551.02 | 4,261.22 | 4,971.42 |
| Bryncrug | 1,428.93 | 1,667.09 | 1,905.24 | 2,143.40 | 2,619.71 | 3,096.02 | 3,572.33 | 4,286.80 | 5,001.27 |
| Buan | 1,415.94 | 1,651.93 | 1,887.92 | 2,123.91 | 2,595.89 | 3,067.87 | 3,539.85 | 4,247.82 | 4,955.79 |
| Caernarfon | 1,475.33 | 1,721.22 | 1,967.11 | 2,213.00 | 2,704.78 | 3,196.56 | 3,688.33 | 4,426.00 | 5,163.67 |
| Clynnog Fawr | 1,444.27 | 1,684.99 | 1,925.70 | 2,166.41 | 2,647.83 | 3,129.26 | 3,610.68 | 4,332.82 | 5,054.96 |
| Corris | 1,428.15 | 1,666.18 | 1,904.20 | 2,142.23 | 2,618.28 | 3,094.33 | 3,570.38 | 4,284.46 | 4,998.54 |
| Criccieth | 1,436.59 | 1,676.03 | 1,915.46 | 2,154.89 | 2,633.75 | 3,112.62 | 3,591.48 | 4,309.78 | 5,028.08 |
| Dolbenmaen | 1,421.71 | 1,658.66 | 1,895.61 | 2,132.56 | 2,606.46 | 3,080.36 | 3,554.27 | 4,265.12 | 4,975.97 |
| Dolgellau | 1,443.37 | 1,683.94 | 1,924.50 | 2,165.06 | 2,646.18 | 3,127.31 | 3,608.43 | 4,330.12 | 5,051.81 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,442.12 | 1,682.47 | 1,922.83 | 2,163.18 | 2,643.89 | 3,124.59 | 3,605.30 | 4,326.36 | 5,047.42 |
| Y Felinheli | 1,431.69 | 1,670.31 | 1,908.92 | 2,147.54 | 2,624.77 | 3,102.00 | 3,579.23 | 4,295.08 | 5,010.93 |
| Ffestiniog | 1,487.82 | 1,735.79 | 1,983.76 | 2,231.73 | 2,727.67 | 3,223.61 | 3,719.55 | 4,463.46 | 5,207.37 |
| Y Ganllwyd | 1,427.25 | 1,665.13 | 1,903.00 | 2,140.88 | 2,616.63 | 3,092.38 | 3,568.13 | 4,281.76 | 4,995.39 |
| Harlech | 1,458.17 | 1,701.19 | 1,944.22 | 2,187.25 | 2,673.31 | 3,159.36 | 3,645.42 | 4,374.50 | 5,103.58 |
| Llanaelhaearn | 1,437.95 | 1,677.60 | 1,917.26 | 2,156.92 | 2,636.24 | 3,115.55 | 3,594.87 | 4,313.84 | 5,032.81 |
| Llanbedr | 1,440.86 | 1,681.00 | 1,921.15 | 2,161.29 | 2,641.58 | 3,121.86 | 3,602.15 | 4,322.58 | 5,043.01 |
| Llanbedrog | 1,422.89 | 1,660.04 | 1,897.19 | 2,134.34 | 2,608.64 | 3,082.94 | 3,557.23 | 4,268.68 | 4,980.13 |
| Llanberis | 1,436.52 | 1,675.94 | 1,915.36 | 2,154.78 | 2,633.62 | 3,112.46 | 3,591.30 | 4,309.56 | 5,027.82 |
| Llandwrog | 1,452.53 | 1,694.61 | 1,936.70 | 2,178.79 | 2,662.97 | 3,147.14 | 3,631.32 | 4,357.58 | 5,083.84 |
| Llandygai | 1,428.46 | 1,666.54 | 1,904.61 | 2,142.69 | 2,618.84 | 3,095.00 | 3,571.15 | 4,285.38 | 4,999.61 |
| Llanddeiniolen | 1,414.41 | 1,650.14 | 1,885.88 | 2,121.61 | 2,593.08 | 3,064.55 | 3,536.02 | 4,243.22 | 4,950.42 |
| Llandderfel | 1,420.29 | 1,657.00 | 1,893.72 | 2,130.43 | 2,603.86 | 3,077.29 | 3,550.72 | 4,260.86 | 4,971.00 |
| Llanegryn | 1,431.40 | 1,669.97 | 1,908.53 | 2,147.10 | 2,624.23 | 3,101.37 | 3,578.50 | 4,294.20 | 5,009.90 |
| Llanelltyd | 1,424.50 | 1,661.92 | 1,899.33 | 2,136.75 | 2,611.58 | 3,086.42 | 3,561.25 | 4,273.50 | 4,985.75 |
| Llanengan | 1,418.73 | 1,655.18 | 1,891.64 | 2,128.09 | 2,601.00 | 3,073.91 | 3,546.82 | 4,256.18 | 4,965.54 |
| Llanfair | 1,436.29 | 1,675.67 | 1,915.05 | 2,154.43 | 2,633.19 | 3,111.95 | 3,590.72 | 4,308.86 | 5,027.00 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,435.25 | 1,674.46 | 1,913.67 | 2,152.88 | 2,631.30 | 3,109.72 | 3,588.13 | 4,305.76 | 5,023.39 |
| Llanfrothen | 1,435.19 | 1,674.39 | 1,913.59 | 2,152.79 | 2,631.19 | 3,109.59 | 3,587.98 | 4,305.58 | 5,023.18 |
| Llangelynnin | 1,422.10 | 1,659.12 | 1,896.13 | 2,133.15 | 2,607.18 | 3,081.22 | 3,555.25 | 4,266.30 | 4,977.35 |
| Llangywer | 1,423.77 | 1,661.06 | 1,898.36 | 2,135.65 | 2,610.24 | 3,084.83 | 3,559.42 | 4,271.30 | 4,983.18 |
| Llanllechid | 1,434.12 | 1,673.14 | 1,912.16 | 2,151.18 | 2,629.22 | 3,107.26 | 3,585.30 | 4,302.36 | 5,019.42 |
| Llanllyfni | 1,425.85 | 1,663.49 | 1,901.13 | 2,138.77 | 2,614.05 | 3,089.33 | 3,564.62 | 4,277.54 | 4,990.46 |
| Llannor | 1,418.09 | 1,654.44 | 1,890.79 | 2,127.14 | 2,599.84 | 3,072.54 | 3,545.23 | 4,254.28 | 4,963.33 |
| Llanrug | 1,452.74 | 1,694.86 | 1,936.99 | 2,179.11 | 2,663.36 | 3,147.60 | 3,631.85 | 4,358.22 | 5,084.59 |
| Llanuwchllyn | 1,435.25 | 1,674.46 | 1,913.67 | 2,152.88 | 2,631.30 | 3,109.72 | 3,588.13 | 4,305.76 | 5,023.39 |
| Llanwnda | 1,428.16 | 1,666.19 | 1,904.21 | 2,142.24 | 2,618.29 | 3,094.35 | 3,570.40 | 4,284.48 | 4,998.56 |
| Llanycil | 1,417.58 | 1,653.84 | 1,890.11 | 2,126.37 | 2,598.90 | 3,071.42 | 3,543.95 | 4,252.74 | 4,961.53 |
| Llanystumdwy | 1,417.76 | 1,654.05 | 1,890.35 | 2,126.64 | 2,599.23 | 3,071.81 | 3,544.40 | 4,253.28 | 4,962.16 |
| Maentwrog | 1,416.71 | 1,652.82 | 1,888.94 | 2,125.06 | 2,597.30 | 3,069.53 | 3,541.77 | 4,250.12 | 4,958.47 |
| Mawddwy | 1,425.87 | 1,663.51 | 1,901.16 | 2,138.80 | 2,614.09 | 3,089.38 | 3,564.67 | 4,277.60 | 4,990.53 |
| Nefyn | 1,439.64 | 1,679.58 | 1,919.52 | 2,159.46 | 2,639.34 | 3,119.22 | 3,599.10 | 4,318.92 | 5,038.74 |
| Pennal | 1,453.75 | 1,696.04 | 1,938.33 | 2,180.62 | 2,665.20 | 3,149.78 | 3,634.37 | 4,361.24 | 5,088.11 |
| Penrhyndeudraeth | 1,429.61 | 1,667.88 | 1,906.15 | 2,144.42 | 2,620.96 | 3,097.50 | 3,574.03 | 4,288.84 | 5,003.65 |
| Pentir | 1,431.62 | 1,670.22 | 1,908.83 | 2,147.43 | 2,624.64 | 3,101.84 | 3,579.05 | 4,294.86 | 5,010.67 |
| Pistyll | 1,429.51 | 1,667.77 | 1,906.02 | 2,144.27 | 2,620.77 | 3,097.28 | 3,573.78 | 4,288.54 | 5,003.30 |
| Porthmadog | 1,423.09 | 1,660.27 | 1,897.45 | 2,134.63 | 2,608.99 | 3,083.35 | 3,557.72 | 4,269.26 | 4,980.80 |
| Pwllheli | 1,441.57 | 1,681.84 | 1,922.10 | 2,162.36 | 2,642.88 | 3,123.41 | 3,603.93 | 4,324.72 | 5,045.51 |
| Talsarnau | 1,443.67 | 1,684.28 | 1,924.89 | 2,165.50 | 2,646.72 | 3,127.94 | 3,609.17 | 4,331.00 | 5,052.83 |
| Trawsfynydd | 1,429.19 | 1,667.39 | 1,905.59 | 2,143.79 | 2,620.19 | 3,096.59 | 3,572.98 | 4,287.58 | 5,002.18 |
| Tudweiliog | 1,416.41 | 1,652.48 | 1,888.55 | 2,124.62 | 2,596.76 | 3,068.90 | 3,541.03 | 4,249.24 | 4,957.45 |
| Tywyn | 1,441.59 | 1,681.85 | 1,922.12 | 2,162.38 | 2,642.91 | 3,123.44 | 3,603.97 | 4,324.76 | 5,045.55 |
| Waunfawr | 1,417.25 | 1,653.46 | 1,889.67 | 2,125.88 | 2,598.30 | 3,070.72 | 3,543.13 | 4,251.76 | 4,960.39 |

**Cynnydd yn y Dreth Cyngor fesul Cymuned / Increase in Council Tax by Community**

| Cymuned/ Community | Sylfaen Drethiannol / Taxbase (Band D) | Praesept / Precept £ | Treth Cymuned / Community Tax | Treth Gwynedd / Gwynedd Tax | Treth Heddlu / Police Tax | Cyfanswm / Total (Band D) 2024/25 | Band D 2023/24 £ | Cynnydd / Increase 23/24 - 24/25 | Cynnydd / Increase % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 607.86 | 16,500 | 27.14 | 1755.47 | 349.65 | 2,132.26 | 1,960.31 | 171.95 | 8.8% |
| Aberdyfi | 1,199.84 | 44,219 | 36.85 | 1755.47 | 349.65 | 2,141.97 | 1,971.05 | 170.92 | 8.7% |
| Abergwyngregyn | 127.25 | 4,000 | 31.43 | 1755.47 | 349.65 | 2,136.55 | 1,967.33 | 169.22 | 8.6% |
| Abermaw (Barmouth) | 1,279.39 | 66,150 | 51.70 | 1755.47 | 349.65 | 2,156.82 | 1,984.68 | 172.14 | 8.7% |
| Arthog | 686.30 | 14,000 | 20.40 | 1755.47 | 349.65 | 2,125.52 | 1,955.41 | 170.11 | 8.7% |
| Y Bala | 805.81 | 27,000 | 33.51 | 1755.47 | 349.65 | 2,138.63 | 1,969.19 | 169.44 | 8.6% |
| Bangor | 4,216.67 | 563,580 | 133.66 | 1755.47 | 349.65 | 2,238.78 | 2,051.80 | 186.98 | 9.1% |
| Beddgelert | 342.39 | 12,500 | 36.51 | 1755.47 | 349.65 | 2,141.63 | 1,970.14 | 171.49 | 8.7% |
| Betws Garmon | 146.14 | 3,000 | 20.53 | 1755.47 | 349.65 | 2,125.65 | 1,956.29 | 169.36 | 8.7% |
| Bethesda | 1,729.69 | 104,541 | 60.44 | 1755.47 | 349.65 | 2,165.56 | 1,999.55 | 166.01 | 8.3% |
| Bontnewydd | 470.78 | 18,500 | 39.30 | 1755.47 | 349.65 | 2,144.42 | 1,975.67 | 168.75 | 8.5% |
| Botwnnog | 470.80 | 6,500 | 13.81 | 1755.47 | 349.65 | 2,118.93 | 1,949.05 | 169.88 | 8.7% |
| Brithdir & Llanfachreth | 470.72 | 12,000 | 25.49 | 1755.47 | 349.65 | 2,130.61 | 1,961.31 | 169.30 | 8.6% |
| Bryncrug | 348.73 | 13,350 | 38.28 | 1755.47 | 349.65 | 2,143.40 | 1,973.43 | 169.97 | 8.6% |
| Buan | 239.47 | 4,500 | 18.79 | 1755.47 | 349.65 | 2,123.91 | 1,951.56 | 172.35 | 8.8% |
| Caernarfon | 3,689.58 | 398,037 | 107.88 | 1755.47 | 349.65 | 2,213.00 | 2,016.77 | 196.23 | 9.7% |
| Clynnog Fawr | 489.48 | 30,000 | 61.29 | 1755.47 | 349.65 | 2,166.41 | 1,976.16 | 190.25 | 9.6% |
| Corris | 323.38 | 12,000 | 37.11 | 1755.47 | 349.65 | 2,142.23 | 1,970.55 | 171.68 | 8.7% |
| Criccieth | 1,004.64 | 50,000 | 49.77 | 1755.47 | 349.65 | 2,154.89 | 1,985.87 | 169.02 | 8.5% |
| Dolbenmaen | 656.05 | 18,000 | 27.44 | 1755.47 | 349.65 | 2,132.56 | 1,962.95 | 169.61 | 8.6% |
| Dolgellau | 1,284.66 | 77,000 | 59.94 | 1755.47 | 349.65 | 2,165.06 | 1,994.88 | 170.18 | 8.5% |
| Dyffryn Ardudwy | 861.12 | 50,000 | 58.06 | 1755.47 | 349.65 | 2,163.18 | 1,993.12 | 170.06 | 8.5% |
| Y Felinheli | 1,192.74 | 50,600 | 42.42 | 1755.47 | 349.65 | 2,147.54 | 1,974.13 | 173.41 | 8.8% |
| Ffestiniog | 1,816.64 | 230,000 | 126.61 | 1755.47 | 349.65 | 2,231.73 | 2,058.15 | 173.58 | 8.4% |
| Y Ganllwyd | 90.89 | 3,250 | 35.76 | 1755.47 | 349.65 | 2,140.88 | 1,971.69 | 169.19 | 8.6% |
| Harlech | 852.33 | 70,000 | 82.13 | 1755.47 | 349.65 | 2,187.25 | 2,015.51 | 171.74 | 8.5% |
| Llanaelhaearn | 482.64 | 25,000 | 51.80 | 1755.47 | 349.65 | 2,156.92 | 1,987.65 | 169.27 | 8.5% |
| Llanbedr | 373.86 | 21,000 | 56.17 | 1755.47 | 349.65 | 2,161.29 | 1,990.32 | 170.97 | 8.6% |
| Llanbedrog | 855.68 | 25,000 | 29.22 | 1755.47 | 349.65 | 2,134.34 | 1,965.47 | 168.87 | 8.6% |
| Llanberis | 797.48 | 39,600 | 49.66 | 1755.47 | 349.65 | 2,154.78 | 1,981.02 | 173.76 | 8.8% |
| Llandwrog | 1,066.90 | 78,600 | 73.67 | 1755.47 | 349.65 | 2,178.79 | 2,005.84 | 172.95 | 8.6% |
| Llandygai | 1,022.19 | 38,400 | 37.57 | 1755.47 | 349.65 | 2,142.69 | 1,968.10 | 174.59 | 8.9% |
| Llanddeiniolen | 1,879.99 | 31,000 | 16.49 | 1755.47 | 349.65 | 2,121.61 | 1,952.23 | 169.38 | 8.7% |
| Llandderfel | 513.67 | 13,000 | 25.31 | 1755.47 | 349.65 | 2,130.43 | 1,952.86 | 177.57 | 9.1% |
| Llanegryn | 170.33 | 7,150 | 41.98 | 1755.47 | 349.65 | 2,147.10 | 1,973.41 | 173.69 | 8.8% |
| Llanelltyd | 316.11 | 10,000 | 31.63 | 1755.47 | 349.65 | 2,136.75 | 1,958.82 | 177.93 | 9.1% |
| Llanengan | 2,611.78 | 60,000 | 22.97 | 1755.47 | 349.65 | 2,128.09 | 1,956.93 | 171.16 | 8.7% |
| Llanfair | 365.02 | 18,000 | 49.31 | 1755.47 | 349.65 | 2,154.43 | 1,981.65 | 172.78 | 8.7% |
| Llanfihangel y Pennant | 251.26 | 12,000 | 47.76 | 1755.47 | 349.65 | 2,152.88 | 1,981.40 | 171.48 | 8.7% |
| Llanfrothen | 237.05 | 11,300 | 47.67 | 1755.47 | 349.65 | 2,152.79 | 1,978.38 | 174.41 | 8.8% |
| Llangelynnin | 469.59 | 13,164 | 28.03 | 1755.47 | 349.65 | 2,133.15 | 1,963.71 | 169.44 | 8.6% |
| Llangywer | 154.76 | 4,725 | 30.53 | 1755.47 | 349.65 | 2,135.65 | 1,964.78 | 170.87 | 8.7% |
| Llanllechid | 362.98 | 16,717 | 46.06 | 1755.47 | 349.65 | 2,151.18 | 1,980.18 | 171.00 | 8.6% |
| Llanllyfni | 1,485.90 | 50,000 | 33.65 | 1755.47 | 349.65 | 2,138.77 | 1,970.01 | 168.76 | 8.6% |
| Llannor | 931.18 | 20,500 | 22.02 | 1755.47 | 349.65 | 2,127.14 | 1,957.17 | 169.97 | 8.7% |
| Llanrug | 1,148.76 | 85,000 | 73.99 | 1755.47 | 349.65 | 2,179.11 | 2,005.16 | 173.95 | 8.7% |
| Llanuwchllyn | 335.02 | 16,000 | 47.76 | 1755.47 | 349.65 | 2,152.88 | 1,980.54 | 172.34 | 8.7% |
| Llanwnda | 848.52 | 31,500 | 37.12 | 1755.47 | 349.65 | 2,142.24 | 1,972.24 | 170.00 | 8.6% |
| Llanycil | 211.80 | 4,500 | 21.25 | 1755.47 | 349.65 | 2,126.37 | 1,956.31 | 170.06 | 8.7% |
| Llanystumdwy | 929.25 | 20,000 | 21.52 | 1755.47 | 349.65 | 2,126.64 | 1,955.96 | 170.68 | 8.7% |
| Maentwrog | 328.15 | 6,544 | 19.94 | 1755.47 | 349.65 | 2,125.06 | 1,955.63 | 169.43 | 8.7% |
| Mawddwy | 377.08 | 12,700 | 33.68 | 1755.47 | 349.65 | 2,138.80 | 1,963.15 | 175.65 | 8.9% |
| Nefyn | 1,656.10 | 90,000 | 54.34 | 1755.47 | 349.65 | 2,159.46 | 1,987.51 | 171.95 | 8.7% |
| Pennal | 238.42 | 18,000 | 75.50 | 1755.47 | 349.65 | 2,180.62 | 1,996.74 | 183.88 | 9.2% |
| Penrhyndeudraeth | 822.80 | 32,332 | 39.30 | 1755.47 | 349.65 | 2,144.42 | 2,011.51 | 132.91 | 6.6% |
| Pentir | 1,300.06 | 55,000 | 42.31 | 1755.47 | 349.65 | 2,147.43 | 1,977.97 | 169.46 | 8.6% |
| Pistyll | 306.53 | 12,000 | 39.15 | 1755.47 | 349.65 | 2,144.27 | 1,978.20 | 166.07 | 8.4% |
| Porthmadog | 2,268.75 | 66,962 | 29.51 | 1755.47 | 349.65 | 2,134.63 | 1,963.14 | 171.49 | 8.7% |
| Pwllheli | 1,834.49 | 105,000 | 57.24 | 1755.47 | 349.65 | 2,162.36 | 1,989.66 | 172.70 | 8.7% |
| Talsarnau | 364.36 | 22,000 | 60.38 | 1755.47 | 349.65 | 2,165.50 | 1,996.32 | 169.18 | 8.5% |
| Trawsfynydd | 517.21 | 20,000 | 38.67 | 1755.47 | 349.65 | 2,143.79 | 1,974.18 | 169.61 | 8.6% |
| Tudweiliog | 512.69 | 10,000 | 19.50 | 1755.47 | 349.65 | 2,124.62 | 1,949.60 | 175.02 | 9.0% |
| Tywyn | 1,779.66 | 101,895 | 57.26 | 1755.47 | 349.65 | 2,162.38 | 1,991.27 | 171.11 | 8.6% |
| Waunfawr | 577.90 | 12,000 | 20.76 | 1755.47 | 349.65 | 2,125.88 | 1,956.86 | 169.02 | 8.6% |

| **Awdurdod** | **2024/25** | **2023/24** | | **Authority** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Gwynedd** | **1,755.47** | **1,602.58** | **9.54%** | **Gwynedd Council** |
| **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** | **349.65** | **333.09** | **4.97%** | **North Wales Police & Crime Commissioner** |
| **Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd)** | **55.53** | **51.53** | **7.76%** | **Community Councils (Average)** |
| **Cyfanswm** | **2,160.65** | **1,987.20** | **8.7%** | **Total** |

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Mai 2024** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a nodir yn **Atodiad A**, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a'r uwch gyflogau a nodir yn yr atodiad.

- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

- mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Grŵp Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | Grŵp Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Gofal | Grŵp Annibynnol |

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

#### 2.1. CYFLWYNIAD

2.1.1 Yn unol â gofynion statudol, mae'n ofynol cynnal adolygiad blynyddol o gydbwysedd y Cyngor, a gwneir hyn yn y cyfarfod blynyddol.

2.1.2 Adroddwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor llawn ar **y 7fed o Fawrth, 2024** fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| Grŵp | Nifer |
|---|---|
| Plaid Cymru | 46 |
| Annibynnol | 21 |
| Llafur Rhyddfrydol | 2 |
| **Cyfanswm** | **69** |

2.1.3 Nid oes unrhyw newidiadau ers hynny.

## 2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

(a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.2.2 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2.1 uchod hefyd.

## 2.3 NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.3.1 Mae'r tabl yn **Atodiad A** yn cadarnhau pa bwyllgorau sydd i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol. Nid oes unrhyw newid i'r dyraniad ers cyfarfod 7fed o Fawrth, 2024.

2.3.2 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn **Atodiad A**.

## 2.4 CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

2.4.1 Er mwyn ymateb i ofynion Mesur Llywodraeth Leol (2011) o ran dyrannu'r cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau, rhennir y pwyllgorau i flociau ar wahân.

2.4.2 Yn unol â gofynion adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny, a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.

2.4.3 Yr unig bwyllgorau y mae eu cadeiryddiaethau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol yw'r Pwyllgorau Craffu. Mae'r adolygiad blynyddol yn nodi fod **Cadeiryddiaeth dau o'r pwyllgorau craffu i'w dynodi i Grŵp Plaid Cymru a Chadeiryddiaeth un pwyllgor craffu i'w dynodi i'r Grŵp Annibynnol.**

2.4.4 Yn unol â barn Grŵp Busnes y Cyngor, argymhellir y dylid dyranu'r cadeiryddiaethau fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Grŵp Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | Grŵp Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Gofal | Grŵp Plaid Cymru |

2.4.5 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli’r penodiadau i’r is-gadeiryddiaethau nac i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw na chaiff aelod o’r weithrediaeth gadeirio’r Pwyllgor Trwyddedu na’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth).

2.4.6 Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy’n cyfyngu tymor Cadeirydd i 2 flynedd.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Fel a nodwyd uchod, ymgynghorwyd â Grŵp Busnes y Cyngor.

**3.2 SYLWADAU’R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cynghori ar y mater yma ac yn fodlon gyda phriodoldeb yr argymhelliad.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 12 | 6 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 12 | 5 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 12 | 5 | 1 | 18 |
| Llywodraethu ac Archwilio | 8 | 4 | 0 | 12 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 10 | 4 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 10 | 4 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Iaith | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 5 | 2 | 0 | 7 |
| **Nifer y seddau** | **99** | **45** | **4** | **148** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 7 | 4 | 0 | 11 |
| CYSAG | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **115** | **53** | **5** | **173** |

<u>Uwch Gyflogau</u>

Yn unol â phenderfyniad blaenorol y Cyngor telir yr uwch gyflogau a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf
- Cadeiryddion Pwyllgorau
    - Pwyllgor Craffu (x3)
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau

- Pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor)
- Dirprwy Bennaeth dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor)

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD:** | **9fed o Fai 2024** |
| **AELOD CABINET** | **DAFYDD MEURIG (AMGYLCHEDD)** |
| **TEITL:** | **ADOLYGIAD O DDATGANIAD O BOLISI DRAFFT – DEDDF DRWYDDEDU 2003** |
| **PWRPAS** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

1. **GWYBODAETH GEFNDIROL**

1.1 Yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003, mae angen i bob awdurdod trwyddedu, gyhoeddi datganiad o bolisi Trwyddedu pob 5 mlynedd.

1.2 Yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gadw ei bolisi o dan sylw a gwneud diwygiadau o'r fath ystyrir yn briodol. Ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu adolygu ei bolisi a'i newid fel yr angen.

1.3 Cafodd y datganiad o bolisi presennol ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2015 , a daeth i rym yn 2016 . Mae'r cyfnod 5 mlynedd wedi dod i ben ers 2021, ac mae oediad wedi bod yn adolygu'r polisi yn 2021 oherwydd blaenoriaethau gwaith gorfodaeth cyfnodau clo covid ar y Gwasanaeth ar y pryd.

**2. PWRPAS Y DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU**

2.1 Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i weithredu a gorfodi'r Deddf Drwyddedu 2003 **;** sydd yn rhoi cyfrifoldeb i Awdurdodau lleol am drwyddedu gwerthiant a chyflenwi alcohol , adloniant rheoledig, a darpariaeth lluniaeth hwyr y nos.

2.2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Trwyddedu yn unol a gofynion y Deddf Drwyddedu i gyhoeddi Datganiad o Bolisi Trwyddedu ar gyfer eu hardal i'w harwain pan yn ystyried ceisiadau am drwydded a rheoleiddio eiddo trwyddedig

2.3 Cyflwynir y Datganiad o Bolisi Trwyddedu mewn ymateb i'r dyletswydd hwn , ac mae yn berthnasol i bob cais, rhybudd, sylwadau a ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir o dan Y Ddeddf Drwyddedu.

2.4 Mae'r Polisi hefyd yn anelu i roi arweiniad i ymgeiswyr , gwrthwynebwyr ac preswylwyr sydd hefo diddordeb; busnesau a'r gymuned ehangach mewn perthynas a 'r cyfeiriad y byddwn yn ei ddilyn fel Awdurdod Trwyddedu.

2.5 Mae'r Datganiad o Bolisi hwn wedi ei lunio yn unol a darpariaethau'r Ddeddf Drwyddedu 2003a'r fersiwn diweddaraf o ganllawiau'r Swyddfa Gartref a gynhyrchir o dan adran 182 o'r Deddf.

3. **CYDWEITHIO**

3.1 Fe benderfynodd 6 sir y Gogledd cyn y cyfnod adolygiad ar gyfer y polisi cyfredol sefydlu Grŵp Tasg er mwyn cydweithio i greu datganiad o Bolisi Trwyddedu oedd yn cysoni elfennau cyffredin ar draws y rhanbarth.

3.2 Cytunodd y Grŵp Tasg i gydweithio unwaith eto er cysondeb strwythur a chynnwys; fodd bynnag, oherwydd y ffactorau economaidd a cymdeithasol gwahanol sy'n effeithio pob awdurdod mae pob datganiad wedi ei eirio ychydig yn wahanol ac yn parhau i fod yn berthnasol i'w ardal benodol.

3. **ADDASIADAU I'R DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU**

3.1 Gwelir copi o'r datganiad o bolisi drafft newydd yn yr Atodiad . Mae'r newidiadau i'r polisi presennol yn ymddangos mewn coch yn y ddogfen. Dim ond man newidiadau yn unig sydd yn y polisi drafft ; er enghraifft mae geiriad y polisi wedi ei addasu er mwyn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

3.2 Fe gyfeirir hefyd at rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn y broses o lunio polisi ac ymateb i geisiadau am drwydded eiddo.

3.3 Er y newidiadau hyn nid yw ysbryd na gweledigaeth y polisi wedi newid.

3.4 Fe gymeradwywyd y datganiad o bolisi drafft yn 2021 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus statudol

**4.0 YMGYNGHORIAD**

4.1 Yn unol â'r Ddeddf, mae'r Polisi trwyddedu drafft newydd wedi bod yn destun ymgynghoriad ffurfiol gyda:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tan & Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion y sir
- Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrif gyfredol

4.2 Yn ogystal â'r uchod, roedd y ddogfen bolisi drafft ar gael i'w harchwilio ym mhob Siop Gwynedd ac roedd ar gael i'w weld ar-lein.

4.3 Roedd yr ymgynghoriad yn agored am 6 wythnos . Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriadau blaenorol wedi bod yn isel; ac ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad y tro hwn; ac mae'n bosib fod hyn oherwydd nad yw'r polisi drafft newydd yn cynnwys unrhyw newidiadau dadleuol i'r polisi cyfredol.

4.4 Fe adroddwyd i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar y 4ydd o Fawrth 2024 ar ganlyniad yr ymgynghoriad; ac fe gymeradwywyd y Datganiad o Bolisi Trwyddedu gyda argymhelliad fod y Cyngor llawn yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod nesaf.

5. **ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

5.1 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn Atodiad 1. Mae gofyn i'r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Nid yw yr asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol penodol yn deillio o'r penderfyniad ; ac nid oes unrhyw sylwadau wedi eu derbyn yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus

6 **DEDDF LLESIANT CENEDALETHAU'R DYFODOL**

6.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau clos a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Polisi wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac yn unol a'r 5 ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf

**7 SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL**

**7.1 Sylwadau Swyddog monitro**

Mater i'r Cyngor Llawn yw mabwysiadu y datganiad o Bolisi Trwyddedu. Fel yr esbonir yn yr adroddiad , mae proses statudol wedi ei dilyn er cyrraedd yr argymhelliad yma gan y Pwyllgor Trwyddedu . Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad.

**7.2 Sylwadau Pennaeth Cyllid**

Rwyf yn fodlon nad yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwario ychwanegol. Rwyf yn cefnogi'r bwriad i ddiweddaru'r polisi.

**8**. **<u>ARGYMHELLIAD</u>**

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu drafft, ac i ddirprwyo hawl i'r Pennaeth Adran wneud addasiadau golygyddol er sicrhau cywirdeb yn ôl yr angen.

# Datganiad o Bolisi Trwyddedu 2024 -2029

DEDDF TRWYDDEDU 2003

# CYNNWYS


**1. Cyflwyniad** .......... 1

1.1 Cefndir .......... 1

1.2 Proffil yr Awdurdod .......... 2

**2. Sgôp a Graddau** .......... 3

**3. Amcanion trwyddedu** .......... 6

3.1 Atal trosedd ac anhrefn .......... 8

**Cyffuriau** .......... 8

GORUCHWYLWYR DRYSAU (PERSONÉL DIOGELWCH TRWYDDEDIG) .......... 9

**GOrchmynION GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS** .......... 9

**Trwyddedau Personol** .......... 9

CYNLLUNIAU PARTNERIAETH Y DIWYDIANT .......... 10

3.2 Diogelwch y cyhoedd .......... 11

IECHYD CYHOEDDUS .......... 12

3.3 Atal niwsans cyhoeddus .......... 13

3.4 Amddiffyn plant rhag niwed .......... 15

ADLONIANT OEDOLION .......... 16

**4. Effaith Gronnol, Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn fuan yn y bore a'r Dreth Hwyr yn y Nos** .......... 17

4.1 Effaith Gronnol .......... 17

4.2 Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn fuan yn y Bore (EMRO) .......... 19

4.3 Y Dreth Hwyr yn y Nos .......... 20

**5. Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** .......... 21

**6. Ceisiadau** .......... 23

6.1 Trwydded Eiddo .......... 23

DATGANIADAU DROS DRO .......... 24

GORUCHWYLWYR DYNODEDIG YR EIDDO (DPS) .......... 24

TROSGLWYDDO TRWYDDED EIDDO .......... 25

6.2 Tystysgrif Eiddo Clwb .......... 26

GOFYNIAD I HYSBYSEBU AC ARDDANGOS CEISIADAU .......... 26

6.3 Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro (TEN) .......... 27

6.4 Trwydded Bersonol .......... 28

**7. Atodlen Weithredu** .......... 29

**8. Oriau Gweithredu** .......... 30

**9. Gorfodaeth, Adolygiadau a Phwerau** ........ 31
9.1 Gorfodaeth ........ 31
9.2 Adolygiadau ........ 33
9.3 Pwerau ........ 34
GWAHARDD AM BEIDIO Â THALU FFIOEDD BLYNYDDOL AM DRWYDDEDAU EIDDO A THYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB ........ 34
**10. Y Broses Drwyddedu** ........ 35
10.1 Y Llwybr Gwneud Cais ........ 35
10.2 Cyflafareddu ........ 36
10.3 Amodau ........ 36
**11. Dirprwyo, Y Pwyllgor Trwyddedu a Gwneud Penderfyniadau** ........ 38
**12. Y Gofrestr Trwyddedu** ........ 39
**Atodiad 1: Rhestr Termau** ........ 41
**Atodiad 2: Diweddariadau Deddfwriaethol** ........ 45
Deddf Dadreoli 2015 ........ 45
Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 ........ 46
**Atodiad 3: Alcohol ac Iechyd yng Nghymru** ........ 47
**Atodiad 4: Protocol Gorfodaeth ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru** ........ 48
**Atodiad 5: Amodau Gorfodol** ........ 51
Cyflenwi Alcohol ........ 51
Dangos Ffilmiau ........ 54
Goruchwylio Drysau ........ 54
Amod Trwyddedu Amgen ........ 54

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 CEFNDIR

1.1.1 Dan ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003, Cyngor Gwynedd yw'r **Awdurdod Trwyddedu** (a chyfeirir ato yn y ddogfen hon fel "yr awdurdod trwyddedu") sydd yn gyfrifol am ganiatáu Trwyddedau Eiddo, Tystysgrifau Eiddo Clwb a Thrwyddedau Personol yn sir Gwynedd.

1.1.2 Mae Deddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") yn gofyn i awdurdod trwyddedu bennu a chyhoeddi datganiad polisi trwyddedu ("y polisi") o leiaf bob pum mlynedd. Llunnir y polisi hwn dan Adran 5 y Ddeddf ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 182 y Ddeddf ("y Canllawiau"), i awdurdodau trwyddedu ar ryddhau eu swyddogaethau dan y Ddeddf.

1.1.3 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i rwymo gan y Ddeddf ac unrhyw reoliadau a wneir dan y Ddeddf. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu 'roi ystyriaeth' i'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Pe bai'r awdurdod trwyddedu yn pennu ei fod yn briodol, gall wyro oddi wrth y Canllawiau os oes ganddo reswm da dros wneud hynny ac os yw'n gallu darparu rhesymau llawn.

1.1.4 Yn unol â gofynion y Ddeddf, roedd y Polisi Trwyddedu drafft yn amodol ar ymgynghoriad ffurfiol gyda Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pobl/cyrff sy'n cynrychioli busnesau a phreswylwyr yn y sir a Pobl/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrifau presennol.

1.1.5 Wrth fabwysiadu'r polisi hwn, mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod anghenion y preswylwyr am amgylchedd diogel, iach a cynaliadwy i fyw a gweithio ynddo ynghyd â phwysigrwydd eiddo adloniant a hamdden sydd yn cael eu rhedeg yn dda i economi a diwydiant twristiaeth Gwynedd.

1.1.6 Mabwysiadwyd y polisi gan Gyngor Gwynedd ar **xxxxxxxxxxx** wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Bydd y polisi yn dod i rym ar y diwrnod hwn ac yn aros mewn grym hyd nes y pennir bod proses statudol neu adolygu ac ymgynghori arall yn angenrheidiol. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn parhau i adolygu'r polisi gan wneud unrhyw welliannau yr ystyrir yn briodol ganddo i gefnogi'r amcanion trwyddedu. Cyhoeddir unrhyw welliannau ar ffurf datganiad polisi newydd neu, os yw'n briodol, drwy gyhoeddi'r gwelliant.

1.1.7 Fel arfer, bydd y polisi'n berthnasol i unrhyw gais am drwydded y penderfynwyd arno ar ôl y dyddiad pan benderfynodd yr awdurdod trwyddedu wneud y polisïau hyn yn weithredol, waeth beth oedd y dyddiad pan wnaed y cais.

1.1.8 Dangosir datganiadau o bolisi allweddol mewn bocsys cysgodol.

# 1.2 PROFFIL YR AWDURDOD

1.2.1 Lleolir sir Gwynedd yng ngogledd-orllewin Cymru ac mae ganddi boblogaeth o dros 122,000 o breswylwyr.

1.2.2 Mae gan Wynedd dros 1000 o eiddo trwyddedig dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae dros 75% o'r eiddo hyn yn cyflenwi alcohol i'w yfed yn ac/neu oddi ar yr eiddo, gyda llawer yn darparu adloniant hefyd. Ceir dros 350 eiddo wedi'u hawdurdodi i ddarparu lluniaeth yn hwyr yn y nos. Ar gyfartaledd, mae'r awdurdod yn derbyn 330 rhybudd am ddigwyddiad dros dro bob blwyddyn er mwyn cynnal digwyddiadau dros dro sydd yn cynnwys adloniant wedi'i reoleiddio ac/neu werthu alcohol.

1.2.3 Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd wedi caniatáu dros 5000 o drwyddedau personol ers 2005 ac ar hyn o bryd yn derbyn 100 cais am drwydded bersonol ar gyfartaledd bob blwyddyn.

# 2. SGÔP A GRADDAU

2.1 Pwrpas y datganiad polisi trwyddedu hwn yw amlinellu'r polisïau fydd yn cael eu gweithredu gan yr awdurdod trwyddedu wrth ymgymryd â'i swyddogaethau trwyddedu, h.y. wrth reoleiddio gweithgareddau trwyddedig mewn eiddo trwyddedig gan glybiau cymwys ac mewn digwyddiadau dros dro o fewn telerau'r Ddeddf. Cyfeirir at y Ddeddf er dibenion dealltwriaeth ond ni fwriedir iddi fod yn grynodeb syml o'r gyfraith. Gellir dod o hyd i restr o'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf ac yn y polisi hwn yn **Atodiad 1**.

2.2 Mae'r Ddeddf yn diffinio **gweithgareddau trwyddedig** fel:-

2.3 **Manwerthu alcohol** – Diffinnir "manwerthu" alcohol yn Adran 192 y Ddeddf. Mae alcohol yn golygu gwirodydd, gwin, cwrw, seidr neu unrhyw wirod alcoholaidd sydd wedi cael ei eplesu neu ei ddistyllu. Manwerthu yw unrhyw werthiant alcohol ac eithrio'r hyn a werthir i fusnes neu glwb gael ei werthu ymlaen i gwsmeriaid, h.y. cyfanwerthu alcohol.

2.4 **Cyflenwi alcohol gan glwb neu ar ei ran, neu yn ôl archeb gan aelod o'r clwb** - Mae cyflenwad alcohol clwb yn eiddo i'r holl aelodau ac felly mae cyflenwi i aelod yn weithgaredd trwyddedig ar wahân.

2.5 **Darpariaeth adloniant wedi'i reoleiddio** - Mae Atodlen 1 y Ddeddf yn amlinellu pa weithgareddau y dylid eu hystyried fel darpariaeth adloniant wedi'i reoleiddio a'r gweithgareddau hynny nad ydynt yn rhai trwyddedig ac felly wedi'u heithrio o agweddau'r drefn drwyddedu ar adloniant wedi'i reoleiddio.

2.6 Mae disgrifiadau o weithgareddau adloniant trwyddedig dan y Ddeddf yn cynnwys:

- Perfformio drama;
- Dangos ffilm;
- Digwyddiadau chwaraeon dan do;
- Adloniant bocsio neu reslo;
- Perfformio cerddoriaeth fyw;
- Chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio;
- Perfformiadau dawns; ac
- Adloniant o ddisgrifiad tebyg i berfformio cerddoriaeth fyw, chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio neu berfformiadau dawns.

2.7 Er mwyn bod yn drwyddedig, mae angen i un neu fwy o'r gweithgareddau hyn gael eu darparu (yn rhannol o leiaf) er diben adlonni cynulleidfa; rhaid iddynt gael eu cynnal ar eiddo sydd ar gael er diben galluogi'r gweithgaredd hwnnw; a rhaid iddynt naill ai

- gael eu cynnal o flaen cynulleidfa gyhoeddus, neu
- fod yn amodol ar dâl yn cael ei godi gyda golwg ar wneud elw pan fo'r gweithgaredd yn cael ei gynnal yn breifat.

2.8 Gwnaeth Deddf Dadreoli 2015 gryn newidiadau i'r diffiniad o adloniant wedi'i reoleiddio. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ynglŷn â'r newidiadau hyn â'r newidiadau a wnaed yn dilyn Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 yn **Atodiad 2**.

2.9 **Darpariaeth lluniaeth yn hwyr yn y nos** - Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn amlinellu pa weithgareddau y dylid eu hystyried fel darpariaeth lluniaeth yn hwyr yn y nos a'r gweithgareddau hynny nad ydynt yn rhai trwyddedig. Trwy gyfrwng Deddf Dadreoli 2015 gall awdurdod trwyddedu eithrio cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth os yw'n digwydd mewn ardal ddynodedig, ar neu oddi ar eiddo dynodedig ac yn ystod amseroedd dynodedig.

2.10 NID yw'r awdurdod trwyddedu wedi dynodi ardal o fewn sir Gwynedd i eithrio cyflenwi lluniaeth hwyr yn y nos.

2.11 Mae'n drosedd dan Adran 136 y Ddeddf i ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau trwyddedig uchod heb drwydded neu awdurdodiad arall dan y Ddeddf.

2.12 Dyma'r **mathau o awdurdodiad neu ganiatâd** y mae'r Ddeddf yn gofyn i'r awdurdod trwyddedu eu rheoleiddio:-

- Trwydded eiddo – i ddefnyddio eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedig.
- Tystysgrif eiddo clwb – i alluogi clwb cymwys gymryd rhan mewn gweithgareddau clwb cymwys.
- Rhybudd digwyddiad dros dro – i gynnal gweithgareddau trwyddedig mewn digwyddiad dros dro.
- Trwydded bersonol – i werthu neu awdurdodi gwerthiant alcohol o eiddo sydd gan drwydded eiddo.

2.13 Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau dan y Ddeddf, dylai'r awdurdod trwyddedu geisio hyrwyddo'r pedwar **amcan trwyddedu** a gynhwysir yn y Ddeddf a'r ffaith eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd. Dyma'r pedwar amcan:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

2.14 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymgymryd â'i swyddogaethau trwyddedu mewn modd sydd yn

- sicrhau diogelwch cyhoeddus,
- cefnogi eiddo sydd yn cael eu rheoli'n dda, ble mae deiliaid trwydded yn dangos sensitifrwydd tuag at effaith bosib gweithgareddau trwyddedig ar breswylwyr lleol a busnesau eraill,
- cefnogi eiddo sydd yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw ac yfed alcohol yn gyfrifol, ac yn
- gwarchod preswylwyr rhag effeithiau andwyol.

2.15 Dim ond ceisio rheoli'r mesurau hyn o fewn rheolaeth deilydd y drwydded ac 'mewn ardal ger' yr eiddo all y broses drwyddedu ei wneud. Felly, bydd yr amodau sydd yn gysylltiedig ag amryw awdurdodiadau yn canolbwyntio ar:-

- Materion o fewn rheolaeth deiliaid trwydded unigol ac eraill sydd wedi derbyn unrhyw awdurdodiad perthnasol.
- Yr eiddo a'r lleoedd a gaiff eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedig a'u hardaloedd gerllaw.
- Effaith uniongyrchol y gweithgareddau a gynhelir yn yr eiddo trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sydd yn byw, gweithio neu'n ymgymryd â gweithgareddau arferol yn yr ardal dan sylw.

2.16 Bydd pob cais a ystyrir gan yr awdurdod trwyddedu dan y polisi hwn yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol. Ni fydd unrhyw beth yn y polisi hwn yn tanseilio hawliau unrhyw unigolyn i wneud cais am wahanol fathau o ganiatâd dan y Ddeddf ac i unrhyw fath o gais gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol.

2.17 Ni fydd dim yn y polisi hwn yn gorbwyso hawl unrhyw berson i gyflwyno sylwadau ar unrhyw gais neu geisio adolygu trwydded neu dystysgrif ble mae ganddynt yr hawl i wneud hynny dan y Ddeddf. Fodd bynnag, ni fydd yn cynnwys ceisiadau na sylwadau a ystyrir yn wamal, twyllodrus neu'n ailadroddus.

2.18 Os yw'n pennu ei fod yn briodol, gall yr awdurdod trwyddedu wyro oddi wrth ei ddatganiad polisi trwyddedu os yw amgylchiadau achos unigol yn haeddu penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

# 3. AMCANION TRWYDDEDU

3.0.1 Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau dan y Ddeddf, dylai'r awdurdod trwyddedu geisio hyrwyddo'r pedwar **amcan trwyddedu** a gynhwysir yn y Ddeddf a'r ffaith eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd. Dyma'r pedwar amcan:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

3.0.2 Yr amcanion trwyddedu yw'r prif ystyriaethau sydd angen eu hystyried gan yr awdurdod trwyddedu wrth benderfynu ar gais a wneir dan y Ddeddf, a bydd unrhyw amodau cysylltiedig yn rhai priodol a chymesur i gyflawni'r amcanion trwyddedu. O fewn cyd-destun hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, disgwylia'r Awdurdod Trwyddedu i ymgeiswyr gynnig amodau trwyddedu i leddfu'r effaith y gall eu heiddo ei gael ar iechyd a lles eu cwsmeriaid, y gymdogaeth ac ar y gymuned yn ehangach.

3.0.3 **Mae pob amcan yr un mor bwysig â'i gilydd.** Byddent yn cael eu hystyried mewn perthynas â materion sydd yn canolbwyntio ar yr eiddo neu o fewn rheolaeth deilydd y drwydded a'r effaith y mae gweithgareddau'r busnes hwnnw yn ei gael ar yr ardal gerllaw.

3.0.4 Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau trwyddedu, bydd yr awdurdod trwyddedu yn defnyddio ystod eang o fesurau yn cynnwys ei reolaethau cynllunio, rheolaeth drafnidiaeth ac yn ymwybodol o ddeddfwriaeth, strategaethau a pholisïau all effeithio ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Deddf Mewnfudo 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Trosedd a Diogelwch 2010
- Deddf Plismona a Throsedd 2009
- Deddf Iechyd 2006
- Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006
- Deddf Gamblo 2005
- Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990
- Deddf Sŵn 1996
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1874
- Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r Undeb Ewropeaidd
- Cod Cydymffurfio Rheoleiddwyr
- Polisi Gorfodaeth Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd
- Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol, Galw Amser Newid

**Noder**: - Tra bod y gyfraith bresennol eisoes yn rhoi goblygiadau statudol ar ymgeiswyr, ni fydd y Cyngor yn gosod yr un dyletswyddau na rhai tebyg ar ffurf amod ar drwydded yr eiddo, y deilydd na'r clwb.

3.0.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau'r heddlu a thân, busnesau lleol, cynlluniau *Pub Watch*, cynrychiolwyr o'r gymuned a phobl leol i fodloni'r amcanion hyn.

3.0.6 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod y diwydiant adloniant yng Ngwynedd yn cyfrannu at yr economi leol. Mae'n denu twristiaid ac ymwelwyr, yn gwneud trefi a chymunedau bywiog ac yn gyflogwr mawr. Mae disgwyliad cyfiawn gan feddianwyr masnachol eiddo hefyd o amgylchedd sydd yn atyniadol ac yn gynaliadwy ar gyfer eu busnesau. Ond rhaid cael cydbwysedd gydag anghenion y boblogaeth breswyl – mae dyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu i warchod mwynderau'r boblogaeth.

3.0.7 Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach sydd yn effeithio ar fwynderau unrhyw ardal. Mae'r rhain yn cynnwys sbwriel a baeddu, sŵn, trosedd ar y stryd a chapasiti isadeiledd y sir, adnoddau ac adnoddau'r heddlu i ymdopi â'r mewnlifiad o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod y nos.

## 3.1 ATAL TROSEDD AC ANHREFN

3.1.1 Mae atal trosedd ac anhrefn yn amcan yn Neddf Trwyddedu 2003 ac yn gyfrifoldeb pwysig gan Gyngor Gwynedd dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

3.1.2 Mae hyrwyddo'r amcan trwyddedu i atal trosedd ac anhrefn yn gosod cyfrifoldeb ar ddeiliaid trwydded i ddod yn bartneriaid allweddol er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Felly, mae'n bwysig bod ymgeisydd am drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb yn gallu dangos y camau ymarferol fydd yn cael eu dilyn i hyrwyddo'r amcan hwn i'r awdurdod trwyddedu.

3.1.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn rhoi ystyriaeth i Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 ble ceir dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal.

3.1.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried sylwadau Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru fel y brif ffynhonnell am gyngor ar drosedd ac anhrefn.

3.1.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i bob eiddo fabwysiadu polisi gwirio oedran megis Her 21 neu Her 25.

### CYFFURIAU

3.1.6 Dylai ymgeiswyr ystyried y bydd angen gosod amodau arbennig efallai ar gyfer mathau penodol o leoliadau i leihau'r posibilrwydd o werthiant a'r defnydd o gyffuriau.

3.1.7 Mae cyffuriau'n newid y ffordd mae pobl yn ymddwyn, felly, rheolir eu dosbarthiad a'u meddiant gan y gyfraith. Fel arfer, caiff cyffuriau a reolir eu cynhyrchu a'u cyflenwi'n anghyfreithlon sydd yn denu cysylltiad troseddol o ran eu dosbarthiad. Mae cyffuriau a gynhyrchir yn anghyfreithlon yn aml yn amrywio mewn ansawdd a chryfder. Mae hyn yn rhoi pobl sydd yn cymryd cyffuriau o'r fath mewn perygl.

3.1.8 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod nad yw defnydd o gyffuriau gan bobl mewn amgylchedd clwb yn berthnasol i bob eiddo trwyddedig. Fodd bynnag, gall nifer o leoliadau adloniant megis clybiau nos a lleoliadau dawnsio fod yn boblogaidd gyda defnyddwyr a chyflenwyr cyffuriau.

3.1.9 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ddeiliaid trwyddedau gymryd pob cam rhesymol i atal cyffuriau rhag mynd i'r eiddo trwyddedig, i gymryd pob cam rhesymol i atal trosglwyddo cyffuriau rhag newid dwylo ac i gymryd camau priodol i atal camddefnyddio cyffuriau yn yr eiddo. Bydd disgwyl i ddeiliaid trwyddedau hyfforddi eu staff i adnabod a deall yr arwyddion pan fo pobl yn camddefnyddio cyffuriau er mwyn medru gweithredu'n ymarferol i ymdrin â'r digwyddiadau hyn ac atal trasiedïau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau.
Dylid arddangos gwybodaeth briodol am ymwybyddiaeth diogelwch cyffuriau i gwsmeriaid. Dylid darparu ystafell Cymorth Cyntaf gydag offer Cymorth Cyntaf ynddi

gan gynnwys diffibriwlydd mewn lleoliadau mwy; a dylid hyfforddi staff i roi cymorth mewn digwyddiadau meddygol.

3.1.10 Bydd yr awdurdod trwyddedu angen i'r ymgeisydd nodi unrhyw faterion penodol (gan ystyried y math penodol o eiddo ac/neu weithgareddau) sydd yn ymwneud â chyffuriau yn mynd i'w heiddo ac yn cael eu defnyddio yno, ac amlinellu sut yr ymdrinnir â phroblemau yn eu hatodlen weithredu. Disgwylir i drwyddedai hefyd fabwysiadu a gweithredu polisi gwahardd priodol.

## GORUCHWYLWYR DRYSAU (PERSONÉL DIOGELWCH TRWYDDEDIG)

3.1.11 Mae'r awdurdod trwyddedu yn ystyried y bydd rhai eiddo angen goruchwylwyr er diben hyrwyddo lleihad mewn trosedd ac anhrefn ac i ddarparu gweithrediad mwy diogel o'r eiddo yn gyffredinol.

3.1.12 Os derbynnir sylwadau perthnasol, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amod bod angen cyflogi goruchwylwyr drysau (wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch) yn yr eiddo naill ai bob amser neu ar amseroedd pan fo gweithgareddau trwyddedig penodol yn cael eu cynnal. Pennir niferoedd a chymhareb goruchwylwyr gan yr awdurdod trwyddedu.

## GORCHMYNION GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS

3.1.13 Mae'r awdurdod yn cefnogi'r defnydd o Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus (PSPO) fel teclyn i atal trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol ar y strydoedd.

3.1.14 Mae'r awdurdod yn disgwyl i eiddo sydd yn gweithredu yn yr ardal ble mae GGMC mewn grym i gael mesurau yn eu lle i sicrhau nad yw eu cwsmeriaid yn cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag yfed.

## TRWYDDEDAU PERSONOL

3.1.15 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod mai ychydig iawn o ddisgresiwn sydd ganddo o ran caniatáu trwyddedau personol. Yn gyffredinol, cyn belled bod gan ymgeisydd gymhwyster wedi'i gymeradwyo gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac nad oes ganddo euogfarnau troseddol difrifol; rhaid caniatáu'r cais.

3.1.16 Gall Heddlu Gogledd Cymru wrthwynebu'r cais os oes gan ymgeisydd euogfarn berthnasol. Os fydd yr heddlu'n cyflwyno gwrthwynebiad, cynhelir gwrandawiad gan Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog yr awdurdod trwyddedu.

3.1.17 Mewn unrhyw wrandawiad, bydd aelodau'n ystyried yn ofalus p'un a fydd caniatáu'r drwydded er budd yr amcan trosedd ac anhrefn. Bydd yn ystyried difrifoldeb a pherthnasedd yr euogfarn(au), y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers i'r drosedd(au) gael ei chyflawni ac unrhyw amgylchiadau lliniarol. Caniateir y cais dim ond os fydd yr is-bwyllgor yn fodlon y byddai gwneud hynny yn hyrwyddo'r amcan hwn.

## CYNLLUNIAU PARTNERIAETH Y DIWYDIANT

3.1.18 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog cyfraniad weithredol mewn cynlluniau megis Pubwatch, Off-Watch, Best Bar None (os yw ar gael yn yr ardal) fel modd o gyfrannu at yr amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn.

## 3.2 DIOGELWCH Y CYHOEDD

3.2.1 Mae'r amcan trwyddedu diogelwch y cyhoedd yn ymwneud â diogelwch corfforol pobl sydd yn defnyddio'r eiddo perthnasol. Mae diogelwch corfforol yn cynnwys atal damweiniau ac anafiadau a niweidiau uniongyrchol eraill all arwain o fod yn yfed alcohol. Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag effeithiau alcohol ar iechyd yng Nghymru, gweler **Atodiad 3**.

3.2.2 Mae gan ddeiliaid trwydded gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch y rhai sydd yn defnyddio eu heiddio fel rhan o'u dyletswyddau dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) diogelwch tân, mynediad i'r gwasanaethau brys, gwaredu gwastraff yn briodol ac aml, defnyddio TCC ac ati.

3.2.3 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i ymrwymo i sicrhau nad yw diogelwch unrhyw berson sydd yn ymweld ag eiddo trwyddedig, neu'n gweithio ynddynt, dan fygythiad.

3.2.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i eiddo gael eu hadeiladu, eu cynnal a'u rheoli yn unol â safonau diogelwch cydnabyddedig, a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fynd i'r afael â gofynion iechyd a diogelwch yn y gwaith a'r ddeddfwriaeth diogelwch tân.

3.2.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi ystyriaeth benodol i sylwadau gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac Uned Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd i benderfynu p'un a yw'r mesurau a gynigir yn addas er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

3.2.6 Pan fo'r awdurdod trwyddedu yn ystyried nad yw dyletswyddau iechyd a diogelwch cyffredinol yn ddigon i yswirio gweithgareddau trwyddedig, gall ychwanegu amodau i hyrwyddo diogelwch cyhoeddus os yw'n briodol gwneud hynny ar ôl derbyn sylwadau.

3.2.7 Pan drefnir gweithgareddau gan wirfoddolwyr neu gymuned megis clwb neu gymdeithas, ystyria'r awdurdod trwyddedu ei fod yn ymarfer da i gymryd arno fod yna berthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli a bod yr un lefel o fesurau iechyd a diogelwch yn cael eu darparu.

3.2.8 Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i drefnwyr unrhyw ddigwyddiad ar raddfa fawr, ble mae gweithgareddau trwyddedig yn mynd i gael eu cynnal, baratoi cynllun rheoli digwyddiad sydd yn ymgorffori asesiadau risgiau priodol. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau ar raddfa fawr i gysylltu â Grŵp Ymgynghori Digwyddiadau Gwynedd yn ystod cam cynllunio cyntaf y digwyddiad.

3.2.9 Ble bo'n briodol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cynnwys cyfanswm y capasiti o bobl mewn Trwydded Eiddo/Tystysgrif Eiddo Clwb. Pennir y ffigwr hwn mewn ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ôl derbyn sylwadau ganddynt.

# IECHYD CYHOEDDUS

3.2.10 Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am wneud cynrychiolaethau a sylwadau ar geisiadau am drwydded. Nid yw iechyd Cyhoeddus yn amcan trwyddedu ar hyn o bryd , ond cred yr awdurdod trwyddedu fod gan iechyd cyhoeddus lawer i'w gyfrannu at drwyddedu mewn perthynas a anghenion iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol ymysg y boblogaeth leol . Mae gan timau iechyd cyhoeddus fynediad unigryw at ddata nad yw ar gael i awdurdodau cyfrifol eraill, a all gael ei ddefnyddio i gyfrannu at wneud penderfyniadau trwyddedu. Mae Iechyd Cyhoeddus yn ddefnyddiol wrth ddarparu tystiolaeth o beryglon iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn benodol o ran polisïau effaith gronnol.

Mae data Iechyd cyhoeddus yn amlygu fod:

- 16% o oedolion yng Ngwynedd yn yfed mwy na'r cyfartaledd wythnosol o alcohol a argymhellir ( Arolwg Cenedlaethol Cymru , 2019)
- Yn 2019 – 2020 roedd 294.3 o dderbyniadau ysbyty a oedd yn gysylltiedig ag alcohol fesul 100,000 unigolion sydd yn preswylio yng Ngwynedd. Mae hyn yn cyfleu gostyngiad o 25% mewn derbyniadau ysbyty sy'n benodol gysylltiedig ag alcohol ers 2015

3.2.11

Yn Mawrth 2020, yn dilyn ymgynghoriad sylweddol gyda rhanddeiliaid proffesiynol , unigolion a theuluoedd a oedd wedi eu heffeithio gan niwed alcohol, fe lansiwyd y Strategaeth cyntaf i leihau niwed alcohol yng Ngogledd Cymru. Fe gynhyrchwyd Galw Amser Newid (2020) ar ran Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mewn cydweithrediad gyda partneriaid ar draws Gogledd Cymru. Mae'r Strategaeth yn dangos ymroddiad o leihau niwed a achosir gan alcohol drwy weithio ar y cyd dros y pum mlynedd nesaf.
Mae y Grŵp Strategaeth Alcohol Gogledd Cymru, sydd yn cael ei gadeirio gan tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Prifysgol Iechyd Betsi Cadwaladr wedi ei sefydlu i weithredu cynllun gweithredol cefnogol sy'n cyfrannu tuag at chwech blaenoriaeth Strategaeth Galw Amser Newid -

- Amgylchedd diogel a chefnogol
- Newid agwedd a normalrwydd cymdeithasol
- Lleihau argaeledd
- Lleihau fforddiadwyedd
- Newid ymddygiad
- Plant, Pobl ifanc a theuluoedd

Mae eiddo trwyddedig yn cael eu hanog i weithio gyda'r Awdurdod Trwyddedu ac Grwp Strategaeth Alcohol Gogledd Cymru drwy gefnogi ymgyrchoedd lleol a rhanbarthol sydd yn atal ac yn lleihau niwed sydd yn cael ei gysylltu gyda alcohol , ac yn cyfrannu tuag at economi gyda'r hwyr diogel, bywiog ac amrywiol ; sydd yn gallu cael ei fwynhau gan bob rhan o'r gymdeithas.

Strategaeth Galw Amser Newid (2020) : [www.bcuhb.nhs.wales/health-advice/north-wales-alcohol-harm-reduction-strategy](www.bcuhb.nhs.wales/health-advice/north-wales-alcohol-harm-reduction-strategy)

National Survey for Wales (2020) [Adult lifestyles by local authority and health board, 2016-17 to 2019-20 (gov.wales)]()

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020), *Data mining Wales, the annual profile for substance misuse* https://phw.nhs.wales/publications/publications1/data-mining-wales-the-annual-profile-for-substance-misuse-2019-20/

## 3.3 ATAL NIWSANS CYHOEDDUS

3.3.1 Rhoddir ystyr statudol i niwsans cyhoeddus mewn sawl darn o ddeddfwriaeth ond ni chaiff ei ddiffinio'n fanwl yn y Ddeddf a chedwir ei ystyr ehangach o ran cyfraith cyffredin.

3.3.2 Mewn amgylchiadau priodol, gall niwsans cyhoeddus gynnwys lleihau mwynderau ac amgylchedd byw a gweithio i pobl eraill sy'n byw a gweithio yn ardal yr eiddo trwyddedig.

3.3.3 Gall pryderon niwsans cyhoeddus gynnwys:

- Sŵn o eiddo
- Ysbwriel
- Parcio Ceir
- Llygredd golau
- Arogleuon atgas
- Ymddygiad/Anhrefn

3.3.4 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i ymrwymo i sicrhau nad yw mwynderau ac amgylchedd byw a gweithio pobl eraill sydd yn byw a gweithio yn ardal yr eiddo trwyddedig dan fygythiad.

3.3.5 Wrth ystyried effaith bosib eiddo trwyddedig ar yr ardal gyfagos, ystyrir yr hyn a ganlyn:

- y gweithgareddau trwyddedig y gwneir cais drostynt
- yr oriau gweithredu y gwneir cais amdanynt
- capasiti'r eiddo
- cymeriad yr ardal, ac
- agosrwydd i breswylwyr lleol.

3.3.6 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amodau ar eiddo trwyddedig na fyddai deilydd y drwydded yn gallu eu rheoli'n uniongyrchol, nac ar faterion nad ydynt yn gysylltiedig ag ardal gyfagos yr eiddo.

3.3.7 Dan y Ddeddf, mae gan Heddlu Gogledd Cymru bwerau i reoli sŵn o'r eiddo. Os oes angen iddynt ddefnyddio'r pwerau hyn gallant gysylltu, ble bo'n ymarferol, gyda'r awdurdod trwyddedu yn unol â'r protocol o ran rhannu gorfodaeth fel yr atodir yn **Atodiad 4.**

3.3.8 Mae'r sŵn a'r aflonyddwch a achosir gan ymddygiad cwsmeriaid sydd yn mynd i'r eiddo neu'n gadael yr eiddo yn ymwneud â chyfrifoldeb personol. I'r perwyl hwn, maent yn amodol ar yr Heddlu'n gorfodi'r ddeddfwriaeth sydd yn ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

3.3.9 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cydbwyso'r posibilrwydd am aflonyddwch cyfyngedig mewn cymdogaethau gyda'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawns a theatr.

## 3.4 AMDDIFFYN PLANT RHAG NIWED

3.4.1 Mae'r amcan amddiffyn plant rhag niwed yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed moesol, seicolegol a chorfforol. Nid yn unig y mae hyn yn cynnwys amddiffyn plant rhag y niweidiau uniongyrchol a gysylltir ag yfed alcohol ond mae hefyd yn amddiffyn plant rhag ecsbloetiaeth rywiol a niweidiau ehangach megis bod yn agored i iaith anweddus ac agored i adloniant oedolion.

3.4.2 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod bod y Ddeddf yn caniatáu i blant gael mynediad agored i bob eiddo trwyddedig, yn amodol ar ddisgresiwn deilydd y drwydded ac unrhyw amodau a osodir ar y drwydded.

3.4.3 Ni chyfyngir ar fynediad i blant i bob math o eiddo oni bai yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn eu hamddiffyn rhag niwed.

3.4.4 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn dymuno gosod amodau'n datgan bod plant yn cael mynediad i eiddo trwyddedig. Dylai hynny barhau'n fater o ddisgresiwn i ddeilydd trwydded yr eiddo dan sylw, yn amodol ar y ffaith na fydd unrhyw wrthdaro gyda'r amcan trwyddedu sef amddiffyn plant rhag niwed.

3.4.5 Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau eiddo, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried hanes eiddo penodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu darparu, er enghraifft:

- Os cafwyd euogfarnau am weini alcohol i blant dan oed neu os oes gan eiddo enw drwg am yfed dan oed;
- Os oes gan eiddo gysylltiad â delio neu gymryd cyffuriau;
- Os oes yna elfen gref o gamblo yn yr eiddo; (nid yw hyn yn cynnwys eiddo sydd ond yn cynnwys nifer fach o beiriannau chwarae gemau am wobrau ariannol);
- Os oes adloniant ar gyfer oedolion neu natur rywiol yn cael ei ddarparu.

3.4.6 Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amodau ar unrhyw drwydded i:-

- Gyfyngu ar yr oriau y mae plant yn gallu bod yn bresennol
- Cyfyngu ar oedran pobl a ganiateir yn yr eiddo
- Gofyn am bresenoldeb oedolyn gyda phlant
- Cyfyngu neu wahardd mynediad pan fo gweithgareddau penodol yn cael eu cynnal

3.4.7 Os oes yna beiriannau chwarae gemau a gemau siawns gyfartal yn bresennol mewn eiddo trwyddedig, bydd rhaid i'r awdurdod trwyddedu a'r Gwarchodwr Eiddo Dynodedig (GED) fonitro presenoldeb plant.

3.4.8 Os oes nifer fawr o blant yn debygol o fod yn bresennol mewn unrhyw eiddo trwyddedig, neu pan fo perfformwyr ar gyfer plant yn bresennol mewn eiddo trwyddedig, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu angen i nifer priodol o oedolion cyfrifol (fydd wedi darparu tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd boddhaol) fod yn bresennol  i sicrhau eu diogelwch a'u hamddiffyn rhag niwed.

3.4.9 Os caniateir i ffilmiau gael eu dangos, rhaid i'r drwydded neu'r dystysgrif gynnwys amod fydd yn cyfyngu mynediad dim ond i'r rheiny sydd yn bodloni'r cyfyngiad oedran gofynnol yn unol ag unrhyw dystysgrif a roddir gan y *British Board of Film Classification* neu mewn achosion penodol.

3.4.10 Ni chaiff ffilmiau eu dangos mewn eiddo trwyddedig sydd yn debygol o:

- Arwain at anhrefn;
- Creu casineb neu annog trais yn erbyn unrhyw ran o'r cyhoedd ar sail lliw, hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu ryw.

3.4.11 Dylai ymgeiswyr sydd yn gwneud cais am drwydded i gyflenwi alcohol fel rhan o wasanaeth cludo a danfon alcohol gynnwys gweithdrefnau yn eu hatodlen weithredu y maent yn bwriadu eu gweithredu i sicrhau bod:

- Y person maent yn gwerthu'r alcohol iddo dros 18;
- Bod alcohol yn cael ei ddanfon i berson dros 18 yn unig; a
- Bod trywydd clir o ddogfennau am y broses archebu - o wneud yr archeb i ddanfon y cynnyrch - yn cael ei gynnal (gydag amseroedd a llofnodion) a'u bod ar gael i gael eu harchwilio gan swyddog awdurdodedig.

## ADLONIANT OEDOLION

3.4.12 Pan fo'r gweithgareddau a gynigiwyd dan y ddeddf yn cynnwys rhai o natur rywiol (e.e. stripio, gweinyddesau bronnoeth a dawnsio bwrdd) bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y posibilrwydd am gynnydd mewn risg i'r amcanion trwyddedu.

3.4.13 Fel arfer, ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn caniatáu trwyddedau sydd yn ymwneud ag elfen rywiol ger ysgolion, meithrinfeydd, addoldai, ysbytai, clybiau ieuenctid ac eiddo sensitif eraill lle mae nifer sylweddol o blant yn debygol o'u mynychu.

3.4.14 Os oes angen, gosodir amodau pan gaiff trwyddedau o'r fath eu caniatáu sydd wedi'u dylunio i sicrhau na chaiff plant fynediad i'r eiddo ac na allant weld y gweithgareddau hyn na hysbysebion amdanynt, yn ogystal ag amodau angenrheidiol i atal problemau trosedd ac anhrefn.

3.4.15 Os nad yw cais am drwydded eiddo neu dystysgrif clwb yn cyfeirio'n benodol at adloniant oedolion o unrhyw fath, bydd y drwydded neu'r dystysgrif yn nodi nad yw adloniant oedolion yn cael ei awdurdodi.

3.4.16 Rhaid i unrhyw eiddo a ddefnyddir am fwy na 12 achlysur o fewn cyfnod o 12 mis i ddarparu unrhyw adloniant rhywiol perthnasol gael ei drwyddedu fel Lleoliad Adloniant Rhywiol. Mae adloniant rhywiol perthnasol yn cynnwys: dawnsio glin, dawnsio polyn, dawnsio bwrdd, sioeau stripio, sioeau sbecian a sioeau rhyw byw.

# 4. EFFAITH GRONNOL, GORCHMYNION CYFYNGU AR WERTHU ALCOHOL YN FUAN YN Y BORE A'R DRETH HWYR YN Y NOS

## 4.1 EFFAITH GRONNOL

4.1.1 Mae crynodiad eiddo trwyddedig o ran nifer, math a dwysedd mewn ardal benodol a'r effaith gronnol y mae'n ei gael ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn fater a gaiff ei ystyried gan yr awdurdod trwyddedu wrth ymgymryd â'i swyddogaethau trwyddedu.

| | |
|---|---|
| 4.1.2 | Os oes tystiolaeth fod ardal benodol o'r sir eisoes yn dioddef effeithiau andwyol o ganlyniad i grynodiad o eiddo hwyr yn y nos, neu fod yr ardaloedd preswyl hynny dan straen, rhoddir ystyriaeth i fabwysiadu 'Polisi Dirlawnder'. |
| 4.1.3 | Effaith polisi o'r fath yw y gallai awdurdod trwyddedu wrthod ceisiadau am Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb newydd, neu amrywiad i drwydded neu dystysgrif bresennol, pryd bynnag y derbyniodd sylwadau perthnasol, oni bai y gallai ymgeisydd ddangos pam na fyddai gweithrediad yr eiddo dan sylw yn ychwanegu at yr effaith gronnol sydd eisoes yn cael ei brofi. |
| 4.1.4 | Fodd bynnag, ni fyddai'r 'Polisi Dirlawnder' yn absoliwt a byddai unrhyw gais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau'i hun ac yn derbyn ystyriaeth briodol. Yn ogystal, ni fydd y polisi'n ceisio cyfyngu ar nifer yr eiddo trwyddedig a gaiff eu caniatáu, yn syml oherwydd bod yr awdurdod trwyddedu yn ystyried bod digon o eiddo trwyddedig yn barod i ddiwallu'r galw. |
| 4.1.5 | Wrth benderfynu p'un ai i fabwysiadu 'Polisi Dirlawnder' ar gyfer ardal benodol, gall yr awdurdod trwyddedu, ymhlith pethau eraill-<br>• Gasglu tystiolaeth neu brawf o bryderon difrifol a chronig gan awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb am niwsans ac anhrefn<br>• Adnabod yr ardal lle cyfyd problemau a ffiniau'r ardal honno<br>• Asesu'r achosion<br>• Cynnal ymarferiad ymgynghori |
| 4.1.6 | Os caiff 'Polisi Dirlawnder' ei fabwysiadu, bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd i asesu p'un a yw'n angenrheidiol a chymesur. |
| | |

4.1.7 Cyn sefydlu 'Polisi Dirlawnder', bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y nifer o fesurau presennol sydd ar gael ac yn berthnasol i daclo ymddygiad anghyfreithlon a gwrthgymdeithasol sydd yn gysylltiedig ag eiddo trwyddedig.

| | | |
|---|---|---|
| Pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod lleol fel llefydd na cheir yfed alcohol yn gyhoeddus ynddynt ac y gellir atafaelu alcohol yn yr ardaloedd hyn. | Pwerau'r heddlu i gau eiddo neu ddigwyddiadau dros dro am hyd at 24 awr ar sail anhrefn, anhrefn posib neu ormod o sŵn. | Pwerau'r heddlu, awdurdodau cyfrifol, preswylwyr neu fusnesau lleol, neu gynghorwyr i wneud cais am adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif clwb. |
| Erlyn deiliaid trwyddedau personol neu aelodau o staff sydd yn gwerthu alcohol i bobl feddw. | Yr heddlu'n gorfodi'r gyfraith gyffredinol sydd yn ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Cymryd rhan mewn cynlluniau cyswllt masnach leol e.e. *Pub watch*. |
| Rheolaeth gynllunio. | Darpariaeth TCC. | Defnydd o staff diogelwch wedi'u hyfforddi a staff eraill. |
| Polisïau rheoli cyffuriau. | | |

# 4.2 GORCHMYNION CYFYNGU AR WERTHU ALCOHOL YN FUAN YN Y BORE (EMRO)

4.2.1 Mae gan yr awdurdod trwyddedu bŵer dan adran 119 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol o amser rhwng 12am a 6am, os yw'n briodol i hybu'r amcanion trwyddedu.

4.2.2 Mae Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn Fuan yn y Bore (EMROs) wedi'u dylunio i fynd i'r afael â phroblemau cyson gydag eiddo trwyddedig, niwsans cyhoeddus difrifol ac achosion eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd alcohol nad ydynt yn deillio'n uniongyrchol o eiddo penodol.

4.2.3 Rhaid i EMRO nodi:

- ar ba ddyddiau y mae'n weithredol a'r cyfnod amser ar y dyddiau hynny,
- yr ardal berthnasol lle dylid ei weithredu,
- p'un a yw'n weithredol am gyfnod dros dro neu ddiderfyn a
- y dyddiad o pryd y mae'n weithredol.

4.2.4 Effaith EMRO yw bod Trwyddedau Eiddo neu Dystysgrifau Eiddo Clwb a roddir gan yr awdurdod trwyddedu, a Rhybuddion Digwyddiadau Dros Dro a gyflwynir i'r awdurdod trwyddedu, yn aneffeithiol yn yr ardal a nodir ac yn ystod y cyfnod a nodir yn y gorchymyn.

4.2.5 Rhoddir ystyriaeth i wneud EMRO os oes tystiolaeth bod yna broblemau cyson gydag eiddo trwyddedig, niwsans cyhoeddus difrifol ac achosion eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd alcohol nad ydynt yn deillio'n uniongyrchol o eiddo penodol.

4.2.6 Cyn gwneud EMRO, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y nifer o fesurau presennol sydd ar gael i daclo niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol nad ydynt yn deillio'n uniongyrchol o eiddo penodol.

| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyno neu ehangu Polisi Effaith Gronnol. | Adolygu trwyddedau eiddo penodol sy'n peri problemau. | Yr heddlu'n gorfodi'r gyfraith sydd yn ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| Defnyddio pwerau'r i ddynodi ardal fel lle na cheir yfed alcohol yn gyhoeddus. | Rheolaeth gynllunio | Mesurau cadarnhaol i greu canol trefi diogel a glân drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill. |

4.2.7 Os yw'r awdurdod trwyddedu yn cynnig gwneud EMRO, bydd yn dilyn y gofynion gweithdrefnol a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

## 4.3 Y DRETH HWYR YN Y NOS

4.3.1 Mae gan yr awdurdod trwyddedu bŵer dan adran 125 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i gyflwyno treth sydd yn daladwy gan ddeiliaid trwydded eiddo a thystysgrifau eiddo clwb sydd yn cyflenwi alcohol rhwng 12am a 6am er mwyn talu am y costau ychwanegol sydd yn gysylltiedig â gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos.

4.3.2 Mae deiliaid trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb sydd yn cyflenwi alcohol rhwng 12am a 6am yn elwa o fodolaeth yr economi hwyr yn y nos. Fodd bynnag, mae trosedd ac anhrefn sydd yn gysylltiedig ag yfed alcohol yn ystod yr economi hwyr yn y nos yn arwain at gostau i'r heddlu, awdurdodau lleol a chyrff eraill.

4.3.3 Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n penderfynu dan adran 125 bod angen gweithredu'r dreth hwyr yn y nos yn ei ardal, rhaid iddo hefyd benderfynu-

a. ar ba ddyddiad mae angen gweithredu'r dreth hwyr yn y nos gyntaf, ac
b. ar gyfer blwyddyn gyntaf y dreth a phob blwyddyn dreth ganlynol-
    i. cyfnod cyflenwi yn hwyr yn y nos;
    ii. categorïau sydd wedi'u heithrio a ganiateir (os oes rhai) sydd angen eu gweithredu yn ei ardal;
    iii. categorïau lleihau a ganiateir (os oes rhai) sydd angen eu gweithredu yn ei ardal;
    iv. cyfran y swm net o daliadau'r dreth sydd angen ei thalu i Heddlu Gogledd Cymru.

4.3.4 Rhaid rhannu unrhyw incwm a gynhyrchir gan y dreth rhwng yr awdurdod trwyddedu a Heddlu Gogledd Cymru. Bydd yr heddlu'n derbyn o leiaf 70% o refeniw net y dreth a bydd yr awdurdod trwyddedu'n derbyn hyd at 30% o refeniw net y dreth.

4.3.5 Os oes tystiolaeth bod trosedd ac anhrefn sydd yn gysylltiedig ag yfed alcohol yn ystod yr economi hwyr yn y nos yn arwain at gostau i'r heddlu, awdurdodau lleol a chyrff eraill; bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried p'un ai codi'r dreth hwyr yn y nos yw'r ffordd orau o godi refeniw mewn perthynas â'r costau hyn.

4.3.6 Os yw'r awdurdod trwyddedu yn cynnig cyflwyno'r dreth hwyr yn y nos, bydd yn dilyn y gofynion gweithdrefnol a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

# 5. CYNLLUNIO A RHEOLAETH ADEILADU

5.1 Mae cyfundrefnau cynllunio, rheolaeth adeiladu a thrwyddedu yn sefyll ar wahân er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithiolrwydd. Er fod y materion a ystyrir yn gysylltiedig, materion gwahanol ydyn nhw mewn gwirionedd.

5.2 Mae dau Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â chyfrifoldebau cynllunio statudol yng Ngwynedd, sef:

**Cyngor Gwynedd** – sy'n gweithredu yn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri.

**Parc Cenedlaethol Eryri** – sy'n Awdurdod Cynllunio annibynnol ac sy'n gyfrifol am yr ardal gyfan sydd o fewn ei ffiniau.

5.3 Mae polisïau cynllunio Cyngor Gwynedd wedi'u nodi yng 'Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd' ac yn y 'Canllawiau Cynllunio Atodol'. Mae polisïau cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri wedi'u nodi yng 'Nghynllun Datblygu Lleol Eryri" ac yn y 'Canllawiau Cynllunio Atodol'.

5.4 Mae'r ddau Awdurdod Cynllunio yn cydweithio wrth baratoi eu cynlluniau eu hunain er mwyn:

- datblygu polisïau ategol a chydnaws,
- 
- sicrhau cynllunio effeithiol a chynaliadwy yn yr hirdymor, ac uchafu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

5.5 Yn gyffredinol, mae caniatâd cynllunio yn awdurdodi math o ddefnydd eang ar gyfer eiddo ac mae trwyddedau yn cael eu rhoi ar gyfer math penodol o weithgaredd. Er enghraifft, gall caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd adloniant fod ar gyfer gweithgareddau a allai gael effaith eang ac amrywiol ar yr ardal leol. Pan gyflwynir cais am drwydded eiddo mae angen ystyried gwir natur effeithiau'r gweithgareddau penodol a fwriedir gan ymgeisydd.

5.6 Fel arfer, bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl bod y caniatâd cynllunio priodol wedi cael ei roi yn barod i unrhyw eiddo cyn y cyflwynir cais trwyddedu. Fodd bynnag, gellir cyflwyno ceisiadau am drwyddedau cyn y gwneir cais am unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol neu cyn y rhoddir caniatâd cynllunio o'r fath.

5.7 Yn ogystal, bydd yr awdurdod, fel arfer, yn disgwyl i'r weithgaredd a awdurdodir gan y drwydded fod yn ddefnydd cynllunio cyfreithiol ac nad yw unrhyw oriau gweithredu a geisir yn mynd yn groes i'r oriau a awdurdodwyd gan y caniatâd cynllunio, os yw hynny'n berthnasol.

5.8 Nid yw'r oriau gweithredu a ganiateir yn y broses drwyddedu yn disodli unrhyw gyfyngiadau a nodwyd fel amod cynllunio. Ymdrinnir ag amodau cynllunio drwy'r broses gynllunio.

5.9 Cydnabyddir y ceisir datganiad dros dro, ynghyd â chaniatâd cynllunio, mewn rhai amgylchiadau.

5.10 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn annog deiliaid trwydded i ddarparu cyfleusterau sy'n galluogi i bobl gydag anableddau gael mynediad iddynt, gan roi ystyriaeth ddilys i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ni osodir unrhyw amodau a ellid eu defnyddio i gyfiawnhau eithrio ar sail diogelwch y cyhoedd.

# 6. CEISIADAU

6.0.1 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ar gyfer pedwar math o awdurdodiad neu ganiatâd, fel a ganlyn:

- Trwydded eiddo – i ddefnyddio eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedig.
- Tystysgrif eiddo clwb – i alluogi clwb cymwys gymryd rhan mewn gweithgareddau clwb cymwys.
- Rhybudd digwyddiad dros dro – i gynnal gweithgareddau trwyddedig mewn digwyddiad dros dro.
- Trwydded bersonol – i werthu neu awdurdodi gwerthiant alcohol o eiddo sydd â thrwydded eiddo.

6.0.2 **Hysbysir ymgeiswyr y nodir y broses ymgeisio ar gyfer pob math o awdurdodiad neu ganiatâd yn fanwl yn y Ddeddf, yn y Rheoliadau ac yn y Canllawiau.**

6.0.3 Rhaid cyflwyno pob cais ar y ffurflen berthnasol gyda'r ffi berthnasol.

6.0.4 Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau yn electronig i'r awdurdod trwyddedu drwy anfon e-bost at **Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru** neu drwy gyflwyno copi caled. Mae'r holl ffurflenni cais, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr awdurdod trwyddedu. Gellir gwneud cais am ffurflen gais yn uniongyrchol i'r awdurdod trwyddedu drwy ffonio 01766 771000.

6.0.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dyrannu trwyddedau eiddo, tystysgrifau eiddo clwb a thrwyddedau personol yn ddwyieithog.

## 6.1 TRWYDDED EIDDO

6.1.1 Mae'r ffurflen gais berthnasol am drwydded eiddo yn cynnwys yr atodlen weithredu ble mae gofyn i'r ymgeisydd nodi, ymysg pethau eraill, y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig sydd i ddigwydd yn yr eiddo, yr amseroedd pan fydd y gweithgareddau'n digwydd, y cyfnod y mae angen y drwydded, p'un a yw'r alcohol a werthir yn yr eiddo am gael ei yfed yn yr eiddo neu i ffwrdd o'r eiddo neu'r ddau, ac yn hanfodol, y camau a fwriedir eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

6.1.2 Rhaid darparu cynllun o'r eiddo a ffurflen ganiatâd gan oruchwyliwr dynodedig yr eiddo (ar gyfer ceisiadau ble mae gwerthu alcohol yn weithgaredd drwyddedig), gyda'r cais.

6.1.3 Mae gofyn i ymgeiswyr hysbysebu eu cais yn y ffordd berthnasol ac yn ystod y cyfnod perthnasol yn unol ag Adran 17 y Ddeddf. Ni ellir gwneud penderfyniad ar gais am drwydded eiddo hyd nes bod yr awdurdod trwyddedu'n fodlon bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r gofynion hyn.

6.1.4 Unwaith y cymeradwyir trwydded eiddo, gellir gwneud ceisiadau pellach yn gysylltiedig â hi. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cais i wyro trwydded eiddo
- Cais i wyro trwydded eiddo i enwi unigolyn fel goruchwyliwr dynodedig yr eiddo
- Cais i drosglwyddo trwydded eiddo
- Hysbysiad awdurdod interim
- Cais i adolygu trwydded eiddo

## DATGANIADAU DROS DRO

6.1.5 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod, mewn amgylchiadau penodol, y bydd angen i fusnesau a datblygwyr gael sicrwydd eu bod yn debygol y bydd trwydded eiddo'n cael ei chymeradwyo yn dilyn adeiladu eiddo newydd neu adnewyddu eiddo presennol sydd heb ei drwyddedu. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cyflwyno datganiadau dros dro yn unol â'r Ddeddf a'r Canllawiau.

## GORUCHWYLWYR DYNODEDIG YR EIDDO (DPS)

6.1.6 Rhaid cyflwyno ffurflen ganiatâd gan y person a benodir fel goruchwyliwr eiddo gyda phob cais sy'n penodi person fel goruchwyliwr yr eiddo. Dylai ceisiadau am drwyddedau newydd sy'n awdurdodi gwerthu alcohol gynnwys gwybodaeth berthnasol yr unigolyn y mae'r trwyddedai yn dymuno ei gael wedi'i enwi ar y Drwydded Eiddo fel goruchwyliwr yr eiddo.

6.1.7 Fel arfer, bydd Awdurdodau Cyfrifol yn ystyried datblygu perthnasau gwaith adeiladol gyda Goruchwylwyr Dynodedig yr Eiddo, a disgwylia'r awdurdod trwyddedu i hon fod yn berthynas ddwy-ffordd er mwyn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth effeithiol yn y maes.

6.1.8 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Heddlu Gogledd Cymru wrthwynebu penodiad unigolyn fel Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo.

6.1.9 Os fydd yr heddlu'n gwrthwynebu, ac os yw'r awdurdod trwyddedu'n fodlon y byddai penodi person penodol fel Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo yn tanseilio'r amcan trwyddedu o atal trosedd; y polisi yw gwrthod y penodiad neu gael gwared ar y person dan sylw fel Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo os ydyw'n ymgymryd â'r swydd honno'n barod.

## TROSGLWYDDO TRWYDDED EIDDO

6.1.10 Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaethau fel y gall unrhyw berson a allai wneud cais am drwydded eiddo hefyd wneud cais i drwydded eiddo gael ei throsglwyddo iddynt hwy. Mae cais i drosglwyddo trwydded eiddo yn newid pwy yw deilydd y drwydded ac nid yw'n newid y drwydded mewn unrhyw ffordd arall.

6.1.11 Rhaid i Heddlu Gogledd Cymru gael hysbysiad o'r cais yn unol â gofynion y Ddeddf. Os ydynt o’r farn y gallai’r trosglwyddiad danseilio’r amcan o atal trosedd, gallant wrthwynebu'r trosglwyddiad drwy hysbysu’r awdurdod trwyddedu o fewn 14 diwrnod.

6.1.12 Pan fo angen caniatâd gan ddeilydd y drwydded i drosglwyddo'r drwydded eiddo ond ble **nad** oes caniatâd wedi’i gael, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth i fodloni'r awdurdod trwyddedu bod **POB** cam rhesymol wedi'i gymryd i geisio cael caniatâd. Mae camau rhesymol yn cynnwys rhoi cyfnod rhesymol o amser i ddeilydd y drwydded ymateb/rhoi caniatâd.

## 6.2 TYSTYSGRIF EIDDO CLWB

6.2.1 Mae’r ffurflen gais berthnasol ar gyfer tystysgrif eiddo clwb yn cynnwys yr atodlen weithredu ble mae gofyn i’r ymgeisydd nodi, ymysg pethau eraill, y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig sydd i ddigwydd yn yr eiddo clwb, yr amseroedd pan fydd y gweithgareddau’n digwydd, y cyfnod y mae angen y drwydded, p’un a gyflenwir alcohol i aelodau ai peidio, ac yn hanfodol, y camau a fwriedir eu cymryd i hyrwyddo’r pedwar amcan trwyddedu.

6.2.2 Rhaid darparu cynllun o’r eiddo a datganiad am dystysgrif eiddo clwb gyda’r cais.

6.2.3 Mae gofyn i ymgeiswyr hysbysebu eu cais yn y ffordd berthnasol ac yn ystod y cyfnod perthnasol yn unol ag Adran 17 y Ddeddf. Ni ellir gwneud penderfyniad ar gais am dystysgrif eiddo clwb hyd nes bod yr awdurdod trwyddedu'n fodlon bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â’r gofynion hyn.

6.2.4 Unwaith y rhoddir tystysgrif eiddo clwb, gellir gwneud ceisiadau pellach yn gysylltiedig â hi. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cais i wyro tystysgrif eiddo clwb
- Cais am fân wyriad i dystysgrif eiddo clwb
- Cais i adolygu tystysgrif eiddo clwb

### GOFYNIAD I HYSBYSEBU AC ARDDANGOS CEISIADAU

6.2.5 Pan fo gofyn i ymgeisydd gyhoeddi hysbysiad o’i gais mewn papur newydd lleol, bydd yr awdurdod trwyddedu angen cael copi o'r hysbysiad gan yr ymgeisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib wedi i’r hysbysiad gael ei gyhoeddi.

6.2.6 Pan fo gofyn i ymgeisydd arddangos hysbysiad mewn lleoliad amlwg neu yn yr eiddo ble y gellir ei ddarllen yn hwylus o’r tu allan i’r eiddo; ble y bo’n ymarferol, bydd yr awdurdod trwyddedu’n ymweld â’r eiddo yn ystod y cyfnod ymgynghori i wirio bod hysbysiad yn cael ei arddangos yn amlwg yn yr eiddo neu arno.

6.2.7 Mae’r awdurdod trwyddedu'n annog pob ymgeisydd i gyhoeddi hysbysiad dwyieithog o’i gais yn y Gymraeg a’r Saesneg.

## 6.3 RHYBUDDION DIGWYDDIAD DROS DRO (TEN)

6.3.1 Bwriad Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yw gweithredu fel proses syml i'w dilyn er mwyn cynnal gweithgareddau trwyddedig dros dro. Yn wahanol i Drwyddedau Eiddo a Thystysgrifau Eiddo Clwb, nid yw'r awdurdod trwyddedu'n caniatáu Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro. Yn lle hynny, mae defnyddiwr yr eiddo'n hysbysu'r awdurdod trwyddedu o'i fwriad i gynnal digwyddiad.

6.3.2 Mae dau fath o Rybudd Digwyddiad Dros Dro; Rhybudd Digwyddiad Dros Dro Safonol a Rhybudd Digwyddiad Dros Dro Hwyr. Ni chyflwynir Rhybudd safonol ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad a chyflwynir Rhybudd hwyr rhwng 5 a 9 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. **Bydd Rhybudd hwyr a gyflwynir lai na 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad yn cael ei ddychwelyd fel un annilys ac ni awdurdodir unrhyw weithgareddau y mae'r rhybudd yn ymwneud â hwy.**

6.3.3 Mae nifer o gyfyngiadau wedi'u gosod ar ddefnyddio Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro, yn cynnwys sawl tro y gall defnyddiwr eiddo gyflwyno Rhybudd Digwyddiad Dros Dro, sawl tro y rhoddir Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i eiddo penodol, hyd mwyaf digwyddiad, a'r uchafswm o bobl a all fynychu'r digwyddiad ar unrhyw adeg benodol.

6.3.4 Rôl yr awdurdod trwyddedu yw gwirio y glynir at y cyfyngiadau a nodir yn y Ddeddf. Pan nad yw Rhybudd Digwyddiad Dros Dro o fewn y cyfyngiadau diffiniedig, bydd yr awdurdod trwyddedu'n cyflwyno gwrth-hysbysiad i ddefnyddiwr yr eiddo. Fel arall, bydd yr awdurdod trwyddedu'n cydnabod y Rhybudd, a gellir gwneud hynny'n electronig.

6.3.5 Gall Heddlu Gogledd Cymru ac Iechyd yr Amgylchedd wrthwynebu Rhybudd Digwyddiad Dros Dro o fewn tri diwrnod gwaith o'i dderbyn. Gellir gwrthwynebu ar sail unrhyw un o'r amcanion trwyddedu. Pan wrthwynebir Rhybudd Digwyddiad Dros Dro hwyr, cyflwynir gwrth-hysbysiad ac ni fydd y Rhybudd yn ddilys. Pan wrthwynebir Rhybudd Digwyddiad Dros Dro safonol, bydd y gwrth-hysbysiad yn cael ei ystyried mewn gwrandawiad.

6.3.6 Gellir gwneud addasiadau i Rybudd Digwyddiad Dros Dro safonol yn dilyn ymgynghoriad a chytundeb â Heddlu Gogledd Cymru **AC** Uned Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd; fodd bynnag, **nid oes sgôp dan y Ddeddf i addasu Rhybudd Digwyddiad Dros Dro hwyr.**

6.3.7 Er nad yw digwyddiadau dros dro yn agored i'r un lefel o reolaeth ag eiddo sy'n destun trwydded eiddo, anogir defnyddiwr yr eiddo i'w trefnu mewn ffordd sy'n cefnogi'r holl amcanion trwyddedu.

6.3.8 Nid yw Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yn dileu'r gofyn i'r ymgeisydd lynu at unrhyw ofyn cynllunio cyfreithiol i gael caniatâd cynllunio ble bo angen.

6.3.9 Mae'n rhaid rhoi rhybudd o ddeg diwrnod gwaith fan leiaf ar gyfer Rhybudd Digwyddiad Dros Dro safonol; fodd bynnag, er mwyn medru cynnal ymgynghoriad agored, **mae'r awdurdod trwyddedu'n annog ymgeiswyr i roi rhybudd o 20 diwrnod gwaith.**

6.3.10 Dylai Heddlu Gogledd Cymru **neu** Uned Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd gyflwyno copi o Rybudd Digwyddiad Dros Dro safonol sydd wedi'i addasu i'r awdurdod trwyddedu fel prawf o'r cytundeb gyda defnyddiwr yr eiddo, yr Heddlu a'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd.

## 6.4 TRWYDDED BERSONOL

6.4.1 Mae Trwydded Bersonol yn caniatáu i'r deilydd werthu alcohol ar ran unrhyw fusnes sydd â thrwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb. Mae'r drwydded bersonol wedi'i dylunio i sicrhau bod unrhyw un sy'n rhedeg neu'n rheoli busnes sy'n gwerthu neu'n cyflenwi alcohol yn gwneud hynny mewn ffordd broffesiynol.

6.4.2 Gall deilydd trwydded bersonol weithredu fel goruchwyliwr dynodedig yr eiddo ar gyfer unrhyw fusnes sy'n gwerthu neu'n cyflenwi alcohol.

6.4.3 Dylid anfon ceisiadau at yr awdurdod trwyddedu sy'n gweithredu yn yr ardal ble mae'r ymgeisydd yn byw, ac nid at yr awdurdod sy'n gweithredu yn lleoliad yr eiddo trwyddedig.

6.4.4 Pan fo gan ymgeisydd gollfarn sydd heb ddarfod am drosedd berthnasol neu drosedd dramor, bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru. Os fydd yr heddlu'n gwrthwynebu ar sail atal trosedd, mae gan yr ymgeisydd hawl i gael gwrandawiad gerbron yr awdurdod trwyddedu. Os nad yw'r Heddlu'n cyflwyno gwrthwynebiad a bod y cais yn bodloni gofynion y Ddeddf ymhob ffordd arall, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo'r cais.

6.4.5 Mae trwyddedau personol yn parhau'n ddilys hyd oni iddynt gael eu hildio, eu hatal, eu diddymu neu i'r llysoedd ddatgan eu bod wedi'u fforffedu.

6.4.6 Mae'r Ddeddf yn gofyn i ddeilydd trwydded bersonol roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu am unrhyw newidiadau i'w enw neu i'w gyfeiriad, am unrhyw gollfarnau am droseddau perthnasol ac am unrhyw gollfarnau am droseddau tramor.

6.4.7 Diddymwyd yr angen i adnewyddu trwydded bersonol o'r Ddeddf yn sgil Deddf Dadreoli 2015. Er bod dyddiad terfyn ar drwyddedau personol a gymeradwywyd cyn Deddf Dadreoli 2015, bydd y trwyddedau hyn yn parhau'n ddilys ac ni fydd dyddiadau o'r fath yn parhau mewn grym.

# 7. ATODLEN WEITHREDU

7.1 Mae'r awdurdod trwyddedu'n annog ymgeiswyr yn gryf i drafod ceisiadau arfaethedig â swyddog trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol yn gynnar a chyn cyflwyno'r cais ei hun. Dylai hyn dynnu sylw at broblemau posib a chynorthwyo i greu partneriaeth weithio dda. Yn ogystal, gall leihau'r angen am wrandawiad yn hwyrach ymlaen yn y broses.

7.2 Wrth ystyried sut i ddatblygu eu hatodlenni gweithredu, cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdodau cyfrifol am arweiniad.

7.3 Anogir ymgeiswyr i ymgyfarwyddo ag unrhyw bolisïau cynllunio a thrafnidiaeth, strategaethau twristiaeth a diwylliannol a strategaethau trosedd ac anhrefn lleol sy'n berthnasol a'u hystyried ble bo'n briodol wrth fynd ati i lunio eu hatodlenni gweithredu.

7.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl i bob ymgeisydd fanylu sut y byddant yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu yn eu hatodlenni gweithredu, gan ystyried y math o eiddo dan sylw, y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig, y dulliau gweithdrefn, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol.

7.5 Mae'r awdurdod yn ystyried bod atodlen weithredu benodol sydd wedi'i llunio'n dda yn dangos bod ymgeisydd yn deall ac yn barod i gwrdd â chyfrifoldebau deilydd trwydded dan y Ddeddf.

7.6 Mae'r awdurdod yn ystyried bod atodlen weithredu wag neu un sydd heb fawr o gynnwys yn rhoi'r argraff nad yw'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i gyfrifoldebau deilydd trwydded.

# 8. ORIAU GWEITHREDU

8.1 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod cael sawl eiddo sy'n cau ar yr un amser mewn rhai ardaloedd yn gallu arwain at gyfnodau penodol o niwsans ac anhrefn wrth i lawer o bobl ddod allan ar y strydoedd ar yr un adeg. Gall hyn, o bosib, arwain at achosi gwrthdaro mewn lleoliadau gwerthu bwyd min nos, ranciau tacsi a gwasanaethau min nos eraill. O ganlyniad, mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod y gall oriau trwyddedu hyblyg fod yn ffactor bwysig wrth geisio lleihau problemau o'r fath.

8.2 Gwneir penderfyniad ar bob cais yn ôl ei haeddiant ei hun, ond fel arfer, bydd yr oriau a geisir gan yr ymgeisydd yn cael eu cymeradwyo pan all yr ymgeisydd ddangos hyd foddhad yr awdurdod trwyddedu na fyddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar ansawdd amgylcheddol, mwynderau preswyl na chymeriad unrhyw ardal benodol.

8.3 Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried cais yr ymgeisydd am oriau cau gan gadw hyn mewn cof:

- Ansawdd amgylcheddol
-
-
- Mwynderau preswyl
-
- Cymeriad neu swyddogaeth ardal benodol, a
-
- Natur y gweithgareddau arfaethedig sydd i'w darparu.

Cymeradwyir yr oriau cau fel arfer pan all yr ymgeisydd ddangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar unrhyw un o'r nodweddion uchod.

8.4 Ble bo alcohol yn cael ei werthu, dylai ceisiadau nodi arnynt yr amser y byddai gwerthu alcohol yn gorffen a'r amser y byddai'r eiddo yn cau.

8.5 Fel arfer, caniateir i siopau ac archfarchnadoedd werthu alcohol yn ystod yr oriau arferol y maent yn bwriadu bod ar agor, ond gall eiddo unigol, sy'n ganolbwynt i anhrefn a niwsans, fod yn destun cyfyngiadau (yn amodol ar sylwadau).

8.6 Pan wneir cais am oriau hwyr yn enwedig yn cynnwys adloniant, ac os y daw sylwadau perthnasol i law, efallai y gosodir oriau cau cynharach ac fe all fod yn briodol gosod amodau er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu.

8.7 Nid yw'r polisi hwn yn gosod unrhyw gyfyngiad cyffredinol ar oriau, mewn unrhyw ardal.

# 9. GORFODAETH, ADOLYGIADAU A PHWERAU

## 9.1 GORFODAETH

9.1.1 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi sefydlu protocol gorfodaeth ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau gorfodaeth effeithlon sydd wedi'i dargedu. Cynhelir cyfarfodydd i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion trwyddedu ac i sicrhau bod camau gweithredu priodol a chyfatebol yn cael eu cymryd. Gweler **Atodiad 4.**

9.1.2 Yn gyffredinol, dim ond yn unol ag egwyddorion gorfodaeth cytunedig ac yn unol â Pholisi Gorfodaeth y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y cymerir camau gweithredu. I'r perwyl hwn, glynir at yr egwyddorion allweddol o gysondeb, tryloywder a bod yn gyfatebol.

9.1.3 Bydd addasiad a wnaed i Ddeddf Trwyddedu 2003 dan delerau Deddf Gostwng Troseddau Treisgar 2006 yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu, ar gais Uwch Swyddog Heddlu, i atodi amodau interim ar drwyddedau wrth aros am adolygiad llawn o'r drwydded.

9.1.4 Unwaith y bydd wedi'i drwyddedu, mae'n hanfodol bod yr eiddo'n cael ei gynnal a'i weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn parhau i gael eu hyrwyddo a'u bod yn cydymffurfio â gofynion penodol y Ddeddf.

9.1.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwneud trefniadau i fonitro eiddo, cynnal archwiliadau a chymryd camau gweithredu priodol os yw o'r farn bod angen gwneud hynny i gefnogi a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

9.1.6 Pan fo amodau wedi'u gosod ar drwydded, gall person awdurdodedig o'r awdurdod trwyddedu archwilio'r eiddo ar unrhyw adeg resymol er mwyn gwirio y glynir at yr amodau hynny.

9.1.7 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried cyflwyno rhybudd anffurfiol ysgrifenedig i ddeiliaid trwydded sy'n argymell gwelliannau mewn cyfnod o amser penodol os yw o'r farn bod hynny'n angenrheidiol i gefnogi a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

## 9.2 ADOLYGIADAU

9.2.1 Ar ôl caniatáu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, gall **awdurdod cyfrifol** neu **unigolyn arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r trwydded neu dystysgrif ar unrhyw adeg yn sgil mater sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

9.2.2 Mae'r broses adolygu'n rhoi gwarchodaeth allweddol i'r gymuned ble mae problemau sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu'n digwydd mewn eiddo neu glwb.

9.2.3 Rhaid i'r awdurdod trwyddedu adolygu trwydded os yw'r eiddo y mae'n ymwneud ag ef yn destun gorchymyn cau gan yr heddlu neu os yw'r heddlu wedi gwneud cais am adolygiad diannod ar y sail bod yr eiddo'n gysylltiedig â throsedd ac / neu anhrefn difrifol.

9.2.4 Ym mhob achos, rhaid i gais am adolygiad ymwneud ag eiddo neu glwb penodol ac mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol i hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

9.2.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwrthod cais am adolygiad os yw'r ymgeisydd yn methu â darparu tystiolaeth nad ydyw un neu fwy o'r amcanion trwyddedu'n cael eu bodloni neu os nad yw'r rheswm am yr adolygiad yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

9.2.6 Yn ogystal, bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwrthod cais am adolygiad os ydyw o'r farn ei fod yn wamal, yn drallodus neu'n ailadroddus.

9.2.7 Mae'r awdurdod trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer dda i'r holl bersonau awdurdodedig sydd â phryderon am broblemau a ganfuwyd mewn eiddo i roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded o'u pryder ac o'r angen am welliannau, a dylent gynghori deilydd y drwydded o'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hynny ble bo modd.

## 9.3 PWERAU

9.3.1 Mae'r Ddeddf yn rhoi amrediad o bwerau statudol i'r awdurdod trwyddedu ac fe all eu defnyddio wrth wneud penderfyniad ar geisiadau neu ar ôl iddo dderbyn rhybudd.

### GWAHARDD AM BEIDIO Â THALU FFIOEDD BLYNYDDOL AM DRWYDDEDAU EIDDO A THYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB

9.3.2 Rhaid i ddeiliaid trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb dalu ffi flynyddol i'r awdurdod trwyddedu – swm sy'n cael ei bennu yn sgil gwerth treth annomestig yr eiddo. Daw'r ffi flynyddol yn ddyledus ac yn daladwy bob blwyddyn ar yr un dyddiad ac y cafodd y drwydded/tystysgrif ei chymeradwyo'n wreiddiol.

9.3.3 Mae'r ffi yn daladwy p'un a yw deilydd y drwydded gyfredol yn bwriadu cau'r busnes ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn i ddod neu os yw wedi cymryd y busnes drosodd ar ganol y flwyddyn.

9.3.4 Mae gan awdurdodau trwyddedu bwerau i wahardd y Drwydded Eiddo neu'r Dystysgrif Eiddo Clwb, ac mae gofyn iddynt wneud hynny, os nad yw'r ffi flynyddol wedi cael ei thalu.

9.3.5 Os oes unrhyw anghydfod ynghylch cyfanswm y ffi ac / neu wir gamgymeriad gweinyddol (a wnaed gan ddeilydd y drwydded / yr awdurdod trwyddedu neu unrhyw un arall), cyn i'r ffi ddod yn ddyledus, rhoddir Cyfnod Gras Statudol o 21 diwrnod fel bo modd dod i gytundeb ar yr anghydfod.

9.3.6 Os na ddatrysir yr anghydfod neu'r camgymeriad yn ystod y cyfnod o 21 diwrnod, RHAID i'r awdurdod trwyddedu wahardd y drwydded ac ni fydd modd i unrhyw weithgareddau trwyddedig gael eu cynnal.

9.3.7 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n hysbysu deilydd y drwydded o'r gwaharddiad yn ysgrifenedig ac yn nodi arno o ba ddyddiad y bydd y gwaharddiad mewn grym. Bydd y diwrnod y daw'r gwaharddiad mewn grym o leiaf 2 ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

9.3.8 Unwaith y bydd y taliad wedi'i dderbyn, gellir dileu'r gwaharddiad. Mae'r gwaharddiad yn dod i ben ar y diwrnod y mae'r awdurdod trwyddedu'n derbyn taliad am y ffi sy'n ddyledus.

# 10. Y BROSES DRWYDDEDU

10.0.1 **Hysbysir ymgeiswyr y nodir y broses ymgeisio ar gyfer pob math o awdurdodiad neu ganiatâd yn fanwl yn y Ddeddf, yn y Rheoliadau ac yn y Canllawiau.**

10.0.2 Rhaid cyflwyno pob cais ar y ffurflen berthnasol gyda'r ffi berthnasol.

10.0.3 Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau yn electronig i'r awdurdod trwyddedu drwy anfon e-bost at **Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru** neu drwy gyflwyno copi caled. Mae'r holl ffurflenni cais, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr awdurdod trwyddedu. Gellir gwneud cais am ffurflen gais yn uniongyrchol i'r awdurdod trwyddedu drwy ffonio 01766 771000.

## 10.1 Y LLWYBR GWNEUD CAIS

10.1.1 Ystyrir y bydd y mwyafrif o'r swyddogaeth drwyddedu yn weinyddol ei natur, h.y. ni fydd llawer o feysydd cynhennus gyda cheisiadau a rhybuddion. Er cyflymder, effeithiolrwydd a bod yn gost effeithiol, swyddogion fydd yn ymdrin â'r awdurdodiadau hyn gan amlaf.

10.1.2 Er mwyn i sylwadau fod yn berthnasol, rhaid iddynt:

- fod yn gysylltiedig â hyrwyddo un o'r pedwar amcan trwyddedu;
- gael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu berson arall o fewn cyfnod penodol
- beidio â chael eu tynnu'n ôl; ac
- o ran sylwadau a wneir gan bobl eraill, rhaid iddynt fod yn rhai nad yw'r awdurdod trwyddedu o'r farn eu bod yn wamal neu'n drallodus.

10.1.3 Pan nad oes unrhyw **sylwadau perthnasol** yn gysylltiedig â chais, bydd y drwydded yn cael ei chymeradwyo ar yr amod bod y cais wedi'i gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf.

10.1.4 Pan wneir sylwadau perthnasol ar gais a bo'r cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion y Ddeddf, gwneir penderfyniad ar y cais yn unol â gofynion y Ddeddf.

10.1.5 Gall sylwadau fod yn rhai cadarnhaol neu negyddol, ond os mai dim ond sylwadau cadarnhaol a dderbynnir mae'n annhebygol iawn y bydd gofyn cynnal gwrandawiad.

## 10.2 CYFLAFAREDDU

10.2.1 Pan fo sylwadau perthnasol sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu'n dod i law gan awdurdodau cyfrifol neu berson arall, bydd yr adain drwyddedu'n penderfynu p'un a yw'r sylwad yn berthnasol ai peidio.

10.2.2 Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n ystyried bod y sylw'n berthnasol, trefnir **cyfarfod cyflafareddu** rhwng y partïon perthnasol er mwyn ceisio dod o hyd i gyfaddawd rhesymol.

10.2.3 Os na fydd y broses anffurfiol hon yn llwyddiannus, cynhelir gwrandawiad gerbron y pwyllgor trwyddedu. Rhoddir gwybod i'r holl bartïon perthnasol.

10.2.4 Bydd y pwyllgor trwyddedu neu'r is-bwyllgor trwyddedu'n gwneud penderfyniad ar y cais a bydd manylion y penderfyniad hwnnw'n cael eu cylchredeg i'r holl bartïon dan sylw.

## 10.3 AMODAU

10.3.1 Mae'r amodau sydd ynghlwm â thrwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb yn bwysig wrth osod y paramedrau ble y gall eiddo weithredu'n gyfreithiol ynddynt.

10.3.2 Mae tri math o amod y gellir ei lynu at drwydded neu dystysgrif; arfaethedig, wedi eu gorfodi a gorfodol. Gweler **Atodiad 5** am yr Amodau Gorfodol cyfredol sydd i'w cynnwys ar bob trwydded ac/neu tystysgrif eiddo clwb yn yr amgylchiadau a nodir.

10.3.3 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod pan na ddaw sylwadau i law gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb ar gais, ei bod yn ddyletswydd arno i gymeradwyo'r drwydded neu'r dystysgrif gydag amodau sy'n gyson ag atodlen weithredu'r ymgeisydd ac unrhyw amodau gorfodol a nodir gan y Ddeddf.

10.3.4 O ran yr amodau arfaethedig, ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n ailadrodd y cynnwys yn atodlen weithredu'r ymgeisydd. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dehongli'r amod yn unol â bwriad yr ymgeisydd ac yn llunio'r amod yn unol â'r egwyddorion amodau trwydded a welir isod.

10.3.5 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n gosod unrhyw amodau oni bai fod ganddo ddisgresiwn i wneud hynny yn sgil sylwadau perthnasol a'i fod wedi'i fodloni mewn gwrandawiad bod angen gosod amodau yn sgil y sylwadau a godwyd. Dim ond ar yr adeg honno y bydd yn gosod amodau o'r fath sy'n briodol ac yn gyfatebol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ar ôl ystyried y sylwadau.

10.3.6 Wrth osod amodau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n defnyddio geiriau fel "rhaid" a "bydd" a bydd yn ystyried yr egwyddorion amodau trwydded a ganlyn.

**Egwyddorion amodau trwydded:**

- Rhaid iddynt fod yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu;
- Rhaid iddynt fod yn bendant ac yn rhai y gellir eu gorfodi;
- Rhaid iddynt fod yn eglur a chlir o ran yr hyn y maent yn ceisio'i gyflawni;
- Ni ddylent ddyblygu unrhyw ofynion statudol eraill neu unrhyw ddyletswyddau neu gyfrifoldebau eraill a roddwyd ar y cyflogwr gan ddeddfwriaeth arall;
- Rhaid iddynt gael eu teilwra er dibenion math, lleoliad a nodweddion unigol yr eiddo a'r digwyddiadau dan sylw;
- Ni ddylent fod yn safonol ac fe allai fod yn anghyfreithlon os na ellir dangos eu bod yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu mewn achos unigol;
- Ni ddylent ailadrodd troseddau a nodir yn y Ddeddf neu mewn deddfwriaeth arall;
- Dylent fod yn gyfatebol, yn gyfiawnadwy ac yn gyraeddadwy;
- Ni allant geisio rheoli ymddygiad cwsmeriaid unwaith y maent y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol deilydd y drwydded a'i staff, ond fe allant effeithio ar ymddygiad cwsmeriaid yn yr ardal ger yr eiddo wrth iddynt fynd i mewn neu ddod allan ohono; a
- Dylid eu hysgrifennu mewn fformat cyfarwyddol.

10.3.7 Wrth osod amodau ar drwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau a allai atal cerddoriaeth fyw, dawns neu theatr wrth osod costau anuniongyrchol sylweddol fel rhan ohonynt, cyhyd ag y bo'n bosib.

10.3.8 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymdrechu i sicrhau y rhoddir eglurhad llawn i'r ymgeisydd o benderfyniad os gwneir penderfyniad sy'n groes i'r canllawiau Statudol.

10.3.9 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod y Canllawiau o ran bod angen cydbwyso barn grwpiau lleol bychan â diddordebau cyffredinol a buddion diwylliannol ehangach y gymuned.

10.3.10 Os daw sylwadau i law ynghylch y posibilrwydd am elfen o niwsans mewn cymdogaeth benodol, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried hynny yn erbyn y buddion ehangach i'r gymuned.

10.3.11 Pan wneir addasiadau neu ychwanegiadau i amodau gorfodol dan y Ddeddf, fe ymdrinnir â hwy fel petaent wedi'u cynnwys ar y trwyddedau neu'r tystysgrifau presennol ar y dyddiad y dônt i rym. Nid oes rhaid i'r awdurdod trwyddedu ail-gyflwyno trwyddedau neu dystysgrifau i gynnwys yr amodau gorfodol addasedig ynddynt ond fe wnânt hynny os y daw cyfle i wneud hynny.

# 11. DIRPRWYO, Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GWNEUD PENDERFYNIADAU

11.1 Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaethau bod swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu, yn cynnwys ei benderfyniadau, i gael eu gwneud gan ei bwyllgor trwyddedu (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â gwneud datganiad polisi trwyddedu). Yng Nghyngor Gwynedd, cyfeirir at y pwyllgor hwn fel y **Pwyllgor Trwyddedu Canolog** ac mae 15 o aelodau yn gwasanaethu arno.

11.2 Gall y pwyllgor trwyddedu ddirprwyo'r swyddogaethau hyn i is-bwyllgorau neu, mewn achosion priodol, i swyddogion sy'n cefnogi'r awdurdod trwyddedu.

11.3 Mae Pwyllgor Trwyddedu Canolog Cyngor Gwynedd wedi penodi **Is-Bwyllgor Trwyddedu Canolog** i ymdrin â:

- Ceisiadau ble mae sylwadau perthnasol wedi dod i law
- Ceisiadau am drwyddedau personol ble mae gan ymgeiswyr droseddau heb ddarfod
- Ceisiadau i adolygu trwyddedau eiddo / tystysgrifau clwb
- Penderfyniad i wrthwynebu pan fo’r awdurdod trwyddedu yn ymgynghorai ac nid yn gweithredu fel yr awdurdod perthnasol sy’n ystyried y cais
- Penderfyniad ynghylch gwrthwynebiad i rybudd digwyddiad dros dro.

11.4 Bydd y mwyafrif o benderfyniadau a swyddogaethau yn bennaf weinyddol eu natur heb unrhyw faes cynhennus. Er cyflymder, effeithiolrwydd a bod yn gost effeithiol, swyddogion fydd yn ymdrin â'r rhain gan amlaf.

11.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu’n dirprwyo materion trwyddedu at sylw’r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog ac i Swyddogion yn unol â’r canllawiau Dirprwyo Swyddogaethau cymeradwy diweddaraf a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 182 y Ddeddf.

# 12. Y GOFRESTR TRWYDDEDU

12.1 Dan y Ddeddf, mae gofyn i bob awdurdod trwyddedu gadw **cofrestr trwyddedu** sy'n cynnwys:

- Cofnod o bob trwydded eiddo, tystysgrif eiddo clwb a thrwydded bersonol a gymeradwywyd ganddo,
- Cofnod o bob rhybudd digwyddiad dros dro a ddaeth i law
- Cofnod o bob cais arall a gyflwynwyd iddo, rhybuddion a roddwyd iddo ac unrhyw wrth-rybudd a roddwyd ganddo, ac
- Unrhyw wybodaeth arall o'r fath a bennir gan reoliadau.

12.2 Bydd yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr trwyddedu ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn ystod oriau swyddfa, yn rhad ac am ddim, a gellir darparu copi o'r wybodaeth honno ar gais (ffi'n daladwy).

12.3 Gweler crynodeb o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr trwyddedu ar-lein yn **www.gwynedd.llyw.cymru**

12.4 Gall unrhyw berson sy'n dymuno gweld y gofrestr trwyddedu gysylltu â'r awdurdod trwyddedu ar e-bost **Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru** neu drwy ffonio 01766 771000 i wneud apwyntiad.

12.5 I sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr yn ddarllenadwy, bydd gofyn i unrhyw berson sy'n dymuno gweld y gofrestr nodi pa ran o'r gofrestr y maent yn dymuno ei weld yn ystod yr apwyntiad.

# 13. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (2015)

13.1 Mae'r Ddeddf yn disgwyl i Awdurdodau Lleol yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn amlwg yn cefnogi ac yn mynd ati i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r Ddeddf hon yn cysylltu'n benodol i atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Mae'n cydnabod fod yna angen i greu seinweddau priodol – yr amgylchedd acwstig cywir yn y lle iawn ac ar yr amser iawn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried rheoli sŵn a seinweddau ac yn benodol y pum modd o weithio a nodir dan y Ddeddf hon, sef, i) Hirdymor – pwysigrwydd cydbwyso anghenion byr-dymor gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gyflawni anghenion hirdymor yn ogystal, ii) Integreiddio, iii) Cynnwys, iv) Cydweithio a v) Atal. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio 'Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd ar gyfer 2018-2023' https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/rheoliadau-gosod-targedau-ysgolion-newidiadau-a-gofynion-statudol.pdf

13.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried y ddeddfwriaeth a ganlyn wrth benderfynu defnyddio ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf Drwyddedu. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn:-

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n ymdrin â sŵn a niwsans
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005 sy'n ymdrin â diogelwch tân
- Deddf Priffyrdd 1980 sy'n ymdrin â thrwyddedau caffis palmant.

# ATODIAD 1: RHESTR TERMAU

**Adolygiad** - Yn dilyn caniatáu **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**, gall **awdurdod cyfrifol** neu **unigolyn arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif oherwydd mater yn codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

**Amodau** - mae tri math o amodau:

1. **Amodau Arfaethedig** - amodau a gynigir gan yr ymgeisydd yn yr atodlen weithredu.

2. **Amodau Gosodedig** - amodau sydd wedi'u gosod gan yr awdurdod trwyddedu ar ôl iddo dderbyn sylwadau perthnasol.

3. **Amodau Gorfodol** - amodau wedi'u rhagnodi gan y Ddeddf ac sydd wedi'u cynnwys ym mhob trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb pan fo gweithgareddau trwyddedig penodol yn cael eu cynnal.

**Amrywiad (i drwydded eiddo)** - Ceisiadau a wnaed dan a.34 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i amrywio amodau **trwydded eiddo**, er enghraifft yr oriau agor, y gweithgareddau trwyddedig neu'r amodau. Pennir y ffi am amrywio **GED** yn y Ddeddf.

**Amrywiad (i dystysgrif eiddo clwb)** - Ceisiadau a wnaed dan a.84 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i amrywio amodau **tystysgrif eiddo clwb**, er enghraifft y gweithgareddau clwb cymwys neu'r amodau.

**Amrywiad mân (i drwydded neu dystysgrif)** - Ceisiadau a wneir dan a.41A neu a.86A o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i wneud amrywiadau risg-isel i delerau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Caiff y ffi am amrywiad mân ei rhagnodi yn y Ddeddf.

**Ardal effaith gronnol** - Ardal y mae'r **awdurdod trwyddedu** wedi ei hadnabod yn ei ddatganiad polisi trwyddedu fel ardal sydd â dirlawnder o eiddo trwyddedig, a gall yr 'effaith gronnol' o gael unrhyw eiddo trwyddedig ychwanegol effeithio'n andwyol ar yr amcanion trwyddedu statudol.

**Arolwg brys/cryno** - Gall prif swyddog yr heddlu wneud cais am arolwg brys/cryno o **drwydded eiddo** oherwydd trosedd ddifrifol ac/neu anhrefn difrifol dan a.53A o **Ddeddf Trwyddedu 2003**.

**Arolwg barnwrol** - Yn cynnwys y rhai ble bu i'r Uchel Lys hysbysu partïon o'i benderfyniad yn ystod y cyfnod penodol yn unig.

**Awdurdod cyfrifol -** Cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu o geisiadau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** penodol, ac mae ganddynt yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maent yn cynnwys:

- yr awdurdod trwyddedu ac unrhyw awdurdod trwyddedu arall y mae rhan o'r eiddo wedi'i leoli yn ei ardal,

- prif swyddog yr heddlu ar gyfer unrhyw ardal yr heddlu y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno,
- awdurdod tân ac achub unrhyw ardal y mae’r eiddo wedi’u lleoli yno,
- Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw ardal y mae’r eiddo wedi’u lleoli yno,
- awdurdod gorfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 ar gyfer unrhyw ardal y mae’r eiddo wedi’u lleoli yno,
- awdurdod cynllunio lleol unrhyw ardal y mae’r eiddo wedi’u lleoli yno,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal risg llygredd yr amgylchedd, neu risg niwed i iechyd dynol mewn unrhyw ardal y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno mewn perthynas â,
- chorff sy’n cynrychioli'r rhai hynny sydd, ynghylch unrhyw ardal, yn gyfrifol am, neu â diddordeb mewn materion yn ymwneud â diogelu plant rhag niwed, ac sy'n gymwys i roi cyngor ar faterion o'r fath,
- mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyo sydd â swyddogaeth ynghylch ble yr angorir y llong fel arfer neu unrhyw ddŵr ble y caiff ei mordwyo neu ble y cynigir ei mordwyo ar adeg pan fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedig,
- yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am bwysau a mesurau mewn unrhyw ardal y mae’r eiddo wedi’u lleoli yno.

**Awdurdod trwyddedu** - Mae'r awdurdod trwyddedu’n gyfrifol am drwyddedu alcohol, adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr yn y nos.

**Bandiau ffioedd** - Wrth bennu swm y ffi trwyddedu ar gyfer ceisiadau am **drwyddedau eiddo** a **thystysgrifau eiddo clwb** newydd, ac amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau, mae pob eiddo yn disgyn i mewn i fand sy’n seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Ers cyflwyno Deddf 2003 hyd at 2012/13, roedd y ffioedd am wneud cais yn gysylltiedig â phob band am drwydded neu dystysgrif newydd fel a ganlyn: Band A (£100); Band B (£190); Band C (£315); Band D [dim **lluosogwr**] (£450); trwydded eiddo Band D â **lluosogwr** (£900); Band E [dim lluosogwr] (£635); trwydded eiddo Band E â lluosogwr (£1,905). O ganlyniad, mae’r ffioedd blynyddol sy’n gysylltiedig â thrwydded neu dystysgrif fel a ganlyn: Band A (£70); Band B (£180); Band C (£295); Band D [dim lluosogwr] (£320); trwydded eiddo Band D â lluosogwr (£640); Band E [dim lluosogwr] (£350); trwydded eiddo Band E â lluosogwr (£1,050).

**Clwb cymwys** - Ceir nifer o feini prawf y mae'n rhaid eu diwallu cyn i glwb gael ei ystyried yn glwb sy'n gymwys am dystysgrif eiddo clwb. Dyma’r meini prawf:

- o dan reolau’r clwb, nid oes modd gadael i unigolion gael aelodaeth, neu fod yn ymgeiswyr am aelodaeth, neu unrhyw fraint aelodaeth heb gyfnod o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebiad am aelodaeth a phan gânt eu derbyn;
- bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal yn ddidwyll fel clwb;
- bod gan y clwb o leiaf 25 aelod; ac
- nad oes alcohol yn cael ei gyflenwi i aelodau ar yr eiddo heblaw am gan y clwb neu ar ei ran.

**Diddymu (trwydded bersonol)** - Os yw deilydd **trwydded bersonol** yn cael ei euogfarnu o drosedd yn ystod y cyfnod gwneud cais am drwydded, mae'n bosib y bydd y drwydded yn cael ei diddymu dan a.124 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**.

**Fforffedu (trwydded bersonol)** - Gwaharddiad penodol yn dilyn gorchymyn llys dan a.129 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** (ble nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi'i ddiarddel, yn disgwyl cynnal apêl dan s.129(4) neu 130 o'r Ddeddf).

**Gorchymyn cyfyngu ar werthu alcohol yn fuan yn y bore** - Pŵer dan adran 119 o **Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol rhwng 12am a 6am, os yw hyn yn cael ei ystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo’r amcanion trwyddedu.

**Gorchymyn treth hwyr y nos** - Pŵer ar ddisgresiwn **awdurdodau trwyddedu** dan adran 125 o **Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011**. Caiff y dreth hwyr yn y nos ei thalu gan yr eiddo sydd wedi’u trwyddedu i werthu alcohol yn hwyr yn y nos er mwyn cyfrannu at gostau plismona economi hwyr yn y nos.

**Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (GED)** - Fel arfer, hwn fydd yr unigolyn fydd deilydd y **drwydded eiddo** wedi rhoi cyfrifoldeb bob dydd iddo i redeg yr eiddo.Dan Ddeddf 2003, rhaid i bob trwydded eiddo sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol enwi GED.Rhaid i’r GED fod yn ddeilydd **trwydded bersonol**.Yr unig eithriad yw yn achos eiddo cymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i’r ALl i gael eu heithrio o'r gofyniad.

**Gwerthu diod i’w yfed ar y safle** - Gwerthiant alcohol a chyflenwad alcohol (gan glybiau) i’w yfed ar yr eiddo.

**Gwerthu diod i’w yfed oddi ar y safle** - Gwerthiant alcohol i’w yfed oddi ar yr eiddo.

**Gwrandawiad** - Wedi’i ddefnyddio yng nghyd-destun ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** sy'n mynd i wrandawiad i benderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo, am ddatganiadau dros dro, i amrywio trwydded eiddo, i gael tystysgrif eiddo clwb, ac i amrywio tystysgrifau eiddo clwb.

**Hysbysiad digwyddiad dros dro (HDDD)** - Hysbysiad dan a.100 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**, sy’n cael ei ddefnyddio i awdurdodi gweithgareddau trwyddedig cymharol fychain, yn amodol ar feini prawf a chyfyngiadau penodol. Mae ond yn cynnwys hysbysiadau sydd wedi’u darparu’n gywir ac yn briodol yn ystod y cyfnod priodol h.y. nid yw’n cynnwys hysbysiadau a anfonwyd yn ôl oherwydd camgymeriadau ar y ffurflen. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysiadau y tynnwyd yn eu hôl o ganlyniad. Pennir y ffi am HDDD yn y Ddeddf.

**Ildio (trwydded)** - Os hoffai deilydd trwydded ei hildio, gwneir hyn yn unol â'r darpariaethau dan adran 28 (ar gyfer **trwydded eiddo**), adran 81 (ar gyfer **tystysgrif clwb**) ac adran 116 (ar gyfer **trwydded bersonol**).

**Lluniaeth hwyr yn y nos -** Darpariaeth bwyd neu ddiod poeth i’r cyhoedd, i’w fwyta ar neu oddi ar yr eiddo, rhwng 11pm a 5am, neu gyflenwad bwyd poeth neu ddiod poeth i unrhyw unigolyn rhwng yr oriau hynny ar neu oddi ar eiddo y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt.

**Lluosogwr** - Caiff lluosogwyr eu cymhwyso i eiddo sy'n cael eu defnyddio i gyflenwi alcohol yn unig neu yn bennaf i yfed ar yr eiddo dan awdurdodiad **trwydded eiddo (bandiau ffioedd** D ac E yn unig).

**Pobl ag Awdurdod -** Cyrff sydd â phŵer i ymgymryd â rolau arolygaeth a gorfodaeth dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yw Pobl ag Awdurdod.

**Pobl eraill -** Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sy'n debygol o gael eu heffeithio o ganlyniad i ganiatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Gall pobl eraill gyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol a gallent wneud cais i adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

**Sylwadau perthnasol** - Sylwadau ynglŷn ag effaith tebygol caniatáu'r cais am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu, sy'n cael ei wneud gan awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall o fewn y cyfnod a bennir dan adran 17(5)(c) y Ddeddf, nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl, ac o ran sylwadau a wneir gan unigolyn arall, nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu cynllunio, yn ddisylwedd neu'n flinderus.

**Trwydded bersonol** - Awdurdodi unigolyn i gyflenwi neu awdurdodi cyflenwi alcohol yn unol â **thrwydded eiddo** dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Caiff y ffi i wneud cais am drwydded eiddo ei rhagnodi yn y Ddeddf.

**Trwydded eiddo** - Awdurdodi eiddo i'w defnyddio i werthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant rheoledig neu ddarparu **lluniaeth hwyr yn y nos**, dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau eiddo â chyfyngiadau amser. Mae ffi trwydded eiddo yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Mae ffioedd gwneud cais yn amrywio o £100 (Band A) i £1,905 (Band E efo lluosogwr); mae ffioedd flynyddol yn amrywio o £70 i £1,050.

**Tystysgrif eiddo clwb -** Awdurdodi **clwb cymwys** i gynnal 'gweithgareddau clwb cymwys' dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau sydd â chyfyngiad amser.

**Wedi'i dirymu (trwydded eiddo)** - Ble mae **trwydded eiddo** wedi'i dirymu oherwydd marwolaeth, analluedd, methdaliad ac ati, fel y pennir dan a.27 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Nid yw'n cynnwys amgylchiadau ble roedd trwydded eiddo'n weithredol am gyfnod cyfyngedig, ond mae'r drwydded bellach wedi dod i ben (e.e. digwyddiadau unwaith ac am byth).

**Wedi'i ddirymu (tystysgrif clwb)** - Ble mae **tystysgrif eiddo clwb** wedi'i ddirymu gan iddo fod yn weithredol am gyfnod cyfyngedig, ond mae'r cyfnod hwnnw bellach wedi dod i ben.

# ATODIAD 2: DIWEDDARIADAU DEDDFWRIAETHOL

## DEDDF DADREOLI 2015

Mae Deddf Dadreoli 2015 yn darparu ar gyfer tynnu neu leihau baich ar fusnesau, unigolion, cyrff sector cyhoeddus ac unigolion.

Y mesurau sy'n effeithio ar Ddeddf Trwyddedu 2003 yw:

A67 - Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol
A68 – Rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro: cynnydd yn uchafswm nifer y digwyddiadau bob blwyddyn
A69 – Trwydded bersonol: dim gofyn i'w hadnewyddu
A70 – Gwerthu melysion gwirod i blant dan 16: diddymu'r drosedd
A71 – Lluniaeth hwyr yn y nos
A72 – Tynnu'r gofyn i adrodd am golli neu ddwyn y drwydded ac ati i'r heddlu
A76 – Arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol

**Gorchymyn DEDDF DADREOLI 2015 (CYCHWYN Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015 -** Roedd y gorchymyn hwn yn manylu pa ddarpariaethau o Ddeddf Dadreoli 2015 fyddai'n dod i rym ar y dyddiadau a nodwyd. Mae'r dyddiadau sy'n berthnasol i'r mesurau sy'n effeithio ar Ddeddf Trwyddedu 2003 fel a ganlyn:-

**O 1 Ebrill 2015**

A69 – Trwydded bersonol: dim gofyn i'w hadnewyddu

**O 6 Ebrill 2015**

A76 – Arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol

**O 26 Mai 2015**

A68 – Rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro: cynnydd yn uchafswm nifer y digwyddiadau bob blwyddyn o 12 i 15. Bydd yr uchafswm diwygiedig yn berthnasol i flynyddoedd calendr o 1 Ionawr 2016.

A70 – Gwerthu melysion gwirod i blant dan 16: diddymu'r drosedd o werthu melysion gwirod i blant dan 16.

A72 – Tynnu'r gofyn i adrodd am golli neu ddwyn y drwydded ac ati i'r heddlu

**Gorchymyn DEDDF DADREOLI 2015 (CYCHWYN Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015**

**O 1 Hydref 2015**

A71 – Lluniaeth hwyr yn y nos

Nid yw'r adrannau a ganlyn mewn grym eto.
A67 - Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol

# DEDDF CERDDORIAETH FYW 2012

Bu i Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 newid Deddf Trwyddedu 2003 gan ddadreoli perfformiadau cerddoriaeth fyw yn rhannol, a chan ddiddymu rheoliadau am ddarpariaeth cyfleusterau adloniant.

Bu iddi:

- ddiddymu’r gofyniad trwyddedu i gerddoriaeth fyw heb amp sy’n digwydd rhwng 8am ac 11pm ym mhob lleoliad, yn amodol i hawl awdurdod trwyddedu i osod amodau ar gerddoriaeth fyw yn dilyn adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb mewn perthynas ag eiddo wedi'u hawdurdodi i gyflenwi alcohol i’w yfed ar yr eiddo;

- ddiddymu’r gofyniad trwyddedu i gerddoriaeth fyw ag amp sy’n digwydd rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 200 o bobl ar eiddo wedi’u hawdurdodi i gyflenwi alcohol i’w yfed ar yr eiddo, yn amodol i hawl awdurdod trwyddedu i osod amodau yn ymwneud â cherddoriaeth fyw yn dilyn adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb;

- ddiddymu’r gofyniad trwyddedu i gerddoriaeth fyw ag amp sy'n digwydd rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 200 o bobl mewn gweithleoedd nad ydynt wedi'u trwyddedu dan Ddeddf 2003 (neu wedi'u trwyddedu ar gyfer darpariaeth hwyr yn y nos yn unig).

- ddiddymu’r gofyniad trwyddedu ar gyfer y ddarpariaeth o gyfleusterau adloniant; ac wedi ehangu’r eithriad trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth fyw sy’n hanfodol i berfformiad o ddawnsio ‘*morris’* neu ddawnsio cyffelyb, fel bod yr eithriad yn gymwys i gerddoriaeth fyw neu wedi’i recordio yn hytrach na cherddoriaeth fyw heb amp.

# ATODIAD 3: ALCOHOL AC IECHYD YNG NGHYMRU

Mae defnyddio alcohol a'i ganlyniadau yn her iechyd cyhoeddus mawr yng Nghymru, y DU a llefydd eraill. Mae defnydd niweidiol o alcohol yn sgorio ymysg y pum ffactor risg uchaf o ran afiechyd, anableddau a marwolaeth drwy'r byd.

- Mae'r gyfran o oedolion sydd yn yfed mwy o alcohol na'r canllawiau wythnosol ( cyfartaledd yfed dros 14 uned yr wythnos) wedi aros ar lefel tebyg ers 2016. Dengys data a gyhoeddwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019 fod 19% o oedolion ( oed 16 a throsodd) yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol i'w gymharu â 20% yn 2016.
- Dengys cyfradd yfed yn ôl rhyw fod 25.8% o ddynion yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol , i'w gymharu â 12.7 % o ferched ; a bod pobl rhwng 45 a 65 oed yn yfed yn amlach nag unrhyw grŵp oedran arall ( Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus , 2019)
- Ers 2009 -10, mae'r canran o dderbyniadau i Ysbytai o unigolion dros 50 oed , sydd yn benodol oherwydd alcohol ; wedi cynyddu o bron i 23% ( Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020
- Mae cysylltiad cryf rhwng derbyniadau Ysbyty oherwydd alcohol ac amddifadedd. Roedd y gyfradd o'r holl gleifion a dderbyniwyd oherwydd cyflyrau sbesiffig i alcohol yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn 2.7 gwaith yn uwch na'r rheini o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig ( Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020 )
- Mae marwolaethau oherwydd cyflyrau sy'n sbesiffig i alcohol wedi cynyddu'n gyson ers 2013. Er hyn, mae'r nifer derbyniadau wedi gostwng 7% yn 2019 o'i gymharu â'r flwyddyn cynt ( Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020)

Mae alcohol yn chware rhan bwysig a phositif mewn bywyd cymdeithasol a theuluol ac yn cyfrannu at gyflogaeth a datblygiad economaidd yn lleol. Er hyn ,ni ddylai traddodiadau cymdeithasol a buddion economaidd guddio'r ffaith fod alcohol yn sylwedd gwenwynig a all gael effaith andwyol ar iechyd a lles corfforol a meddyliol .

PATRYMAU A LEFELAU YFED

Ni ellir gwarantu unrhyw lefel diogel o yfed; ond mae yfed o dan y lefelau dyddiol a argymhellir yn golygu fod y risg o niwed i iechyd yn isel. Mewn rhai amgylchiadau ni chynghorir yfed llai na'r lefelau risg isel. Nid faint o alcohol a yfir yw'r unig ffactor sydd yn cynyddu'r risg o niwed .
Mae gor-yfed mewn pyliau yn cyfeirio at batrwm o yfed lle mae person yn yfed beth bynnag dwywaith yn fwy na'r lefel alcohol dyddiol a argymhellir mewn un sesiwn yfed , ac fe all achosi meddwdod sylweddol ac arwain at broblemau fel damweiniau, anafiadau a thrais. Mae'r arferiad fwyaf cyffredin mewn grwpiau oedran ifanc; ac mae gor-yfed mewn pyliau yn cael ei gysylltu yn aml gyda 'rhag -lwytho' . Mae rhag-lwytho yn derm sydd yn gysylltiedig â phobl - yn enwedig pobl ifanc, yn yfed alcohol gartref neu ar y stryd cyn mynd ymlaen i dafarndai a chlybiau. Mae'n arferiad a gysylltir â lefelau uwch yn gyffredinol o yfed alcohol ,

a chynnydd yn y debygoliaeth o fod yn ymwneud a digwyddiad treisiol . Mae pobl yn rhag-lwytho ar alcohol oherwydd ei fod yn llawer rhatach i'w brynu yn yr archfarchnad neu siop man werthu alcohol arall yn hytrach na mewn tafarn neu far.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn gallu ystyried ymatebion gan sefydliadau iechyd yn gweithredu fel 'Awdurdodau cyfrifol' . Mae Sefydliadau Iechyd yn gallu darparu gwybodaeth sydd yn berthnasol ar gyfer hyrwyddo'r amcan Trwyddedu o Ddiogelu'r Cyhoedd, sydd yn cynnwys atal damweiniau ac anafiadau neu unrhyw niwed uniongyrchol arall a all ddigwydd fel canlyniad i yfed alcohol - fel bod yn anymwybodol neu ddioddef o wenwyno oherwydd alcohol . Er enghraifft , gall meddwdod arwain at ddamweiniau , ac anafiadau oherwydd trais; a all arwain at ymweliadau i Adrannau Argyfwng a defnydd o wasanaethau ambiwlans . Mewn rhai achosion , fe all sefyllfaoedd o'r fath danseilio'r amcan Trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn. Mewn perthynas â diogelu plant rhag niwed , mae dyletswydd i'w gwarchod rhag niwed seicolegol, corfforol a moesol, ac felly mae yna lawer o botensial i sefydliadau iechyd i ychwanegu gwerth i'r broses. Fe all ymweliadau rhai o dan 18 i Unedau Damweiniau a Brys oherwydd alcohol; fod yn berthnasol i'r amcan o ddiogelu plant rhag niwed oherwydd gwerthiant o alcohol i rai o dan oed ,ac fe all fod oblygiadau hefyd i'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn. Fe all Timau Iechyd Cyhoeddus ddarparu tystiolaeth gefnogol, er enghraifft mewn perthynas ag effeithiau yfed alcohol ar gorff unigolyn yn ei arddegau. Mewn rhai ardaloedd , y prif rwystr i sefydliadau iechyd sy'n dymuno gweithredu yn effeithiol fel awdurdod cyfrifol yw nad ydi'r dystiolaeth sydd ei angen i gefnogi ymatebion yn cael ei gasglu yn rheolaidd, neu ddim ar gael yn yr ardal.

## ATODIAD 4: PROTOCOL GORFODAETH AR Y CYD GYDA HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng Heddlu Gogledd Cymru a holl awdurdodau trwyddedu Gogledd Cymru ynglŷn â'r gweithdrefnau gweithredol a phrotocol gorfodi ar y cyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Pwrpas y protocol gorfodi ar y cyd yw

- sicrhau gorfodaeth effeithiol ac wedi'i dargedu,
- hwyluso cydweithrediad rhwng asiantaethau gorfodi, a
- cefnogi'r cyd gymorth gweithredol sydd ei hangen i fynd i'r afael ag eiddo trwyddedig problemus.

Mae'r protocol gorfodi ar y cyd yn disgrifio sut y bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r awdurdod trwyddedu yn delio â phroblemau sy'n codi mewn eiddo neu glwb mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu. Mae hefyd yn disgrifio pryd ystyrir fod angen cychwyn y broses adolygu.

## CAMAU GORFODI

**CAM UN**
Achos o anhrefn/yfed dan oed/ymdrechion i brynu alcohol gan berson dan oed neu ar ran person dan oed mewn/o eiddo trwyddedig lle mae'r person â gofal yn galw'r heddlu am gymorth ac yn cytuno i weithio gyda'r heddlu.

Gall troseddau mwy difrifol sbarduno cam dau neu dri yn awtomatig.

**Os bydd problemau'n parhau ymlaen o Gam Un**


**CAM DAU**
Cyfarfod gyda'r Arolygydd yr Heddlu/Rhingyll Cymdogaeth, Rhanbarth Gorllewinol, Rheolwr Eiddo Trwyddedig a chynrychiolydd yr Awdurdod Lleol. Bydd materion yn cael eu trafod yn ffurfiol a rhybudd ysgrifenedig ffurfiol a roddir.

Cynllun Gweithredu ar y Cyd yn cael ei gytuno gyda chyfnod amser o **dri mis**. Os nad oes unrhyw achosion pellach yn digwydd wedyn ymadael camau gorfodi.

**Os bydd problemau'n parhau ar o Gam Dau**

**CAM TRI**
Bydd Arolygydd yr Heddlu/Rhingyll Cymdogaeth a Rhanbarth y Gorllewin neu awdurdod trwyddedu yn gwneud cais am adolygiad o Drwydded Eiddo, fel sy'n briodol i'r amgylchiadau.

## TREFN ADOLYGU EIDDO TRWYDDEDIG YMGORFFORI DATRYS PROBLEMAU AR Y CYD




Mae symud ymlaen i bob lefel yn broses dewisol, a dyluniwyd y siart llif hwn fel templed cynnydd, ac i fonitro Eiddo Trwyddedig problemus.

Ar unrhyw bryd, gellir penderfynu gwneud cais am adolygiad o drwydded eiddo yn ddibynnol ar deilyngdod yr achos.

# ATODIAD 5: AMODAU GORFODOL

## CYFLENWI ALCOHOL

**ADRAN 19 (2), DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Ni ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded hon

(a) Ar adeg pan nad oes goruchwyliwr eiddo dynodedig yn yr eiddo neu,
(b) Ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr eiddo dynodedig drwydded bersonol neu os yw ei drwydded bersonol wedi ei hatal.

**ADRAN 19 (3), DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Rhaid i bob gwerthiant neu gyflenwad alcohol dan y drwydded hon gael eu hawdurdodi gan unigolyn sydd â thrwydded bersonol.

**ADRAN 19 (4), DEDDF TRWYDDEDU 2003 -**
Amodau eraill

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 fel y'i diwygiwyd**
**1**
(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau nad yw staff ar eiddo perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu yn cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol ynghylch yr eiddo.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad alcohol i'w yfed ar yr eiddo -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -
    (i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar yr eiddo cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu
    (ii) yfed cymaint o alcohol ag sy'n bosib (un ai o fewn cyfyngiad amser neu fel arall);
(b) darpariaeth swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;
(c) darpariaeth alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;
(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi hyrwyddol ar, neu yng nghyffiniau'r eiddo a all ei ystyried (yn rhesymol) fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog ymddygiad gwrth-gymdeithasol, yn portreadu ymddygiad gwrth-gymdeithasol fel rhywbeth deniadol neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod mewn modd ffafriol.
(e) unigolyn yn uniongyrchol ddosbarthu alcohol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

**2**
Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

**3**
(1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oedran yn yr eiddo mewn perthynas â gwerthu neu chyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr eiddo dynodedig mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar yr eiddo yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oedran.

(3) Yn unol â'r polisi, rhaid i unigolion sy'n ymddangos fel eu bod o dan 18 oed (neu oedran hynach fel y'u datgenir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, math o gerdyn adnabod yn cynnwys eu llun, eu dyddiad geni ac un ai
(a) marc holograffig, neu
(b) nodwedd uwchfioled.

**4**
Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcohol a ganlyn eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar yr eiddo (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu neu eu cyflenwi mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -
(i) cwrw neu seidr: ½ peint;

(ii) jin, rỳm, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a
(iii) gwin llonydd mewn gwydr: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos ar ffurf bwydlen, rhestr prisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid yn yr eiddo; ac

(c) ble nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer mai dyma yw'r mesurau

### Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Gorfodol) 2014
**1**
Bydd unigolyn perthnasol yn sicrhau nad yw alcohol yn cael ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed yn yr eiddo, neu oddi ar yr eiddo, am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

**2**
Er dibenion yr amod a amlinellir ym mharagraff 1 -

(a) caiff "toll" ei ddehongli yn unol â'r Ddeddf Tollau ar Ddiodydd Meddwol 1979;

(b) y "pris a ganiateir" yw'r pris a geir trwy ddefnyddio'r fformiwla hon -

$$P = D + (D \times V)$$

lle mai –

(i) P yw'r pris a ganiateir,

(ii) D yw faint o doll sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol petai'r doll yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

(iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol petai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol;

(c) mae "unigolyn perthnasol" yn golygu, yng nghyswllt eiddo y mae trwydded eiddo mewn grym ar ei gyfer -

(i) deilydd y drwydded eiddo,

(ii) y goruchwyliwr eiddo dynodedig (os oes un) yng nghyswllt trwydded o'r fath, neu

(iii) y deilydd trwydded bersonol sy'n cyflenwi neu'n awdurdodi cyflenwi alcohol dan drwydded o'r fath;

(d) mae "person perthnasol" yn golygu, yng nghyswllt eiddo y mae tystysgrif eiddo clwb mewn grym ar ei gyfer, unrhyw aelod neu swyddog o'r clwb sy'n bresennol yn yr eiddo mewn swyddogaeth sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad dan sylw; a

(e) mae "treth ar werth" yn golygu'r dreth ar werth a godir yn unol â Deddf Treth Ar Werth 1994.

**3**

Os na fyddai'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) ym mharagraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rif cyfan o geiniogau, cymerir mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r gwir bris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i'r geiniog agosaf.

**4**

(1) Mae is-baragraff (2) yn berthnasol pe bai'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) ym mharagraff 2 ar un diwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid yn y gyfradd doll neu dreth ar werth.

(2) Mae'r pris a ganiateir fyddai'n berthnasol ar y diwrnod cyntaf yn berthnasol i werthiant alcohol neu gyflenwad alcohol fyddai'n digwydd cyn i'r cyfnod 14 diwrnod sy'n cychwyn ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

# DANGOS FFILMIAU

**ADRAN 20, DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Bydd mynediad i blant dan 18 oed i arddangosiadau ffilm a ganiateir dan y drwydded hon yn cael ei gyfyngu yn unol ag unrhyw argymhellion a wneir

(a) gan y *British Board of Film Classification (BBFC)*, ble y dosbarthwyd y ffilm gan y Bwrdd hwnnw, neu

(b) gan yr Awdurdod Trwyddedu ble na roddwyd tystysgrif dosbarthiad gan y BBFC, neu, pan fo’r awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deilydd y drwydded bod adran 20(3) (b), (Adran 74(3)(b) ar gyfer clybiau) o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn berthnasol i'r ffilm.

# GORUCHWYLIO DRYSAU

**ADRAN 21, DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Ar yr adegau penodol pan fo rhaid i un neu fwy o unigolion fod yn bresennol ar yr eiddo i ymgymryd â gweithgarwch diogelwch, rhaid i unigolion o’r fath

(a) gael eu hawdurdodi i ymgymryd â’r gweithgaredd gan drwydded a roddwyd dan y Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001; neu
(b) gael yr hawl i ymgymryd â’r gweithgaredd hwnnw oherwydd adran 4 o Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001.

Er dibenion yr amod hwn -

(a) mae “gweithgaredd diogelu” yn golygu gweithgaredd sy’n berthnasol i baragraff 2(1)(a) Atodlen 2 Deddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001, ac sy’n ymddygiad trwyddedig er dibenion y Ddeddf (gweler adran 3(2) o’r Ddeddf honno) ac
(b) mae paragraff 8(5) o’r Atodlen honno (dehongliad cyfeiriadau i achlysur) yn berthnasol gan ei fod yn berthnasol i baragraff 8 o’r Atodlen honno.

# AMOD TRWYDDEDU AMGEN

**ADRAN 25A (2), DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Rhaid i bob cyflenwad alcohol a wneir dan y drwydded hon gael ei wneud neu ei awdurdodi gan y pwyllgor rheoli.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Datganiad o Bolisi Trwyddedu 2024 - 2029 |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Mae disgwyliad o dan y Ddeddf Drwyddedu 2003 i Awdurdodau Lleol yn gweithredu fe awdurdodau trwyddedu i gyhoeddi datganiad o'r egwyddorion ac amcanion fydd yn weithredol wrth iddynt ymarfer eu dyletswyddau o dan y Deddf . Mae'r Datganiad o bolisi yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd, ac mae'r Cyngor wedi ymgynghori yn ddiweddar ar adolygiad o'r Polisi yn unol a gofynion y Ddeddf.<br>Pwrpas y Datganiad o Bolisi Trwyddedu yw sicrhau fod pob cais am drwydded o dan yn Deddf yn cael ystyriaeth deg, a chyson, a bod arweiniad yn cael ei roi i bawb ar sut mae'r Cyngor yn gorfodi, gweinyddu a gwneud penderfyniadau o dan y Deddf Drwyddedu 2003 ac yn cefnogi gweithgareddau trwyddedig er buddiant y gymuded yn ehangach. |

Mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd , fel Awdurdod Trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu fel e'u gosodir yn rhan 1 y Deddf sef –

1. Tal trosedd ac Anrhefn
2. Diogelwch y cyhoedd
3. Atal niwsans cyhoeddus
4. Amddiffyn plant rhag niwed

Fe ddynodir Y Ddeddf Gydraddoldeb 2010 fel un o'r prif ddeddfau a ddylid ei ystyried wrth lunio y Datganiad o Bolisi Trwyddedu. Yn yr adolygiad diweddar o'r Datganiad mae ystyriaeth wedi ei roi i ddisgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – sydd yn cyfarch anghydraddoldebau .

Wrth geisio cefnogi cymunedau lle mae yna amrywiaeth mewn ddiwylliant ymysg carfannau o bobl yn ein cymunedau; mae y Cyngor yn disgwyl i bob ymgeisydd am drwydded i sicrhau eu bod yn cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn cael ei drin yn annheg , neu yn destun gwahaniaethu oherwydd hil, lliw, crefydd cefndir ethnig , oed , rhyw, cyfeiriadaeth rhywiol neu anabledd; ac y fod disgwyl i reolaeth ac ymarferion gweithredol y r eiddo trwyddedig fod yn cydymffurfio gyda pob deddfwriaeth sy'n berthnasol i gyd berthnasedd hiliol, cyfleon cyfartal ac Deddfwriaeth gwrth wahaniaethol.

Mae'r Datganiad o Bolisi yn sicrhau fod gweithdrefnau mewn lle i sicrhau fod y broses o geisio am drwydded yn un sydd yn deg ac yn rhydd o unrhyw wahaniaethu.

Yn y polisi, bydd pob ymgeisydd yn cael ei drin yn gyfartal, gan sicrhau cysondeb yn y broses; ond fe fydd ystyriaeth arbennig yn cael ei roi i unrhyw anghenion perthnasol.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ( gwasanaeth trwyddedu a rheolaeth llygredd)

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Hwn yw'r fersiwn cyntaf ar gyfer yr adolygiad yma , a gychwynnwyd yn 2023

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Awdurdodau Cyfrifol megis yr Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pobl/cyrff sy'n cynrychioli busnesau a phreswylwyr yn y sir a Pobl/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrifau presennol.

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| |
|---|
| Mae ymgynghoriad cyhoeddus agored wedi cael ei gynnal yn ystod mis Rhagfyr 2023 a cychwyn Ionawr 2024 . |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| . Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau – o bosib oherwydd nad oes newidiadau sylweddol wedi bod i'r adolygiad cyfredol o'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

**Tystiolaeth leol megis cyfrifiad, ystadegau cenedlaethol , ystadegau Iechyd Cyhoeddus Cymru a dogfennau strategol –**
Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd – dim llawer o wybodaeth leol ar gael, ond fe ddefnyddiwyd y ffynonellau canlynol wrth adolygu'r polisi

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019
Galw Amser am Newid 2020

National Survey for Wales (2020) Adult lifestyles by local authority and health board, 2016-17 to 2019-20 (gov.wales) -

Adult lifestyles by local authority and health board, 2016-17 to 2019-20 (gov.wales)
*Mae data Iechyd cyhoeddus yn amlygu fod: - 16% o oedolion yng Ngwynedd yn yfed mwy na'r cyfartaledd wythnosol o alcohol a argymhellir ( Arolwg Cenedlaethol Cymru , 2019)*

Dengys cyfradd yfed yn ôl rhyw fod 25.8% o ddynion yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol , i'w gymharu â 12.7 % o ferched ; a bod pobl rhwng 45 a 65 oed yn yfed yn amlach nag unrhyw grŵp oedran arall ( Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus , 2019)

Alcohol-specific deaths in the UK - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Mae marwolaethau oherwydd cyflyrau sy'n sbesiffig i alcohol wedi cynyddu'n gyson ers 2013
• Ers 2009 -10, mae'r canran o dderbyniadau i Ysbytai o unigolion dros 50 oed , sydd yn benodol oherwydd alcohol ; wedi cynyddu o bron i 23% ( Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020

| |
|---|
| bipbc.gig.cymru/cyngor-iechyd/alcohol-cyffuriau-ac-ysmygu/strategaeth-lleihau-niwed-alcohol-gogledd-cymru/north-wales-alcohol-harm-reduction-strategy/alcohol-harm-reduction-strategy-cymraeg-pdf/<br>Dengys y Strategaeth fod 60% o dderbyniadau alcohol – benodol i'r ysbyty ar gyfer plant o dan 18 mlwydd oed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) yn Ferched. Mae'r ystadegau yn y ddogfen hefyd yn dangos fod lefel uwch o yfed niweidiol, mwy na'r canllawiau ymhlith dynion. Mae lefel yfed alcohol yn debyg ar draws y grwpiau incwm ; ond dengys fod cyfradd uwch o dderbyniadau i'r ysbyty sydd yn gysylltiedig ag alcohol ymysg grwpiau sydd yn byw mewn amddifadedd. |

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Rydym yn ymwybodol nad oes data lleol ar gael. |

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | positif | Mae'r polisi yn hyrwyddo cysondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau, gan ystyried unrhyw anghenion penodol. Hefyd , mae'r polisi yn annog perchnogion eiddo trwyddedig i gynnig awyrgylch diogel i'w holl gwsmeriaid, heb wahaniaethu drwy rym yr amcanion trwyddedu |
| **Anabledd** | Positif | Pwrpas y polisi yw lleihau unrhyw effaith negyddol, oherwydd fod cydraddoldeb yn greiddiol i ystyriaethau'r polisi. Mae'r Cyngor a'r Polisi yn hyrwyddo ystyriaethau i anghenion unigolion anabl mewn perthynas i fynediad i eiddo trwyddedig. Mae y polisi drwy hyrwyddo yr angen i ymgeisydd am drwydded eiddo i ystyried effaith sŵn ar gymdogion, ac fe all hyn gael effaith bositif ar les unigolion mewn perthynas a chyflyrau niwro amrywiaeth.<br>Mae'r polisi yn annog perchnogion eiddo trwyddedig i gynnig awyrgylch diogel i'w holl gwsmeriaid, heb wahaniaethu drwy rym yr amcanion trwyddedu |
| **Rhyw** | Positif | Effaith positif ran cydraddoldeb rhywiol, oherwydd fod yr amcanion trwyddedu yn hyrwyddo diogelwch , ac fod eiddo trwyddedig yn cael ei hannog i hyrwyddo materion |

| | | |
|---|---|---|
| | | diogelwch personol , megis atal trais i fenywod , ac ymgyrchoedd atal sbeicio<br>Mae'r polisi yn nodi fod angen i'r awdurdod drwyddedu fod yn gadarn o ran cyfyngu /atal adloniant i oedolion mewn eiddo trwyddedig, fel nad oes risg fod merched yn cael eu hecsbloetio.<br>Mae dynion yn fwy tebygol o fod yn dioddef trais mewn sefyllfaoedd lle mae gôr yfed alcohol yn digwydd. Mae'r polisi yn annog hyrwyddo yfed cymedrol, ac amodau trwydded yn gwahardd gemau yfed sydd yn annog yfed anghyfrifol. |
| **Oedran** | Positif | Effaith positif o ran unigolion o dan 18 – amcanion trwyddedu ac amcanion y polisi yn hyrwyddo diogelwch unigolion o dan 18 rhag niwed alcohol .<br>Mae'r polisi hefyd yn hyrwyddo iechyd pobl oed gwaith a phobl hyn hefyd gan fod angen rhoi ystyriaeth i effaith gronnol lleoli sawl eiddo trwyddedig mewn ardal fychan , yn ogystal a bod yn hyrwyddo cyfyngu amser mae alcohol ar werth yn hwyr yn y nos ac yn fuan yn y bore. Mae eiddo trwyddedig sydd yn cynnig awyrgylch diogel a chyfforddus hefyd yn annog pobl hyn i ymgynnull i gymdeithasu. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Effaith positif bychan - gan fod y polisi yn hyrwyddo eiddo trwyddedig sydd yn le diogel a theg heb wahaniaethu, |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif | Mae'r polisi yn cael effaith bychan positif oherwydd fod yn annog ystyriaeth o addasrwydd lleoli eiddo trwyddedig – er enghraifft ystyried os oes addoldai ger llaw. Hefyd , mae'r polisi yn hyrwyddo eiddo trwyddedig sydd yn groesawgar gyda awyrgylch diogel a theg i bawb. Mae'r Polisi yn annog eiddo trwyddedig i fod yn cynnig amrywiaeth o ddiodydd heb alcohol, ac annog defnydd o eiddo trwyddedig lle y gall rhywun deimlo'n gyfforddus ar yr eiddo heb fod yn yfed alcohol. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Mae polisi yn annog perchnogion eiddo trwyddedig i gynnig awyrgylch diogel i'w holl gwsmeriaid, heb wahaniaethu drwy rym yr amcanion trwyddedu |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Mae'r Polisi yn annog eiddo trwyddedig i fod yn cynnig amrywiaeth o ddiodydd heb alcohol, ac annog defnydd o eiddo trwyddedig lle y gall rhywun deimlo'n gyfforddus ar yr eiddo heb fod yn yfed alcohol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Dim |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Mae defnydd o'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, ac anogir ymgeiswyr i ddarparu arwyddion a gwasanaeth dwyieithog. (Gweler 3.3) |

| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod y diwydiant adloniant yng Ngwynedd yn cyfrannu at yr economi leol. Mae'n denu twristiaid ac ymwelwyr, yn gwneud trefi a chymunedau bywiog ac yn gyflogwr mawr. Mae disgwyliad cyfiawn gan feddianwyr masnachol eiddo hefyd o amgylchedd sydd yn atyniadol ac yn gynaliadwy ar gyfer eu busnesau. Ond rhaid cael cydbwysedd gydag anghenion y boblogaeth breswyl – mae dyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu i sicrhau and yw datblygiadau yn y maes lletygarwch ac adloniant yn cael effaith negyddol ar fwynderau a phoblogaeth yr ardal.<br>Bydd y Cyngor drwy'r Polisi hefyd yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach sydd yn effeithio ar fwynderau unrhyw ardal. Mae'r rhain yn cynnwys sbwriel a baeddu, sŵn, trosedd ar y stryd a chapasiti isadeiledd y sir, adnoddau heddlu i ymdopi â'r mewnlifiad o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod y nos.<br>Mae y Polisi yn annog perchnogion busnesau trwyddedig i fod yn ymwybodol fod unigolion sydd yn gaeth i gyffuriau neu alcohol ; neu sydd gyda problemau iechyd meddwl angen cefnogaeth , ac anogir busnesau i hyrwyddo ymgyrchoedd a chysylltiadau lle gall gwsmeriaid geisio cymorth.<br>Os oes tystiolaeth fod ardal benodol o'r sir eisoes yn dioddef effeithiau andwyol o ganlyniad i grynodiad o eiddo hwyr yn y nos, neu fod yr ardaloedd preswyl hynny dan straen, rhoddir ystyriaeth i fabwysiadu 'Polisi Dirlawnder' o dan y Polisi hwn<br>Effaith polisi o'r fath yw y gallai awdurdod trwyddedu wrthod ceisiadau am Drwydded Eiddo newydd, oni bai y gallai ymgeisydd ddangos pam na fyddai gweithrediad yr eiddo dan sylw yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol a'r ffactorau economaidd gymdeithasol sydd eisoes yn cael ei brofi |
|---|---|---|

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Effaith positif bychan gan fod perchnogion eiddo trwyddedig yn cael eu hannog i greu awyrgylch cynhwysol drwy gydymffurfio a'r amcanion trwyddedu, a chroesawu pawb mewn cymdeithas , heb wahaniaethu. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Effaith positif bychan, gan fod y Polisi a'r diwydiant yn hybu cyfleon cyfartal |
| **Meithrin perthnasau da** | posib | Mae y Polisi yn hyrwyddo perchnogion busnesau trwyddedig i annog awyrgylch groesawgar i bobol gael cymdeithasu mewn amgylchedd ddiogel. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae yr Awdurdod Trwyddedu yn annog perchnogion busnesau trwyddedig , a threfnwyr digwyddiadau mawr i fod yn gweithio gyda eu cymunedau er mwyn hyrwyddo egwyddorion sydd yn bwysig yn y gymuned honno, megis gweithgareddau cymdeithasol drwy'r Gymraeg. Mae cefnogaeth ac anogaeth ( ond dim ffafriaeth) yn cael ei roi i geisiadau am drwydded eiddo gan fentrau cymunedol lle mae pobl leol yn ariannu ac yn ymrwymo i gynnal , cadw a rhedeg tafarndai lleol sydd wedi cau , er mwyn hyrwyddo cymdeithasu , a diwylliant Cymreig.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Dim wedi ei adnabod

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol?**

**(Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

| |
|---|
| Gweler blwch Anfantais economaidd gymdeithasol yn rhan 3.1<br><br>Mae hyblygrwydd oddi fewn i'r polisi, a phob adolygiad o'r polisi i ystyried unrhyw nodweddion economaidd gymdeithasol neu unrhyw anghydraddoldebau sydd yn unigryw i'r sir , ac mae hynny yn cael ei gyfarch yn ystod y cylch adolygiad 5 mlynedd. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Mae'r Polisi yn seiliedig ar dempled rhanbarthol a ddefnyddir gan gynghorau Gogledd Cymru, fe fyddai gwyriad sylweddol o'r templed yn creu anghysondeb a all arwain at anghydraddoldeb . |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Er nad yw yr effaith yn un sylweddol bositif; mae effaith positif bychan ar y cyfan i'w gymharu ar effaith bychan negyddol fyddai yn bodoli os na fyddai polisi mewn lle |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Gweler uchod |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | IA |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |

| | |
|---|---|
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Fe fydd y polisi a'i asesiad effeithiau yn cael ei adolygu yn rheolaidd , a sicrhau fod y diwydiant yn rhoi ystyriaeth dilys i'r polisi |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Ni adnabuwyd unrhyw effeithiau negyddol . |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Adolygir y polisi bob 5 mlynedd, ac mae ymgynghoriad cyhoeddus statudol ar ddiwedd y cylch adolygiad , gyda cyfle i newid unrhyw agweddau sydd yn cael effaith negyddol. Byddwn yn adolygu'r asesiad effaith yn ôl yr angen. |

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HIDCC/05039/24

Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes
Cadeirydd y Cyngor
Gwynedd Council

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

22 Ebrill 2024

Annwyl Cynghorydd Hughes,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mawrth ynghylch y cynigion a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd.

Mae ffermio yn bwysig iawn i Gymru, ein heconomi, ein tirwedd a'n diwylliant ac rydym eisiau dyfodol llwyddiannus i ffermio yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig wedi'i gynllunio i gefnogi holl ffermwyr Cymru drwy Daliad Sylfaenol Cyffredinol, yn seiliedig ar gwblhau set o Weithredoedd Cyffredinol. Mae'r Cynllun Cyffredinol yn rhoi lefel o sicrwydd a sefydlogrwydd i ffermwyr gan y byddant yn gwybod lefel eu hincwm a ragwelir bob blwyddyn.

Mae'r Cynllun yn cael ei gynllunio i gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn ffordd sydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae cynhyrchu bwyd yn hanfodol, fodd bynnag, yr argyfwng hinsawdd yw'r prif risg i gynhyrchu bwyd yn y tymor hir, ac mae ein hecosystemau naturiol fel plannu coed ychwanegol yn un o'r amddiffyniadau gorau sydd gennym ar gyfer addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd.

Rydym am weld coed yn cael eu hymgorffori yn y system ffermio ac rydym yn parhau i archwilio lle gall plannu coed ychwanegol fod yn ased i'r fferm fel lleiniau cysgodi yn erbyn tywydd cynyddol anghyson, fel nad yw'n ddewis rhwng coed neu cynhyrchu bwyd. Byddwn yn darparu cymorth ariannol i'r rhai y gallai fod ei angen arnynt i blannu coed ychwanegol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hwn yn ymgynghoriad gwirioneddol, ac ni fydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud ar unrhyw elfen o'r cynnig, gan gynnwys sut rydym yn cyflawni'r gofyniad am gynefin a choed, hyd nes y byddwn wedi cynnal dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rwy'n disgwyl yn llwyr i rai newidiadau gael eu gwneud i'r cynigion o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs